# Y DRYSORFA.

Rhif. 713.] MAWRTH, 1890. [Llyfr LX.

## ATTAL Y FASNACH.

GAN Y PARCH. DANIEL ROWLANDS, M.A.

Y mae sobrwydd y genedl yn fater nad all unrhyw ddyn ystyriol lai na theimlo dwfn ddyddordeb ynddo, ac yn fynych nid yw yn bosibl i neb o'r fath beidio pryderu yn fawr yn ei gylch. Wedi yr holl ymdrechion a wnaed yn ein gwlad o'i blaid, y mae ffeithiau alaethus yn barhaus yn dyfod i'n sylw sydd yn dangos fod yr afael sydd gan hudoliaeth y ddiod feddwol ar ein cydwladwyr yn ofnadwy o gref, ac fod y difrod a achosir trwy hyny yn fawr iawn. Ac ofnwn mai ychydig ydyw ein hymdrech yn y dyddiau hyn yn erbyn anghymedroldeb. Yr oedd y deffröad Cymreig yn yr achos yma ar y dechreu yn rhywbeth ag y gallwn fel cenedl fod yn falch o hono. Tra mewn rhanau eraill o'r deyrnas y pregethid sobrwydd gan rai y tu allan i grefydd, ac y cymerid mantais yn fynych ar hyny i'w darostwng, fe ddaeth dynion sancteiddiaf Cymru allan, a bron fel un gŵr, i alw ar eu cydwladwyr i ffoi rhag y perygl yr oeddynt ynddo, gan bregethu llwyr-ymwrthodiad â'r diodydd meddwol fel yr unig ymwared sicr oddiwrth eu melldith. Ac y mae yr effaith a adawodd hyny ar ein gwlad wedi bod yn ddaioni anmhrisiadwy. Y mae cydwybod Cymru wedi ei hennill o blaid achos ardderchog sobrwydd. Ond ynglŷn â hyn y mae perygl ag y mae lle i ofni nad ydym y dyddiau yma ond i fesur bychan yn fyw iddo: fe'n temtir i feddwl fod y frwydr wedi ei hymladd, a'r fuddugoliaeth wedi ei sicrhau; tra y mae pobl y tafarnau yn ei wneyd yn *bwnc bywoliaeth* i gadw eu drysau yn agored ac i wneyd eu temtasiwn i'w cymydogion mor gref ag y mae yn bosibl; ïe, a thra y mae ein cydwladwyr wrth y miloedd yn cael eu handwyo gan y diodydd a werthir ganddynt. Y mae yn fater o fawr lawenydd fod pobl grefyddol Lloegr erbyn hyn wedi deffro yn fawr, ac yn gweithio yn rhagorol gyda'r achos hwn. Y mae Dirwest yn cael lle amlwg yn eu prif gynnulliadau; ac nid ydyw yn ormod gan y gŵyr enwoc-af a feddant, yn y pulpudau ac ar esgynloriau, ymdrechu â'u holl egni i gael gan eu cydwladwyr ymwrthod yn gwbl â'r diodydd ag y mae bellach wedi ei brofi mor eglur nad allant wneuthur iddynt unrhyw les, ond sydd yn barhaus, ac i'r fath niferi, yn profi yn gymaint trychineb. Na fydd-ed i ninnau yn Nghymru foddloni ar sefyll ac edrych, pan y mae cynifer o'n cymydogion trwy ddiota yn cael eu "llusgo i angeu."

Ond yn ychwanegol at ein rhwymed-igaeth i wneyd ein rhan tuag at sicr-hau ein diogelwch ein hunain a diogel-wch ein cymydogion rhag y temtas-iynau mawrion a osodir yn ein ffordd gan y fasnach yn y diodydd meddwol, y mae y cwestiwn yn ymwthio fwyfwy i'n sylw, ac yn hawlio ein hystyriaeth fwyaf dwys,—A ddylai masnach mor beryglus gael ei goddef o fewn ein

gwlad? Y mae rhai pethau ag y mynai pobl ddrygionus elwa oddiwrthynt, ond y mae y wladwriaeth, a hyny er mwyn diogelwch y boblogaeth, wedi eu gwneuthur yn anghyfreithlawn. Fe deimlid fod lles cymdeithas yn galw am wneyd i ffwrdd â phuteindai, ac â thai i *gamblo*, a symud ymaith bob budreddi fo yn peri perygl i iechyd y bobl; ac am hyny fe wnaed y pethau hyny yn anghyfreithlawn, a chosbir pwy bynag a fyddo yn euog yn y cyfryw bethau o dori cyfreithiau y deyrnas. Ac nid oes neb a ddadleuai am fynyd yn erbyn y cyfryw gyfreithiau. Ond os ydyw diogelwch cymdeithas yn galw am amddiffyn cyfraith rhag pethau felly, ai tybed nad ydyw y drygau mawrion a achosir yn feunyddiol gan y fasnach yn y diodydd meddwol yn galw am amddiffyn i'r deiliaid rhag-ddynt, trwy wneyd y fasnach hono hefyd yn anghyfreithlawn? Fe siaredir nid yn anfynych am Ddirwestwyr fel penboethiaid, a rhai na ddylid dysgwyl dim oddiwrthynt ond mewn ymadroddion fo yn afresymol o eithafol. Ond mewn gwirionedd ni all neb edrych am fynyd yn wyneb y drygau a gynnyrchir trwy ymyfed, heb deimlo fod y geiriau cryfaf yn rhy weiniaid i'w desgrifio. Am hyny yr ydym yn cael gŵr mor alluog i bwyso ei eiriau a Mr. Gladstone yn dyweyd fod y fasnach mewn diodydd meddwol yn "cynnyrchu drygau unedig y rhyfel, yr haint a'r newyn;" ac ni allai Arglwydd Randolph Churchill lai na'i galw "yn ddieflig a dinystriol." A phan feddyliom fod yn rhaid cymeryd 300,000 o'n cyd-ddeiliaid bob blwyddyn i garcharau o herwydd meddwdod, ac fod lladdedigion ymyfed yn y deyrnas bob blwyddyn, yn ol cyfrifon manwl Dr. Norman Kerr—ac nid oes neb wedi gallu eu profi yn anghywir—yn uniongyrchol ac anuniongyrchol, yn 120,000, ni allwn yn sicr lai na phenderfynu fod ymadroddion cryfion y gwŷr y cyfeiriasom atynt yn "eiriau gwirionedd a sobrwydd." Y mae y wladwriaeth wedi gwneyd y pethau eraill a enwasom yn anghyfreithlawn trwy awdurdod y Senedd yn unig, ac yn hollol briodol felly; ond ni ofynir am attaliad felly ar y fasnach feddwol, er y credwn y byddai hyny yn beth tra phriodol; eithr gan gymeryd i ystyriaeth fawr nerth y chwant at y ddiod y mae dynion yn gynneu yn eu natur wrth ymwneyd â hi, y cwbl a ofynir ydyw gallu i'r bobl eu hunain, os byddant trwy fwyafrif digonol yn galw am hyny, i ddadgan nad ydyw y fasnach hon i gael ei goddef mwyach o fewn eu terfynau. A oes rhywbeth sydd yn afresymol yn hyny?

Bid sicr, fe ellid dyweyd nad oes dim yn eisieu ond perswadio y bobl i beidio yfed i ormodedd. Ac yn wir gwelsom yn ddiweddar fod Ficer Greenwich yn ceisio dysgu fod rhagoriaeth llawer uwch mewn bod yn rhinweddol yn nghanol temtasiynau, nag mewn cael y temtasiynau wedi eu symud ymaith. Yn ol hyny, goreu po fwyaf o demtasiynau, a dilëer ar unwaith yr attaliadau ar buteindai a nythleoedd *gamblo*, gan adael i'r diafol a'i weision ymhob ffordd eu llawn rwysg ar y boblogaeth! Ond nid felly y dysgasom ni egwyddorion mawrion moesoldeb. Y mae ein gallu i wrthsefyll temtasiynau mor fychan, fel mai goreu po leiaf o honynt a osoder yn ein ffordd; ac yn sicr os ydyw llywodraeth gwlad yn dda i rywbeth, fe ddylai amcanu at "ei wneuthur yn hawdd i'r bobl wneyd da, ac yn anhawdd iddynt wneyd drwg." Ac y mae yn deilwng cofio mai y bobl sydd wedi gweithio yn galed, a hyny dros lawer o flynyddoedd, i geisio diogelu eu cydwladwyr rhag peryglon y fasnach feddwol, ond wedi gweled eu hymdrechion mwyaf egniol, a hyny filoedd o weithiau, yn cael mwy na'u gwrthweithio gan hudoliaethau y fasnach ofnadwy hon, ydyw y rhai sydd

ddyfnaf eu hawydd am gael deddfwriaeth y deyrnas i benderfynu bod yn eu herbyn. Ni fu neb a ymdrechodd fwy o blaid sobrwydd na Father Matthew, ac ni fu neb yn fwy llwyddiannus. Fe gafodd fyrddiynau o'i gydwladwyr, a hyny mewn zel y gallesid dysgwyl iddi fod yn anniffoddadwy, i gymeryd yr ardystiad. Dechreuodd ar ei lafur yn 1838, a'r fath fu ei lwyddiant fel yr oedd swm y gwirod a yfwyd yn Iwerddon yn 1839 yn llai o ddwy filiwn o alwyni nag yn 1838; erbyn 1840 yr ydoedd yn llai o 4,000,000 o alwyni na'r cyfartaledd am y blynyddoedd 1835—9; yr ydoedd yn llai o filiwn drachefn yn 1841; yn 1842 yr ydoedd yn llai drachefn o fwy na miliwn o alwyni; ac nid ydoedd y flwyddyn hono ond llai na hanner yr hyn ydoedd yn 1839,—5,290,650 o alwyni, yn lle 10,815,709. Os bu llwyddiant erioed ar berswadio, dyma lle y bu. Ond cyn ei ymadawiad, yr oedd y gŵr da hwnw yn tori ei galon wrth weled fel yr oedd y tafarnau agored wedi bod gymaint yn drech nag ef, a'i waredigion—y llawenychasai yn gymaint ynddynt!—wedi eu cymeryd ymaith wrth y miloedd a'r degau o filoedd, yn safn y llifeiriant. Ac y mae yn hyfryd meddwl y cysurid ei fynydau olaf yn y wawr o obaith a welai yn ffurfiad yr *Alliance* i'r dyben o geisio gwneyd i ffwrdd â masnach mor andwyol. Nis gallwn weled fod un rheswm a ellid ddadleu o'i phlaid a gyfiawnhâi fodolaeth masnach sydd yn gwneyd cymaint o ddifrod. Ac y mae ei chondemniad cryfaf yn codi oddiar y dychryn a'r atgasrwydd a deimlir tuag ati gan y trueiniaid ag sydd wedi eu darostwng yn gymaint ganddi fel ag i fod yn rhy weiniaid i wrthsefyll ei hudoliaethau. Mae y rhai hyn yn ei melldithio â'u holl galon; hwynt-hwy yn wir ydynt y *prohibitionists* mwyaf penderfynol yn yr holl deyrnas. Ac eto y mae llywodraeth y wlad yn gosod y fasnach hon o dan ei nawdd arbenig. Yr ydys i gofio, sut bynag, mai *yn y bobl* y gorphwys gallu y llywodraeth bellach; ac y mae o ddirfawr bwys eu bod hwy yn cael eu cyfarwyddo pa fodd i grynhoi eu nerth, fel y gallont, pan ddelo yr adeg briodol, ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ag i sicrhau iddynt eu hunain, ac i'w plant, ymwared oddiwrth beryglon y fasnach mewn diodydd meddwol.

Ac y mae y profiad a gafwyd ar bob symudiad a wnaed mewn ffordd o osod attaliad ar y fasnach hon yn ein calonogi yn fawr i ddysgwyl y daioni mwyaf oddiwrth ei llwyr ddiddymiad. Y mae llywodraeth Prydain wedi cymeryd digon o drafferth gyda hi. Yn y pedwar neu y pum' can' mlynedd diweddaf, fe gyfrifir fod o bedwar i bum' cant o Actau Seneddol wedi eu pasio i geisio cael rhyw wastrodedd arni. Ond os oes rhywbeth wedi ei brofi mewn perthynas iddi, dyna ydyw, ei bod yn "ddrwg anllywodraethus." Yr unig ymwared a gafwyd oedd mewn gosod rhyw fesur o attaliad arni. Y mae cyfyngu ar yr oriau i gadw y tafarnau yn agored ymhob man wedi profi yn fendithiol iawn. Ac y mae eu cau ar y Sabboth—yn Scotland, yn Iwerddon, ac yn Nghymru—wedi bod yn ddaioni na ellir amgyffred ei werth. Mae yn wir fod y rhai a deimlant fod "gobaith eu helw" yn y chwareu, yn grwgnach ac yn cadw llawer o swn, fel yr oedd eu henafiaid er ys llawer dydd yn Ephesus pan oedd gwasanaeth eu duwies fawr, Diana, mewn perygl. Fe haerid fod pethau yn waeth o lawer nag erioed yn Scotland ac Iwerddon wedi pasio eu deddfau i gau ar y Sabboth, a chan faint y trwst a wneid fe allesid meddwl fod y ddwy wlad yn gruddfan am gael eu diddymu. Ond wedi gwneyd ymofyniad llawn, gan *Royal Commission* yn y naill, a *Select Parliamentary Committee* yn y llall, fe gaed fod yr holl boblogaeth, yn y naill wlad a'r llall, am gael eu Sabbothau yn rhyddion oddi-

wrth derfysg a pheryglon y tafarnau. Ac felly, fe ŵyr pawb, am Gymru lân! Ni fu yn ein holl hanes waradwydd mwy na'r ymdrech benderfynol a wnaed yn ddiweddar i gael gan yr holl deyrnas i gredu fod ein deddf i gau ar y Sabboth wedi profi yn felldith i Gymru. A phan ofynodd yr aelod dros Oldham—na wyddai ddim am Gymru, ac na faliai o gŵbl yn ei chylch—yn Nhŷ y Cyffredin, Ai ni fyddai i Lywodraeth ei Mawrhydi benodi *Royal Commission* i chwilio i fewn i'r peth, fe'i hatebwyd yn y fan, Gwnawn, siwr! Mor awchus oedd y bobl anrhydeddus sydd yn gwneyd i fyny y corff urddasol hwnw i wneyd cymwynas i'w cariadus frodyr y tafarnwyr. Fe dreuliodd y pump estron a benodwyd i'r gwaith hwnw dair wythnos, gyda thraul fawr, i wneyd yr ymchwiliad. Ac y maent wedi gorphen eu gwaith, a chael eu neges. Nis gwyddom beth fydd yr adroddiad a gyflwynant i'r Senedd, ac nid ydym yn gofalu nemawr yn ei gylch. Mae yn ddigon genym fod y tystiolaethau wedi eu rhoddi, ac y byddant yn aros. Ni theimlasom un amser yn fwy balch o'n cydwladwyr nag wrth ddarllen y tystiolaethau hyny. Mae yn wir fod ychydig dafarnwyr a darllawyr, ac ambell i *chief constable* a golygydd papyr newydd Seisonig, a pherson, ac ambell i foneddwr o Sais a'i tybiai ei hun yn ddoethach mewn materion o'r fath na myrdd o Gymry yn adrodd rheswm, yn ceisio darostwng y ddeddf ac yn galw am ei dileu; ond am y Cymry mwynion a roddent eu llais, yr oeddynt hwy oll, o ben Caergybi i ben Caerdydd, fel un gŵr yn dwyn tystiolaeth i'r dirfawr les a ddaethai i'n gwlad trwyddi, ac yn galw yn unig am ei chryfhau trwy roddi attalfa ar grwydriadau barus y *bona fide traveller*, a chael gan yr ustusiaid fod yn ffyddlawn i'w llŵ o ffyddlondeb i'r Goron trwy weinyddu y ddeddf hon yr un modd a holl ddeddfau eraill y deyrnas.

"Pa wlad, wedi 'r siarad sydd
Mor lân a Chymru lonydd?"

Ac y mae arnom eisieu ychwaneg. Mae yn sicr fod y teimlad yn ffafr rhoddi gallu i'r trethdalwyr ar y fasnach feddwol yn gryf iawn yn ein gwlad cyn pasio y ddeddf i gau ar y Sabboth; ond wedi hyny y mae yn amlwg ei fod wedi dyfod yn llawer cryfach. Mae y profiad bendigaid a gaed ar Sabbothau tawel wedi peri i liaws, na feddylient lawer am hyny o'r blaen, wynfydu na ellid estyn yr un drefn dda dros yr holl wythnos. Ni allai dim fod yn fwy boddhaol i ddangos hyn na'r gwerinlais, y *plebiscite*, a gymerwyd yn ddiweddar mewn gwahanol ardaloedd yn Ngogledd Cymru dan gyfarwyddyd Cymanfa Ddirwestol Gwynedd. Rhoddwyd papyrau i'w llanw gan bob tŷ-ddaliwr, yn rhoddi lle iddo ddadgan ei farn ar ddau gwestiwn mawr: A ydoedd o blaid rhoddi gallu i'r trethdalwyr ar dr wyddedu; ac A ydoedd o blaid attal y fasnach mewn diodydd meddwol. Golygai y cyntaf *local option*, a golygai yr ail *prohibition*. Yr oedd lle ar y papyrau i roddi croes i ddynodi Ydwyf, neu Nac ydwyf, neu Anmhleidiol. Mae yn ddiau y buasai y gwaith yma lawer yn fwy blaenllaw oni buasai am y rhwystr pwysig a osodwyd yn ei ffordd y llynedd gan waith y Llywodraeth yn ceisio troi trwydded y tafarnau yn etifeddiaeth, ac felly waddoli "masnach ddieflig a dinystriol" —yn ol desgrifiad un o'i chyfeillion—â rhyw £500,000,000. Ac eleni drachefn, fe ddangosodd yr un Llywodraeth barodrwydd gwaradwyddus i wrando ar ysgrech ein gelynion, y rhai a fynent ein hysbeilio o'n Sabbothau; a bu raid i ni yn mhob man ddeffro i ddal ein gafael ynddynt. Ond fe lanwyd y papyrau y cyfeiriwyd atynt gan 23,000 o dŷ-ddalwyr; ac o'r nifer da yna, nid oedd ar y cwestiwn cyntaf ond rhyw bump y cant yn anmhleidiol, a rhyw bump y cant yn

erbyn, tra yr oedd o blaid rhoddi gallu i'r trethdalwyr ar y fasnach *89 y cant!* Ar bwnc yr attaliad eto, yr oedd 78 y cant o blaid, tra nad oedd ond rhyw 13 y cant yn erbyn, ac 8 y cant yn anmhleidiol. Hyderwn yn fawr y bydd yr ardaloedd yn y Gogledd sydd eto heb wneyd y gwaith hwn, yn fuan yn ymgymeryd âg ef, ac yn ei wneyd mor drwyadl ag y bo modd. A phaham nad allai ein brodyr yn y Deheudir ymgymeryd â'r un gwaith? Pe ceid llais holl dŷ-ddalwyr y Dywysogaeth ar y mater, mae yn dra thebyg y ceid fod tua 80 allan o bob cant o'n tŷ-ddalwyr yn galw am allu i'r bobl ar fasnach ag y proffesir ei bod yn cael ei chario ymlaen er eu mwyn, ond y maent hwy eu hunain yn dyfod i deimlo yn fwyfwy ei bod yn eu handwyo. Fe roddai hyny nerth i Mr. Bowen Rowlands wrth ddwyn ei fesur o Ddewisiad Lleol i Gymru o flaen y Senedd a'i gwnelai, er holl gryfder y gelyn, yn anwrthwynebol.

Ac nid ydyw yn bosibl i ni gau ein llygaid ar y byd hyfryd sydd ar yr ardaloedd a'r gwledydd lle nad oes tai i werthu diodydd meddwol. Wrth reswm, nid oes ddiffyg ynddynt am gyflawnder o ddarpariaeth ar gyfer teithwyr, ac i gyfarfod â phob anghen am dai cyhoeddus; ac ni theimlir fod y cyfleusderau hyny yn llai, ond yn llawer mwy eu gwerth o herwydd fod y ddiod feddwol wedi ei chau allan o honynt. Yr oedd Pwyllgor y Confocasiwn flynyddoedd yn ol wedi cael allan fod 1500 o blwyfydd yn Lloegr a Chymru nad oedd tafarn o'u mewn, a phrin yr oedd eisieu ychwanegu mai ynddynt hwy yr oedd mwyaf o hapusrwydd. Y mae saith o blwyfydd felly yn nesaf at eu gilydd yn ochr ddwyreiniol Môn, ac y maent yn dra dedwydd a llwyddiannus. Pwy ni ŵyr mai y rhan fwyaf Paradwysaidd o Liverpool ydyw Parliament Fields, lle y gofalodd ein cydwladwr parchus, Mr. John Roberts, A.S., na chai fod cymaint ag un dafarn o fewn eu terfynau. Yr un modd am Saltaire yn Yorkshire, a Bessbrook a County Tyrone yn Iwerddon, a Shaftesbury Park a Victoria Park gerllaw Llundain, a llawer o fanau eraill yn y deyrnas hon lle nad oes, ac na chaiff fod tafarnau, a hyny o herwydd ewyllys y perchenogion. Ac os oes gan berchenogion gymaint a hyny o allu, a hwnw yn cael ei arfer mewn ffordd sydd mor foddhaol gan y rhai sydd yn byw ar eu hetifeddiaethau, a ydyw yn ormod i lywodraeth y wlad hon roddi gallu cyffelyb i fwyafrif digonol o'r bobl eu hunain i benderfynu pa un a ddymunent gael tafarnau wrth eu drysau ai peidio?

Am brofiad America yn hyn, y mae yn derfynol, ac ymhob ystyr yn dra boddhaol. Mae yn wir ein bod, yn awr ac yn y man, yn clywed newyddion cyffrous am "fethiant," "cwbl fethiant," "methiant gwaradwyddus," &c., y deddfau attaliol yn America. A hawdd meddwl, pan y mae pobl bwerus y fasnach yn ymladd dros "obaith eu helw," a slafiaid truenus chwant yn cael eu hudo neu eu prynu i ymladd dan eu baneri, fod y frwydr raid i gyfeillion sobrwydd ymladd yn fynych yn un galed, a'u bod ambell dro yn colli y dydd. Ac y mae mor sicr a hyny fod y cyfryngau, trwy ba rai y mae y fath newyddion "cyffrous" yn ein cyrhaedd, yn fynych yn dra annheilwng o ymddiried. Yr ydym cyn hyn wedi cael "boneddigion" â digon o bres ar eu hwynebau i sefyll ar lawr Tŷ y Cyffredin i ymffrostio yn y triciau dirmygedig nad oedd yn ormod gan eu boneddigrwydd ddefnyddio, yn rhai o'r talaethau attaliol, er mwyn cael diod feddwol, ac am hyny yn dadleu yn erbyn pob deddfau attaliol. Am eu bod hwy wedi bod yn ddigon o *scoundrels*, a defnyddio gair rhagorol Arglwydd Aberdâr, i dori cyfreithiau gwlad gyfeillgar, ac felly i haeddu cael eu cau i fyny yn ei charch-

arau, y maent, o herwydd iddynt fod yn ddigon o gnafiaid i allu dianc, yn ddigon haerllug i sefyll yn Senedd anrhydeddusaf y byd i wawdio ymdrech y wlad hono i ddiogelu sobrwydd a rhinwedd ei thrigolion; ac ysywaeth, fe'u goddefid i wneyd hyny heb eu hwtio! Heblaw hyny, fe wyddys fod cyfoethogion America, gan deimlo fod y llong yn myned i lawr, yn tynu eu harian o'r fasnach, ac nad oes dim llai nag *wyth miliwn o bunnau* o arian Lloegr wedi eu rhoddi yn ddiweddar, mewn ychydig amser, yn narllawdai America; ac wrth reswm nid yw yn anhawdd i'r fath allu, fel Briareus gyda'i gan' llaw, beri ei deimlo mewn llawer o gyfeiriadau, ac ymhob man yn ffafr y fasnach "ddieflig a dinystriol." Dyma yr awdurdodau sydd yn galw am i ni eu credu pan yn brygawthan am "hollol fethiant" y deddfau attaliol yn America. Ond yn ffodus, y mae genym gyflawnder o dystiolaethau sydd yn anfesurol fwy dilys, ac o natur dra gwahanol; ac y mae genym ffeithiau i gyfeirio atynt sydd o anfesurol werth. Clywsom lawer am dalaeth Maine. Pasiwyd ei deddf attaliol gyntaf hi yn 1851, trwy fwyafrif o'r boblogaeth o ddau am un. Ymhen 33 mlynedd, yn 1884, yr oedd y peth yn bwnc etholiad drachefn, ac wedi cymaint a hyny o brofiad arni, fe gadarnhäwyd y ddeddf mewn etholiad cyffredinol, a hyny trwy fwyafrif o 47,000, neu *dri am un*. A mwy o lawer: y pwnc yn 1884 oedd, nid parhau neu beidio y ddeddf attaliol am dair blynedd, ond *pasio y fath welliant yn nghyfansoddiad llywodraeth y dalaeth fel ag i wneyd yn anmhosibl mwyach, na thrwy ddeddfwriaeth na thrwy etholiad, i ganiatâu tafarnau o'i mewn o gwbl.* O blaid hyny yr oedd 70,000 yn votio, a 23,000 yn erbyn, ac felly yn rhoddi mwyafrif o 47,000, neu dri am un, o blaid cau tafarnau allan o Maine am oes y byd! Mae ein cefndryd yn America wedi cael y fath brofiad bendithiol ar ddeddfau attaliol, a hyny mewn cynifer o ranau o'u gwlad fawr, fel mai "y gwelliant cyfansoddiadol," y *constitutional amendment*, ydyw yr hyn y maent yn awr yn gosod eu bryd arno. Y mae hyny wedi ei sicrhau eisoes yn Maine, Kansas, Iowa, North Dakota, a South Dakota. Ac y mae llawer eraill yn parotoi i ddyfod ar eu hol. Gwelsom fod rhai yn dyfod i roddi eu pleidlais ar bwnc "y gwelliant cyfansoddiadol" yn y talaethau a enwyd, ac ar y pryd yn feddwon eu hunain; ond dyna a ddywedent, "Drunk or sober, let us have the streets clear for the boys:" 'Meddw neu sobr, gadewch i ni gael yr ystrydoedd yn glir i'r bechgyn!' Peth fel yna,—mawl i Lywodraethwr bendigedig nefoedd a daear,—ydyw y "methiant hollol" sydd yn dilyn deddfau attaliol yn America.

Mae "y bechgyn" o'n hamgylch ninnau, ac yn dyfod ar ein hol; yn wir, ni a glywn drwst traed oesoedd y dyfodol yn rhodio y ffyrdd ag yr ydym ni yn awr yn eu tramwy; gadewch i ni gael yr ystrydoedd yn glir iddynt! "Palmentwch, palmentwch, parotowch y ffordd; symudwch y rhwystr o ffordd fy mnobl."

---

## SYLWADAU COFFADWRIAETHOL AM Y DIWEDDAR BARCH. ROBERT WILLIAMS, LLANUWCHLLYN.

*Gan y Parch.* HUGH ROBERTS, *Rhydymain.*

GANWYD y Parch. Robert Williams mewn tyddyn bychan dysyml, o berchenogaeth Syr W. W. Wynn, a elwir y Wernddu. Saif y lle yn Cwmpenanlliw Bach, yn agos i filldir a chwarter o orsaf y rheilffordd, ac ynghylch tri chwarter milldir o Gastellcarndochan, y lle y bu yn trigiannu ynddo trwy ei oes,—bwthyn tô gwellt taclus, o'r fath a garai yr hen Gymry. Ei dad oedd Cadwaladr, mab William Dafydd, Ty'nybryn; ei fam oedd Margaret, merch y Deildref Isa'. Yr

oedd yn ieuengaf o wyth o blant,—sef William, Gwen, Rowland, Catherine, John, Margaret, Jane a Robert. Bedyddiwyd ef yn Nghapel yr Annibynwyr, yn Rhosyfedwen, gan y Parch. George Lewis, D.D. Derbyniodd ei addysg gyda y Parch. Michael Jones yn yr Hen Gapel. Dechreuodd bregethu yn y Tŷ isa yn y Llan, lle y cynnelid y moddion Sabbothol gan blaid pobl Dr. George Lewis, neu yn hytrach, dysgyblion Dr. Lewis. Cafodd ei ddwyn i fyny ar un o'r aelwydydd mwyaf crefyddol. Yr oedd pregethu mewn bri mawr yn y teulu. Yr oedd John a Robert yn chwareu pregethu bob yn ail pan yn blant. Yr oedd yr Ysgol Sul heb ddechreu y pryd hyny, ac nid oedd y plant i gael dyfod i'r gyfeillach eglwysig, rhag iddynt yn amryfus fod yn euog o gario pethau allan i glustiau pobl y byd—rhoddi y pethau sanctaidd i'r cwn, a thaflu gemau o flaen y moch; ond yr oedd yr addysg deuluaidd yn fwy effeithiol o lawer yn nheuluoedd yr Anghydffurfwyr nag oedd hi yn yr hen Eglwys. Yr oedd mwy o wres crefydd ar yr aelwydydd. Byddai y gweinidog weithiau yn holwyddori, a byddai y plant mwyaf yn dyweyd pennod cyn y bregeth prydnawn Sabboth. Clywais un wraig yn dyweyd mai y tro cyntaf yr adnabyddodd hi Robert Williams oedd pan oedd yn adrodd hanes y tri llanc yn y ffwrn dân, a hyny gydag effaith. Yr oedd Dr. Lewis yn ddyn da iawn; yr oedd pawb yn gwrando ac yn dysgu ganddo, yr oedd fel angel Duw gan y plant a fegid yn ei eglwys, a'r tebyg ydyw iddynt dderbyn y parch yna iddo fel treftadaeth oddiwrth eu rhieni. Yr oedd yr holl wlad bron yn myned i wrando arno. Pregethodd ar yr oll o Epistolau Paul i'w gynnulleidfa gyda'r fath oleuni a dyddordeb fel mai y pynciau mawr, undeb â Christ, cyfiawnhâd trwy ffydd, golchiad yr adenedigaeth, mabwysiad, a marwolaeth Iawnol ein Gwaredwr, oedd meusydd mawr eu dyddordeb ar ol ei ymadawiad â hwy; ac yr oedd y rhai a allai drin y pynciau yna gyda medr yn bregethwyr a werthfawrogid yn fawr ganddynt. Os na chaent y blasusfwyd a garent, byddent fel dynion cryfion ac iach ar eu cythlwng. Torodd adfywiad allan yn yr eglwys pan yr oedd R. W. yn ŵr ieuanc, ac ychwanegwyd chwech ugain at yr eglwys. Yn lle llawenhau, wylo yn chwerw yr oedd y gweinidog wrth edrych ar y dychweledigion. O'r diwedd gofynodd y dynion da oedd o'i amgylch, paham yr oedd yn wylo? "Ofni yr ydwyf nad yw yn wir lwyddiant," meddai yntau; "yn eu holau yr änt i gyd;" ac yna ymollyngai drachefn i wylofain. Y ffaith ydyw nad aeth dim ond dau yn ol o'r chwech ugain cyn i'r gŵr da roddi ei le i fyny. Dywedai y rhai oedd o'i amgylch fod ei appeliadau at yr anedifeiriol yn anarferol o danllyd, ac yn gymysgedig â dagrau. Pwy a all ddyweyd faint gwerth gweinidog da i Iesu Grist mewn gwlad fel hyn ar y fath adeg? Cafodd llawer o ddynion da heblaw gwrthddrych yr ysgrif hon, eu cychwyn yn yr adfywiad hwn, y rhai a droisant allan i fod o wasanaeth mawr i grefydd. Ond yr oedd hwn yn adfywiad o flaen tymhestl. Ar symudiad Dr. Lewis o Lanuwchllyn, cymhellodd yr eglwys i ddewis olynydd iddo yn y Parch. M. Jones, ac nid oes ammheuaeth yn ein meddwl ni nad oedd y Parch. M. Jones yn ddyn da ac yn ysgolor gwych y pryd hwnw. Cyhellodd Dr. Lewis yr eglwys i'w ddewis ef fel ei olynydd, am mai efe oedd yr ysgolhaig gwychaf oedd yn ei ysgol, a bod llwyr anghen am un felly i gymeryd gofal yr ysgol mewn cysylltiad â pha un yr oedd ychydig waddol. Yr oedd y Parch. M. Jones yn ŵr mawr a da, ond nid oedd yn dda yn yr un ffordd a Dr. Lewis, ac oblegid hyny methodd ef a'r dynion oedd o amgylch Dr. Lewis gydolygu a chyd-dynu, ac aeth yn ymraniad yn yr eglwys. Aeth yn ymraniad ar fater y weinidogaeth. Yr oedd ar y gynnulleidfa trwy y diaconiaid eisieu iddo ef bregethu y pethau oeddynt hwy wedi eu gael gan eu cyn-weinidog. Ni wnai yntau, am nad oedd ganddo gydymdeimlad â hwy. "Yr hyn a bregethais a bregethaf," meddai. "Deuwch i'n cyfarfod led gwenithen, Mr. Jones," meddai Williams y Wern. "Na ddeuaf led gwenithen," meddai yntau. Yna aeth yn ymraniad ac yn ymgyfreithio am y capel. Gelwid un blaid yn blaid Jones, a gelwid y blaid arall yn blaid yr hen bobl. Gelwid athrawiaeth y blaid gyntaf yn *system* ne-

wydd, ac athrawiaeth y blaid arall yn hen *system*.

Yr oedd y wlad a'r cymoedd yn ferw gwyllt o ddadlu o gwr bwygilydd ar y ddwy *system*. Yr oedd y ddwy *system* yn hollol groes i'w gilydd ar bob pwynt, ac yr oedd y pleidiau yr un fath. Os byddai plaid yr hen *system* yn dal pechod gwreiddiol, byddai plaid y *system* newydd yn hollol groes. Dywedent hwy fod dyn yn dyfod i'r byd yma can laned a phapyr gwŷn; trwy esiampl yr oedd yn myned yn ddrwg. Pe cedwid ef mewn ystafell ddirgel allan o olwg pawb y byddai yn ddyn da. Os dywedai plaid yr hen *system* nad oedd gan ddyn wrth natur nac ewyllys na gallu i ymadael â phechod, dywedai plaid y *system* newydd fod ganddo y naill a'r llall. Os dywedai y naill fod Crist wedi marw dros y rhai a gredent ynddo ac mai dros y rhai hyny yn unig y bu farw, dywedai un ran o blaid y *system* newydd ei fod wedi marw dros bawb. Eraill a ddywedent na fu farw dros neb, mai rhoddi Iawn i'r llywodraeth a wnaeth; ac eraill a ddadleuent nad oedd amcan uwch i farwolaeth Crist na gosod argraff foesol ar y llywodraeth. Yr oedd yn ddadlu diddiwedd trwy y wlad ar y pynciau hyn. Pleser penaf deiliaid y naill blaid oedd cael rhyw *argument* yn erbyn y llall. Yr oedd pwnc yr ewyllys, a gallu dyn, a'r argraff foesol ar y llywodraeth, yn dyfod i'r wyneb bob amser ymhob man. Yr oedd Jonathan Edwards mewn bri mawr, a'i fab yn fwy felly, gan un blaid, a'r lleill yn ei erbyn. Yr oedd pobl Llanuwchllyn y pryd hwnw yn hawdd eu hadnabod yn y marchnadoedd a'r ffeiriau, pa un bynag ai ar yr heol ai yn y tai, wrth y brwdaniaeth gyda pha un y dadleuent â'u gilydd; ac oddiwrth eu gallu a'u medr mewn dadl ar bynciau anhawdd, gwnaeth y ddadleuaeth les i'r wlad, ar y naill law, trwy ddeffro meddyliau dynion i ddarllen ac i feddwl am bethau mawrion crefydd; a drwg iddi ar y llaw arall, trwy gynnyrchu teimladau dygasog y naill at y llall, a pheri ymdriniaeth â phethau cysegredig mewn lleoedd gwaeth na bod yn anghysegredig, ac o tan ddylanwad ysbryd nad oedd ar un cyfrif yn gydnaws â'r pethau. Ysbryd oedd yr ysbryd dadlu yn Llanuwchllyn, a lleoedd eraill, cyffelyb i'r ysbryd fydd yn meddiannu pleidiau gwleidyddol ar adeg etholiad. Da, i'n tyb ni, fyddai cael ychydig o gyffroad yn y cyfeiriad hwn yn achlysurol, er na ddymunem weled ein gwlad yn cael ei gollwng i freichiau oerion cyfeiliornadau er mwyn ei gael. Yn hytrach na'r canu dienaid yma i gyd, megys ag y dywedodd Dr. Parry wrth bobl Llandderfel mewn cyfarfod llenyddol, ymha un yr oedd pobpeth yn amlwg oblegid ei absennoldeb ond canu, canu. "Cofiwch," meddai, "mai nid aderyn i gyd yw dyn i fod." Y mae rhai traddodiadau difyr yn nofio ar wyneb cymdeithas o weddillion yr hylosg ddadleuol a olchodd dros ein gwlad y pryd hwnw. Byddai y naill blaid neu y llall wedi cael buddugoliaeth fawr pan y llwyddai rhywun o'r naill blaid ddal un o'r blaid arall yn rhwyd ei ymresymiad ei hun, neu greu rhyw agweddiad newydd ar y ddadleuaeth, oblegid nid oedd yn bosibl cadw y tanbeidrwydd yn fyw heb ryw newydd-deb. Fe fu myn'd anarferol ar un hanesyn am amser maith. Yr oedd Mr. Jones, Werglodd wen, yn ddadleuwr zelog dros y *system* newydd. Oblegid hyny nid oedd pleidwyr yr hen *system* yn teimlo yn rhy dda ato, er y byddent yn ei barchu fel boneddwr. Yr oedd Mrs. Jones yn cadw ei hunan yn dda iawn o'r helynt. Ymddengys ei bod yn wraig â llawer iawn o ruddyn ynddi, ac yn dystaw farnu pawb a phobpeth, ac yn dyfod i'w chasgliadau yn fwy trwy ganfyddiad y meddwl *(intuition)* na thrwy resymeg fanwl. Gwraig grefyddol iawn a rhinweddol oedd Mrs. Jones. Wedi bod yn gwrando ar Mr. Jones yn pregethu ac yn dadlu yn erbyn y llwgr gwreiddiol, gan ddal fod dyn yn dyfod i'r byd fel papyr gwŷn ac mai trwy esiampl yr oedd yn myned yn ddrwg, un diwrnod aeth un o'r plant, M. D. Jones, Athraw Coleg yr Annibynwyr yn y Bala yn bresennol, meddir, i'r llyfrgell at Mr. Jones, a gwnaeth ryw ddrwg yno. Galwyd Mrs. Jones yno i weled ac i geryddu y troseddwr. Wedi iddi ddyfod i'r ystafell atynt, edrychodd yn myw llygad ei gŵr, a gofynodd yn ddifrifol a chyffrous iddo, "Pwy a welodd y plentyn yn gwneyd fel hyn?" "Ni welodd ef neb," meddai Mr. Jones. "Y mae yn rhaid ei fod wedi gweled rhywun rywbryd," meddai Mrs. Jones

eilwaith. "Gallaf eich sicrhau nas gall ei fod wedi gweled neb," meddai Mr. Jones. "Pa fodd y gall plentyn wneyd drwg heb iddo yn gyntaf weled arall yn ei wneyd?" meddai Mrs. Jones. Gwenodd Mr. Jones, a throdd draw fel dyn wedi ei ddal yn y rhwyd a weuodd ef ei hun. Ar ol i'r hanesyn hwn ddyfod allan, ni wyddai neb pwy oedd pïa Mrs. Jones; yr oedd y naill blaid a'r llall yn ei hawlio.

Bu "myn'd" anarferol ar hanesyn arall. Yr oedd y Parch. John Roberts, Llanbrynmair, yn pregethu yn Dinas Mawddwy, ac yn ystod ei bregeth fe ddywedodd rywbeth i'r perwyl canlynol: Nad oedd anghenrheidrwydd am yr Iawn ond fel i osod argraff foesol ar y llywodraeth. Pwy oedd yn gwrando ond y Parch. Dafydd Davies, Cywarch. Ar ol yr odfa daeth Dafydd Davies i dŷ'r capel ar ol y pregethwr, ac eisteddodd dipyn yn hirbell. Yn y cyfamser, ar ol i'r llongyfarchiadau arferol fyned drosodd, gofynodd rhywun i Dafydd Davies, "Sut yr oeddych chwi yn leicio yr athrawiaeth heno, Dafydd Davies?" "Symol iawn, yn wir," meddai yntau. "Os ei dyfeisio hi ddarfu pobl, yr oeddyn' nhw yn ddrwg iawn, ac y mae dynion yn ffol iawn yn ei phregethu hi." "Beth?" meddai y Parch. J. Roberts. "Ydych, yn siwr, yn ffol iawn yn ei phregethu hi," meddai Dafydd Davies; "oblegid pan y mae dynion yn son am osod argraff foesol ar feddyliau dynion, y maent yn colli y gallu i'w rhoddi; a pheth arall ddyweda' I wrthych chwi, y mae yn rhaid cael peth mawr i osod argraff fawr a dofn. Pan oeddwn I yn hogyn ac yn byw yn Cwm Cywarch yna, yr oedd yno wraig yn gymydoges i mi â'i gŵr yn arfer meddwi. Yr oedd y wraig yn cwyno arno yn aml wrthyf, a rhyw nos ffair beth a wnaethum ond dal y ceiliogwydd a rhoddi cynfas wen droswyf, a myned i'w wylio i gysgod craig oedd gerllaw y ffordd, lle yr oedd y gŵr i fyned heibio. Toc, dyma fo yn dyfod lincyn loncyn yn bur feddw, ac yn siarad rhyngddo âg ef ei hun. Gadewais iddo basio; yna cydiais yn nhraed y ceiliogwydd, a rhoddais ef i'w guro â'i adenydd yn ei gefn ac o amgylch ei gernau. Trodd ataf yn sydyn ac yn ddychrynedig. 'A nei di eto?' meddwn innau wrtho o'r tu ol i'r ceiliogwydd, yn wŷn fy ngwala. 'Na, na, byth,' meddai y gŵr. 'Na, na, yn wirionedd i,' meddai. Yna ciliais ac aethum o'r neilldu. Gadewais iddo fyned, ac aethum adre'. Aeth y gŵr adre' at ei wraig wedi sobri llawer yn y tro. Yr oedd golwg ddychrynedig arno. 'Beth ydi yr olwg yma sydd arnat ti?' meddai y wraig. 'O,' meddai, 'y mae wedi bod yn ofnadwy arnaf fi! Mi welais dy dad heno, ac yr oedd gyda fo gerub â chwech o adenydd ganddo fo, ac yr oedd hwnw yn fy nghuro yn erwin â'i adenydd yn fy nghefn a fy mochgernau, a mi ofynodd dy dad a fuaswn I yn peidio â meddwi. Mi ddywedais innau wrthyn' nhw na wnawn i ddim, a 'na I ddim byth ychwaith.' Yr oedd tad y wraig wedi marw er's wyth mlynedd; ac ni feddwodd y gŵr ddim am bedair blynedd." Ymhen pedair blynedd dywedodd Dio y Berth wrth y wraig mai efe oedd yno ac mai ceiliogwydd oedd y cerub, a dywedodd y wraig wrth y gŵr, yna dechreuodd feddwi yn waeth nag erioed. Tra yr oedd ef yn credu y peth mawr yr oedd yn peidio â meddwi." Yr oedd dywediad Dafydd Davies wedi myned yn air teuluaidd trwy y wlad fod yn rhaid cael peth mawr i osod argraff fawr a dofn. Yr oedd pleidwyr y *system* newydd yn bychanu yr Iawn trwy ddyweyd nad oedd anghenrheidrwydd am dano ond i osod argraff foesol ar y llywodraeth. Dadleuai pobl yr hen *system* os nad oedd anghenrheidrwydd am yr Iawn i arbed ac i gadw, nad oedd yn ddigonol o gwbl i newid ansawdd natur foesol deiliaid llywodraeth foesol Duw—"Fod yn rhaid cael peth mawr i osod argraff fawr a dofn." Yr oedd y *system* newydd, fel ei gelwid, â'i hysbrydiaeth wedi ymdaenu fel penwyni dros enwad yr Annibynwyr y pryd hwnw. Dyna a bregethid o'u pulpudau ac a dderbynid gan mwyaf gan eu cynnulleidfaoedd, ond nid oedd para ynddi. Aeth yn chwilfriw mân yn nwylaw dynion difrifol wrth ei phregethu. Y gwir am dani hi oedd, yr oeddynt yn methu a chael hwyl wrth ei phregethu. Pan yr oeddynt yn myned at y *system* newydd yn oedd yn myned yn Gilboa glân arnynt, heb na gwlith na gwlaw; ond pan yr aent at yr hen *system* fe fyddai y peth yn dyfod, a'r weinidogaeth yn cydio yn eu hysbrydoedd hwy

ac yn nghalonau y cynnulleidfaoedd. Ond y mae y darnau chwilfriw yn nofio heddyw ar hyd wyneb pulpud a chynnulleidfaoedd yr enwad, fel y nofiai taclau Pharaoh ar wyneb y Môr Coch drannoeth a thradwy ar ol y dinystr ar Pharaoh a'i fyddin. Yn ddiweddar tarawsom wrth ddyn ieuanc meddylgar oedd yn gwamalu ac yn chwareu gyda darnau o'r *system* newydd, yr hon bellach sydd yn hen ac yn agos i ddiflanu. Yn adeg y berw dadleuol hwn yr oedd gwrth ddrych ein hysgrif yn ddyn ieuanc meddylgar, ac yn dadleu mor wresog a neb o'i gyfoedion. Yn ochr yr hen *system* yr oedd yn dadleu; gyda yr hen bobl yr oedd ef yn y llan. Yr hen bobl oedd y rhai hyny o'r Annibynwyr oedd yn dal yr hen *system*, y rhai oedd yn cynnal eu hachos yn Tŷ isa. Gyda y rhai hyn y dechreuodd bregethu; pedair ar bymtheg oed oedd pan ddechreuodd bregethu. Trodd yr hen bobl at y Methodistiaid Calfinaidd oedd y pryd hwnw yn nghapel y Pandŷ, a hyny yn naturiol oblegid yr agosrwydd oedd rhyngddynt mewn barn a buchedd. Trodd R. Williams gyda hwy. Yn Nghyfarfod Misol y Bala y derbyniwyd ef fel pregethwr i'n Cyfundeb ni. Ordeiniwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth yn y flwyddyn 1838. Bu yn weinidog cyflawn yn y Cyfundeb am saith mlynedd a deugain, ac yn bregethwr am bum' mlynedd a thriugain.

---

## DYDD A CHYSEGR DUW.

*Gan y diweddar Barch.* ROBERT HUGHES, *Conwy.*

"Cedwch fy Sabbothau, a pherchwch fy nghysegr; yr Arglwydd ydwyf fi."—LEF. xix. 30.

YN y bennod hon yr ydym yn cael ailadroddiad o amryw gyfreithiau a roddes yr Arglwydd trwy Moses i feibion Israel. Mae y mynych adroddiadau a wneir o gyfreithiau Duw yn dangos ei fod yn hoff o honynt ac yn eiddigus drostynt; ac hefyd fod tuedd ynom ninnau i'w hanghofio, ac esgeuluso cydymffurfio â hwy. Un o'r pethau diweddaf a ddywedodd yr Arglwydd wrth Israel trwy y Prophwyd Malachi ydoedd: "Cofiwch gyfraith Moses fy ngwas, yr hon a orchymynais iddo ef yn Horeb, i holl Israel; y deddfau a'r barnedigaethau."

Yn nechreu y bennod hon yr ydym yn cael rheswm am yr ail-adroddiad hwn: "Llefara wrth holl gynnulleidfa Israel a dywed wrthynt, Byddwch sanctaidd, canys sanctaidd ydwyf fi yr Arglwydd eich Duw chwi." Mae cyfreithiau Duw yn cynnwys amlygiad o'i sancteiddrwydd ef: adlewyrchiad o sancteiddrwydd trwy eiriau a gosodiadau ydynt. Mae natur y gyfraith yn dyfod i'r golwg trwy yr hyn a orchymynir ynghyd a'r hyn a waherddir. Mae cyfreithiau Duw hefyd yn cynnwys cymhelliadau cryfion i sancteiddrwydd: "O'u cadw y mae gwobr lawer." "Heddwch mawr fydd i'r rhai a garant y gyfraith." Un o addewidion cyfammod Duw i'w bobl ydyw "dodi y gyfraith yn eu meddwl, a'i hysgrifenu yn eu calon hwynt," yr hyn sydd yn golygu rhoddi sancteiddrwydd yn egwyddor yn yr enaid; neu mewn geiriau eraill, ein gwneyd ni "yn gyfranogion o'r duwiol anian." Mae cydymffurfiad â'r gyfraith yn y fuchedd yn cynnwys sancteiddrwydd mewn ymarferiad, gwreiddyn sanctaidd yn cynnyrchu ffrwyth sanctaidd.

Ymddengys fod yr Arglwydd wedi rhoddi tair cyfraith i Israel, sef y foesol, y seremoniol, a'r farnol. Yr oedd y ddeddf foesol yn briodol iddynt fel creaduriaid rhesymol, cyfrifol i Dduw am bob peth. Yr oedd y ddeddf seremoniol yn perthyn iddynt fel yr oeddynt yn gwneyd i fyny eglwys weledig i Dduw, yr hon oedd yn cynnwys holl ddefodau eu gwasanaeth crefyddol. Yr oedd y ddeddf farnol yn cynnwys rheolau iddynt i ymddwyn tuag at eu gilydd mewn gwahanol achosion, rhywbeth yn debyg i'r ddeddf wladol a berthyn i'n teyrnas ninnau. Mae yr un egwyddor i'w gweled yn y tair deddf, sef cariad at Dduw a'u cymydog, ac felly y mae yr oll oedd yn foesol ynddynt yn aros hyd heddyw, a hyd byth hefyd. Ond mae yn amlwg i ni fod dwy o'r deddfau hyn o ran eu ffurfiau allanol wedi eu diddymu, sef y seremoniol a'r farnol, ac ni buont erioed yn perthyn i'r un genedl ond Israel yn unig; ond am y gyfraith foesol, y mae hon yn ddeddf i bob cenedl o ddynion ac o dan bob goruchwyliaeth. Y mae yn ddeddf

dragywyddol ac anghyfnewidiol, yn addas i natur dyn fel creadur rhesymol. Ac felly y gellir dyweyd am y geiriau a ddarllenwyd yn destyn, maent yn hollol foesol o ran eu natur: Duw yn penodi amser a lle i'w addoli, ac nid oes dim yn fwy rhesymol na hyny. "Cedwch fy Sabbothau, a pherchwch fy nghysegr; yr Arglwydd ydwyf fi."

Sylwn ar y pethau canlynol:

I. Yr amser a'r lle a nodir: "Sabbothau" a'r "cysegr."

II. Yr hawl y mae Duw yn ei honi ynddynt: "*Fy* Sabbothau, *fy* nghysegr."

III. Yr hyn a orchymynir gyda golwg arnynt: Cedwch a pherchwch.

IV. Yr awdurdod a ddangosir: "Yr Arglwydd ydwyf fi."

I. Yr amser a'r lle a nodir: "Sabbothau" a'r "cysegr."

1. Ystyr y gair *Sabboth* yw gorphwysfa, y cyfryw orphwysfa y byddo gwaith wedi ei gyflawni yn flaenorol iddi. Gelwir y Sabboth yn orphwysfa am fod Duw ei hun wedi gorphwys arno oddiwrth ei holl waith yr hwn a wnaethai efe, ac hefyd am ei fod wedi ei drefnu yn orphwysfa gyffredinol i ddyn ac anifail. Mae y Sabboth i fod yn orphwysfa i gorff dyn oddiwrth ei lafur a'i ludded y chwe' diwrnod; ond yn benaf i fod yn orphwysfa ysbrydol a sanctaidd i enaid dyn, yn yr amlygiadau a roddir gan Dduw o hono ei hun yn nhrefn ei gyfammod grasol trwy gyfryngdod ei anwyl Fab. Dylid sylwi fod Sabboth neu orphwysfa sanctaidd yn dal cysylltiad â phob cyfammod a wnaeth Duw â'i bobl.

Sonir yn yr Ysgrythyrau am amryw Sabbothau. Y Sabboth cyntaf y sonir am dano yw hwnw yn Eden, sef y seithfed dydd o amser, yr hwn y dywedir i Dduw ei fendigo a'i sancteiddio: "A Duw a fendigodd y seithfed dydd ac a'i sancteiddiodd ef, oblegid ynddo y gorphwysasai oddiwrth ei holl waith." Sabboth dedwydd oedd hwn yn ddiammeu: Duw ei hun yn gorphwys yn ei gyfammod, ac mewn boddlonrwydd cymeradwyol o'i waith: "A gwelodd Duw yr hyn oll a wnaethai, ac wele da iawn ydoedd." Yr oedd ein rhieni cyntaf ni hefyd yn myned i mewn i'r orphwysfa hon, trwy weithredu perffaith ufudd-dod i ewyllys Duw yn ol natur y cyfammod oedd Duw wedi ei wneyd âg Adda. Pa faint o Sabbothau fel hyn a fwynhäwyd yn Eden nis gwyddom; tybia rhai na chafwyd dim ond un; ond bernir gan eraill iddynt fwynhâu lliaws o honynt. Ond wedi i'n rhieni cyntaf bechu, ni chrybwyllir am y Sabboth drachefn hyd yr amser yr oedd Duw yn myned i wlawio manna o'r nef i feibion Israel. Yr oeddynt i gasglu dau cymaint o hono y chweched dydd, yr hyn oedd i wasanaethu iddynt dros y seithfed. "Yfory (meddai Moses) y mae gorphwysfa sanctaidd i'r Arglwydd." Oblegid na wnaed crybwylliad penodol am y Sabboth o amser y cwymp hyd y cyfnod yma, tybia rhai nad oedd y Patriarchiaid yn ei gadw; ond mae genym bob lle i feddwl eu bod, er na chrybwyllir hyny. Dangosir fod Noah yn sylwi ar gylchiad y dyddiau bob yn saith yn yr Arch; i ba ddyben y gwnai efe hyny nis gwyddom, oddieithr i gadw mewn cof fod y seithfed dydd yn Sabboth yr Arglwydd. Dywedir fod Abraham yn cadw cadwraeth yr Arglwydd, ei orchymynion, ei ddeddfau a'i farnedigaethau; os felly, gellid meddwl ei fod yn cadw y Sabboth. Ond fe ddichon fod y genedl wedi myned yn isel yn hyn, yn enwedig pan yn y caethiwed yn yr Aipht. Ymddengys nad oeddynt yn cael nemawr o hamdden i orphwys a gwasanaethu Duw y pryd hyny; ond pan ddaethant at Sinai, wele yr Arglwydd yn adnewyddu y gorchymyn iddynt trwy ddywedyd, "Cofia y dydd Sabboth i'w sancteiddio ef." Yr oedd yr Arglwydd y pryd hyn yn rhoddi amlygiad newydd iddynt o'i gyfammod; ac yr oeddynt hwythau yn myned i gyfammod âg ef. Yr oedd deddf y gorchymynion mewn ordeiniadau ar gael ei sefydlu yn eu plith, gan hyny yr oedd yn anghenrheidiol iddynt gael hysbysiad am y Sabboth fel dydd penodol i addoli a gorphwys arno yn ol natur yr oruchwyliaeth yr oeddynt dani. Ac heblaw hyny, yr oedd ganddynt destyn newydd i gadw Sabboth y pryd hyn; yr oedd ganddynt i'w gofio nid yn unig creadigaeth y byd mewn chwe' diwrnod, a gwaith Duw yn gorphwys ar y seithfed, ond hefyd eu gwaredigaeth o'r Aipht: "A chofia mai gwas fuost ti yn ngwlad yr Aipht, a'th

ddwyn o'r Arglwydd dy Dduw allan oddiyno â llaw gadarn ac â braich estynedig, am hyny gorchymynodd yr Arglwydd dy Dduw i ti gadw dydd y Sabboth." Yr oedd hefyd orphwysfa newydd o eiddo Duw yn eu plith, sef yn y Babeil, ac felly byddent yn gweddïo, "Cyfod, Arglwydd, i'th orphwysfa, ti ac arch dy gadernid." "Dyma fy ngorphwysfa yn dragywydd; yma y trigaf." Gorphwysai Duw yn eu mysg mewn arwydd gweledig o'i bresennoldeb. Erbyn hyn yr oedd ganddynt lïaws o Sabbothau heblaw y Sabboth wythnosol. Yr oedd eu gwyliau gosodedig yn cael eu galw yn Sabbothau, megys gŵyl y Pasc, gŵyl y degfed dydd o'r seithfed mis, y flwyddyn Sabbothol, y seithfed flwyddyn, a'r ddegfed flwyddyn a deugain. Yr oedd y gwyliau hyn yn cael eu galw yn Sabbothau, am eu bod yn cynnwys gwahanol orphwysfäoedd iddynt.

Ond pan ddiddymwyd yr hen oruchwyliaeth ac y sefydlwyd goruchwyliaeth yr efengyl yn ei lle, fe newidiwyd y diwrnod o'r seithfed dydd i'r dydd cyntaf o'r wythnos, i fod yn goffadwriaeth am farwolaeth ac adgyfodiad yr Arglwydd Iesu wedi gorphen gwaith mawr y prynedigaeth. Yn gymaint a bod yr hen gyfammod wedi ei ddiddymu, a chyfammod newydd yn cael ei amlygu, yr oedd yn anghenrheidiol i'r dydd hefyd gael ei newid. Os oedd gwaith Duw yn gorphwys oddiwrth ei weithredoedd ei hun, ac yn yr amlygiad o'i gyfammod i'w bobl, yn sylfaen cadwraeth y Sabboth o dan yr hen oruchwyliaeth, felly hefyd yr oedd gwaith Crist yn gorphwys oddiwrth ei weithredoedd yntau, wedi gosod sylfaen y nefoedd newydd a'r ddaear newydd, ynghyd a gwaith y Drindod sanctaidd yn cydorphwys mewn boddlonrwydd tragywyddol yn yr hyn a wnaeth, yn ddigon o sail i'r holl eglwys fawr gadw y Sabboth efengylaidd ar y dydd cyntaf o'r wythnos. Ac heblaw hyny, fe brophwydwyd am newidiad y diwrnod: "A bydd ar yr wythfed dydd ac o hyny allan, i'r offeiriaid offrymu ar yr allor eich poethoffrymau." Gan mai am oruchwyliaeth yr efengyl y prophwydir, mae yn rhaid mai y dydd cyntaf o'r wythnos a olygir, oblegid nid oes yr un dydd o dan yr oruchwyliaeth hon yn fwy na'i gilydd ond y dydd Sabboth. Yr oedd y dysgyblion yn ymgynnull at eu gilydd ar y dydd cyntaf o'r wythnos.

Mae amrywiaeth barn ynghylch yr amser y newidiwyd y diwrnod. Tybia rhai i hyny gymeryd lle yn uniongyrchol ar ol adgyfodiad Crist; ond mae eraill yn barnu na chymerodd le am amryw flynyddoedd ar ol hyny, ac mai yn yr Epistol at y Corinthiaid y cydnabyddir y cyfnewidiad.

2. Y peth nesaf sydd yn dyfod o dan sylw ydyw y lle a nodir, sef y "*Cysegr.*" Nid oes genym hanes am un lle penodol i ddwyn ymlaen wasanaeth crefydd hyd godiad y tabernacl yn yr anialwch; gan hyny gellid meddwl fod y duwiolion yn troi eu tai yn gysegroedd, ac felly yn cyflawni dyledswyddau crefydd yn deuluaidd. Fel hyn y gwnai Abraham ac eraill. Ond o'r diwedd hwy a gawsant gysegr bydol, sef y babell, yn lle i addoli; ac wedi hyn, y mae yr Arglwydd yn cysylltu y Sabboth a'r cysegr â'u gilydd. Fel pe dywedasai, 'Wele amser i addoli, ac wele le i addoli, am hyny "cedwch fy Sabbothau a pherchwch fy nghysegr."' Rhyw gysegr symudol ydoedd hwn nes y daeth y genedl i Ganaan, ac yna cawsant y deml ynghyd a llïaws o synagogau i addoli; ond o herwydd y camddefnydd a wnaethant o'r deml, wele y cysegr hwnw yn cael ei ddinystrio, a'r synagogau yn cael eu llosgi â thân, ac Israel yn cael eu gwasgaru ymysg yr holl genedloedd. Ond er hyny y mae gan Dduw ei gysegroedd eto: "Ymhob man lle y rhoddaf goffadwriaeth o'm henw y deuaf atat ac y'th fendithiaf." "Canys lle mae dau neu dri wedi ymgynnull yn fy enw i, yno yr ydwyf yn y canol."

II. Yr hawl y mae Duw yn ei honi yn y pethau hyn: "*Fy* Sabbothau, *fy* Nghysegr."

Yr Arglwydd yw meddianydd gwreiddiol pob peth: "Eiddo yr Arglwydd y ddaear a'i chyflawnder; y byd, ac a breswylia ynddo." "Eiddof fi yr arian, ac eiddof fi yr aur, medd Arglwydd y lluoedd." Pan fyddo dynion yn camddefnyddio trugareddau Duw, ni a'i cawn Ef yn fynych yn dadleu hawl ynddynt, ac yn bygwth eu cymeryd oddiarnynt: "Ac ni wyddai hi mai myfi a roddais iddi ŷd,

a gwin, ac olew, ac a amlheais ei harian a'i haur, y rhai a ddarparasant hwy i Baal. Am hyny y dychwelaf, a chymeraf fy ŷd yn ei amser, a'm gwin yn ei dymmor, a dygaf ymaith fy ngwlan, a'm llin a guddiai ei noethni hi." O! y fath greadur llwm a thruenus a fyddai dyn pe cymerai Duw ei holl roddion oddiarno!

Yr un modd y mae yr Arglwydd yn fynych yn dangos ei hawl yn y Sabboth a'r cysegr: "Ond y seithfed dydd yw Sabboth yr Arglwydd dy Dduw." "Rhoddais hefyd iddynt fy Sabbothau, i fod yn arwydd rhyngof fi a hwynt." Yr un modd hefyd y dywed am y cysegr: "Ysgrifenwyd, Tŷ gweddi y gelwir fy nhŷ i." Ond o herwydd y camddefnydd a wneid o hono, y mae yr Arglwydd yn dywedyd, "Wele eich tŷ a adewir i chwi yn anghyfannedd." Y mae yn diarddel y berthynas oedd rhyngddo â'i dŷ, ac yn ei adael iddynt hwy. O dŷ tlawd wedi i Dduw ei adael! Ichabod!

III. Yr hyn a orchymynir gyda golwg ar y pethau hyn: "Cedwch fy Sabbothau, a pherchwch fy nghysegr."

Wedi sylwi ychydig ar y Sabboth o ran ei ordeiniad, yr ydym yn dyfod i sylwi arno o ran ei gadwraeth.

Nid da y cedwir y Sabboth heb sylwi ar y gair cyntaf yn y pedwerydd gorchymyn: "*Cofia* y dydd Sabboth i'w sancteiddio ef." Y mae eisieu ei gofio cyn iddo ddyfod. Yr oedd gan yr Iuddewon eu darpar ŵyl; dechreuent gadw eu Sabboth nos Wener. Byddai yn ddymunol pe gallem ninnau wneyd nos Sadwrn yn rhyw fath o ddarpariaeth, fel y gallem ei dderbyn gyda llawenydd a diolchgarwch, gan ei alw "yn hyfrydwch, a Sanct yr Arglwydd yn ogoneddus."

Mae yn amlwg fod rhyw ragbarotöad yn anghenrheidiol gyda golwg arno. Fe welir hyny os ystyriwn ni fawredd yr Hwn yr ydym yn myned i'w wasanaethu. Pe gelwid arnom i gyfarfod â rhyw fawredd dynol, ni a deimlem yn anghenrheidiol parotoi ar gyfer hyny; ond pa faint mwy pan yr ydym yn myned i gyfarfod â Duw anfeidrol? Dylem gofio y gair hwnw, "Mi a sancteiddir yn y rhai oll a nesânt ataf." Gosodai Moses derfyn o amgylch mynydd Sinai rhag i'r bobl ruthro at yr Arglwydd i hylldremu. Yr ydym ninnau mewn perygl o wneyd rhywbeth tebyg. Cofiwn fod ein Duw ni yn dân ysol; "Am hyny bydded genym ras, fel y gwasanaethom Dduw wrth ei fodd, gyda gwylder a pharchedig ofn." Mae y duedd sydd ynom i ymlwytho â gofalon y bywyd hwn yn tueddu yn fawr i'n hanghymhwyso i gadw y Sabboth. Mae myfyrdodau ysbrydol a gweddïau personol yn dra manteisiol i gadw y Sabboth. Dylai Arglwydd y Sabboth gael lle mawr yn ein myfyrdodau ni, sef ei Berson a'i waith, ei ddyoddefiadau a'i farwolaeth, &c. Mae arfer gweddi hefyd yn anghenrheidiol at gadwraeth y Sabboth: myned oddiwrth Dduw yn bersonol at Dduw yn gynnulleidfaol. Wedi bod yn tywallt y galon ger ei fron Ef yn y dirgel, fe fydd y meddwl yn fwy parod i ymgymeryd â dyledswyddau cyhoeddus y Sabboth.

Fe ddichon fod rhywun yn barod i ofyn, Pa faint yw hyd y Sabboth? Yr atebiad i hyn ydyw mai yr un faint a diwrnod arall ydyw. Dylem gadw y Sabboth fel y caniatâ ein nerth a'n hiechyd i ni ymwneyd â'n galwedigaethau bydol ar ddyddiau eraill. Fe drefnodd Duw o dan yr hen oruchwyliaeth, os byddai dynion yn rhy dlawd i offrymu aberth costus, megys bustach neu hwrdd, y caent ddwyn aberth rhatach, megys par o ddurturod neu ddau gyw colomen, ac yr oedd hyny mor gymeradwy ganddo a bustach y cyfoethog. Ond os cymerai arno fod yn dlawd er mwyn dwyn aberth rhatach, byddai ef a'r aberth yn anghymeradwy trwy hyny. Mae rhai yn ddigon cryfion i dreulio yr holl ddydd mewn addoliadau cyhoeddus, tra mae eraill o herwydd henaint a llesgedd yn analluog i wneyd felly; ond os caiff yr Arglwydd yr hyn a allwn ni ei wneyd, y mae yn foddlawn ar hyny, "Canys efe a edwyn ein defnydd ni; cofia mai llwch ydym." Gwyliwn gymeryd arnom fod yn fwy analluog i wasanaethu Duw ar y Sabboth nag ydym i wasanaethu ein hunain ar ddyddiau eraill. Mae y Sabboth yn rhy hir gan lawer, a dyddiau eraill yn rhy fyrion: "Pa bryd yr â y mis heibio, fel y gwerthom yd? a'r Sabboth, fel y dygom allan y gwenith?"

Mae cadw y Sabboth yn cynnwys cyflawni pob dyledswydd a orchymynir, ac ymgadw oddiwrth bob peth a

waherddir. Yr ydym i adael heibio ein galwedigaethau cyfreithlawn ar ddyddiau eraill, ac ymgysegru yn gwbl i ddybenion sanctaidd, megys darllen Gair yr Arglwydd, gwrando ei bregethu, canu ei fawl, a gweddïo arno; ac os bydd genym deulu, dylem eu maethu yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd. "Heb wneuthur dy ffyrdd dy hun, na cheisio dy ewyllys dy hun, na dywedyd dy eiriau dy hun." Wrth wneyd y pethau hyn yr ydym nid yn unig yn cadw y Sabboth ond hefyd yn parchu y cysegr. Ni ellir cadw y Sabboth heb barchu y cysegr, na pharchu y cysegr heb gadw y Sabboth. Perchwch y cysegr trwy ddyfod yn addas iddo, a thrwy ymddwyn yn addas ynddo, a thrwy fyned yn addas o hono: "Gwylia ar dy droed pan fyddech yn myned i dŷ Dduw, a bydd barotach i wrando nag i roddi aberth ffyliaid." "Duw sydd ofnadwy iawn yn nghynulleidfa y saint." "Sancteiddrwydd a weddai i'th dŷ, O Arglwydd, byth."

IV. YR AWDURDOD A DDANGOSIR, "Yr Arglwydd ydwyf fi."

Mae yr awdurdod yma yn Ddwyfol. Os oes gallu ac awdurdod yn dilyn gair brenin daearol, pa faint mwy gair y Brenin tragywyddol? Mae llawer yn rhy ystyfnig i gymeryd eu hargyhoeddi gan eu cyd-ddynion am eu gwaith yn halogi y Sabboth ac anmharchu y cysegr; ond dyma awdurdod digon uchel i beri i bawb blygu iddi yn rhywle, ac fe fydd pawb yn sefyll neu yn syrthio i'w Arglwydd ei hun ryw ddiwrnod: "Oblegid y mae ein Harglwydd ni yn y nefoedd, ac nid oes derbyn wyneb gydag Ef." Yr oedd Nehemiah yn argyhoeddi pendefigion Judah am eu gwaith yn halogi y Sabboth: "Pa beth drygionus yw hwn yr ydych yn ei wneuthur, gan halogi y dydd Sabboth?" Mae efe yn Arglwydd nid yn unig i gosbi y rhai a halogant y Sabboth, ond hefyd i obrwyo y rhai a'i cadwant: "Canys fel hyn y dywed yr Arglwydd wrth y rhai dyspaddedig, y rhai a gadwant fy Sabbothau ac a ddewisant yr hyn a ewyllysiwyf, ac a ymaflant yn fy nghyfammod i. Ië, rhoddaf iddynt yn fy nhŷ, ac o fewn fy magwyrydd, le ac enw gwell na meibion ac na merched: rhoddaf iddynt enw tragywyddol, yr hwn ni thorir ymaith. A'r meibion dyeithr, y rhai a lynant wrth yr Arglwydd, gan ei wasanaethu ef, a chan garu enw yr Arglwydd, i fod yn weision iddo ef, pob un a gadwo y Sabbath heb ei halogi ac a ymaflo yn fy nghyfammod," &c.

CASGLIADAU.

Gwelwn, yn gyntaf, ddaioni yr Arglwydd yn rhoddi i ni ei Sabbothau, ac ordinhadau ei gysegr. "Dyma y dydd a wnaeth yr Arglwydd."

2. Gwelwn amynedd anfeidrol Duw yn goddef cymaint o halogwyr ei Sabbothau heb eu lladd.

3. Gwelwn y bydd raid rhoddi cyfrif am y cwbl yn y diwedd. "Yr Arglwydd ydwyf fi."

## Eglurhadaeth Ysgrythyrol.

### GWERSI UNDEB YSGOLION SABBOTHOL CYMRU.

☞ *Cyfeirier at y GWERSLYFRAU am y WERS a'r CWESTIYNAU arni. Cofier fod y Wers ar gyfer pob Sabboth o Ebrill 1af, 1888, i'w rhanu dros ddau Sabboth.*

### DOSBARTH HYNAF.

SABBOTH, MAWRTH 9FED—*(Y rhan olaf o'r Wers am* MAWRTH 17EG *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal.* 32).

*Yn aros yn Bethania ar ei daith i Jerusalem.* Luc x. 40—42.

ADN. 40: *Ond Martha oedd drafferthus ynghylch llawer o wasanaeth.* "Llawer o wasanaeth" a olyga yr holl orchwylion teuluaidd yn y rhai yr oedd Martha yn awr yn colli ei hunan, mewn ffwdan dianghenrhaid. Ond ei pharch a'i chariad at yr Iesu a barai hyn. Tra thebyg yw, ar y cyfan, mai nid hwn oedd y tro cyntaf iddo fod yno yn llettŷa, er y gair a ddefnyddir yn niwedd adn. 38. Ond yr oedd ei ymweliadau blaenorol yn gwneuthur ei groesaw nid yn llai, ond yn fwy. Penderfynai Martha y cai yr Iesu y goreu a allai ei thŷ fforddio ei roddi. Yr oedd yn llawn zel am anrhydeddu ei hymwelydd urddasol. Y pryder hwn a'r prysurdeb a'i gwnai yn "drafferthus." Golyga y gair fwy na phrysurdeb; golyga brysurdeb ynglŷn â'r pryder sydd yn cythryblu y meddwl, yr hyn a gyflëir yn yr ymadrodd Seisonig "*to be put about.*" *A chan sefyll ger-*

*llaw, hi a ddywedodd, Arglwydd, onid oes ofal genyt am i'm chwaer fy ngadael i fy hun i wasanaethu? dywed wrthi gan hyny am fy helpio.* Ystyr y gair a gyfieithir "gan sefyll gerllaw" (ἐπιστᾶσα) y rhan amlaf gan Luc yw—dyfod yn sydyn i bresennoldeb. Ymddengys fod yr Athraw mewn ystafell arall, a Mair yn eistedd gydag ef i wrando ei eiriau, yn "y parlwr" fel y dywedem ni, tra yr oedd Martha yn "y gegin" yn holl drafferth arlwyo y wledd. Yr oedd Mair wedi bod, dybygid, gyda Martha yn ei chynnorthwyo, hyd nes y daeth yr Iesu, pan y gadawodd hi ei chwaer i wneyd y goreu o'r adeg euraidd i "wrando ar ei ymadrodd ef." Ond o'r diwedd, y mae Martha yn colli ei hamynedd, ac yn ymddangos yn sydyn yn yr ystafell oreu, i ymliw â Mair am ei gadael—"fy ngadael i fy hun i wasanaethu." Y mae gradd o dôn geryddol i'r Iesu ei hunan yn ei geiriau: "Arglwydd, onid oes ofal genyt?" &c.

Adn. 41: *A'r Iesu a atebodd ac a ddywedodd wrthi, Martha, Martha, gofalus a thrafferthus wyt ynghylch llawer o bethau.* Cynnwysa ail-adrodd ei henw awgrym tyner o gerydd, ac ar yr un pryd (medd un esboniwr) y dull hanner-chwareus a berthyn i gyfeillgarwch agos. Dengys yr ail-adroddiad ynghyd a hyny, deimlad arall, sef pryder yn ei hachos—megys ar ol hyn, Simon, Simon, a Saul, Saul—pryder nid am yr hyn oedd hi yn ei wneuthur (yr oedd hyny yn anghenrheidiol), ond am y dymher a'r ysbryd yr oedd Martha ynddo wrth wneyd y gwaith. Arwydda "gofalus" y pryder mewnol, a "thrafferthus" y prysurdeb a'r ffwdan allanol. Golygir fod Martha wedi ymgolli yn y gorchwylion teuluaidd, yn teimlo hunan-foddhâd ynddynt fe allai, ac wedi ei meddiannu ganddynt i'r fath raddau nes bod mewn pryder, anesmwythder, a symudiad diorphwys. Tarddai hyn oddiar garedigrwydd ei chalon, a'i chyfeillgarwch naturiol at yr ymwelydd mawr a groesawai. Gallai fod ei chydwybod wedi ei chyhuddo, a dyweyd wrthi fod Mair yn cael mwy o'r Iesu nag ydoedd hi. Ond nid oedd ei syched am y nefol yn ddigon pur a chryf, ac am hyny ymroddai i'r gwaith teuluaidd, yr hwn y mae yn debyg oedd yn fwy wrth ei bodd na'r gwaith yr oedd Mair yn ei wneuthur—"eistedd wrth draed yr Iesu, a gwrando ar ei ymadrodd ef."

Adn. 42: *Eithr un peth sydd anghenrheidiol: a Mair a ddewisodd y rhan dda, yr hon ni ddygir oddiarni.* Llawer o esbonio sydd wedi bod ar yr adnod hon. Sylwa un na buasai y fath amrywiaeth golygiadau, pe buasid yn gofyn yn y dechreu yn bendant am atebiad i'r cwestiwn—"anghenrheidiol" i ba beth? 1. Fel y sylwa Alford, y mae yn anhawdd, a bron yn annaturiol, i ni wrthod y golygiad mwyaf syml a llythyrenol, gan ei fod yn cyfodi mor uniongyrchol o'r amgylchiadau. Os gofynir "anghenrheidiol" i ba beth?—yr ateb yw: anghenrheidiol tuag at wneyd iawn dderbyniad o'r Arglwydd Iesu. Dyma y peth ag yr oedd Martha mor bryderus yn ei gylch—rhoddi derbyniad teilwng i'w Harglwydd; ac nid oedd Mair mewn un modd yn ddifater yn ei gylch, er nad oedd yn cymeryd rhan yn y parotoadau fel ei chwaer. Felly, yr ystyr syml a llythyrenol fuasai—'Paham yr äi di, Martha, i'r holl drafferth bwn i barotoi gwledd, lliaws o ddysglau? Nid oes ond *un* ddysgl, un math o fwyd (un *course* fel y dywedem ni) yn anghenrheidiol.' 2. Pa un bynag a dderbyniwn y golygiad blaenaf ai peidio, nid oes un ddadl nad oes yma feddwl uwch ac un ysbrydol. Oblegid y mae "y rhan dda" yn dyfod i mewn yn y frawddeg nesaf; ac y mae yn amlwg mai "yr un peth anghenrheidiol" yw "y rhan dda" a ddewisodd Mair. Beth ynte yw yr "un peth anghenrheidiol" tuag at wneyd iawn dderbyniad o'r Iesu? Yr agwedd meddwl a amlygid gan Mair—eistedd wrth draed yr Iesu i ddysgu ganddo, cydnawsedd â'i ddysgeidiaeth, parodrwydd i wrando a chadw geiriau bywyd tragywyddol. Credwn fod y ddwy ystyr yn gynnwysedig yn y meddwl. Yr oedd ein Hiachawdwr yn gallu ymgyfodi mor hawdd o'r naturiol i'r ysbrydol, nes y mae y naturiol yn dyfod yn y fan yn ddammeg o'r ysbrydol. Felly yma. Cyferbynir yn gyntaf, fe allai, lawer o ddysglau ac un ddysgl. Ond try hyny yn ddammeg yn y fan, i gyferbynu cariad a gofal am y creadur â gofal am yr hyn sydd dragywyddol. Y prif ymdrech am y Rhan Dragywyddol—"yr hon ni ddygir oddiarni"—dyna a ddewisodd Mair. Y mae yma ddau air yn gyferbyniol: "rhan" a "dewis." Cyfeiria "rhan," medd un, at etholedigaeth gras; a "dewis" at benderfyniad rhydd y dyn i gymeryd gafael ynddi. Trwy undeb y ddau (2 Petr i. 10) y gwneir y bywyd ysbrydol yn gyflawn.

Camgymeriad mawr yw tybied mai Mair yn unig oedd yn gredadyn. Yr oedd Martha hefyd yn wir ddysgybl i'r Iesu, ac yn cyfranogi i ryw fesur o'r duedd oedd yn amlwg a helaeth yn ei chwaer. Ond yr oedd mewn perygl i golli yr hyn oedd ganddi, heblaw i beidio cynnyddu, yn nghanol y fath bryder a thrafferthion. Y mae y ddwy chwaer

yn cynnrychioli dau ddosbarth sydd bob amser yn yr Eglwys—y ddau yn caru yr Iesu—un yn brysur a gweithgar, yn llawn pryder ac ysgogiad; y llall yn ostyngedig a thawel, yn eistedd wrth draed yr Iesu i ddysgu ganddo. Y dueddfryd weithgar a'r dueddfryd fyfyrgar yn yr Eglwys.

Sabboth, Mawrth 16eg—*(Y rhan gyntaf o'r Wers am* Mawrth 24ain *yn y* Gwers-lyfrau Ysgrythyrol: Llyfr II., *tu dal.* 32).

"*Os tydi yw y Crist, dywed i ni yn eglur.*" Ioan x. 22—26.

Adn. 22: *Ac yr oedd y gysegr-ŵyl yn Jerusalem.* Yn y pennodau blaenorol, viii. a ix. a x. 1—21, yr ydym yn Jerusalem, yn ngŵyl y pebyll. Ac wele ni yn awr wedi ein cludo ar unwaith i ŵyl arall—y gysegr-ŵyl. Nid oes son fod yr Iesu wedi dychwel i Galilea na Perea, a chan fod adn. 26 yn cyfeirio at yr ymddyddan am y Bugail Da (pen. x.), rhaid i ni dybied fod yr Iesu wedi aros yn Jerusalem a'r gymydogaeth rhwng gŵyl y pebyll a'r gysegr-ŵyl, yspaid tua dau fis o amser. Yr oedd yr ŵyl hon wedi ei chadw o'r amser y darfu i Judas Maccabeus buro y deml oddiwrth halogiadau Antiochus. Cedwid hi am wyth niwrnod bob blwyddyn, o'r dydd Nadolig presennol am y saith diwrnod canlynol. *A'r gauaf oedd hi.* Gwneir y crybwylliad hwn er mwyn darllenwyr Cenedlig yr Efengyl, i egluro yr adnod nesaf.

Adn. 23: *Ac yr oedd yr Iesu yn rhodio yn y deml, yn mhorth Solomon.* Yr oedd hwn ar yr ochr ddwyreiniol i'r deml. Dywed Josephus ei fod yn rhan wedi sefyll o waith gwreiddiol Solomon, o'r deml gyntaf. Golyga y "porth" hwn, nid porth yn cau ac yn agor, ond cyntedd golofnog, a nenfwd uwch ei phen, rhodfa ddiddos *(portico).* Am ei bod yn auaf y rhodiai yr Iesu fel hyn o dan gysgod, ac nid yn yr awyr agored.

Adn. 24: *Am hyny y daeth yr Iuddewon yn ei gylch ef, ac a ddywedasant wrtho, Pa hyd yr wyt yn peri i ni ammeu? Os tydi yw y Crist, dywed i ni yn eglur.* Cyfieitha rhai—"Pa hyd yr wyt yn cyffroi ein meddyliau?" Cyf. Diwyg. "*hold us in suspense*"—yn ein cadw mewn petrusder. Tybia Hengstenberg eu bod mewn gwirionedd yn siglo rhwng tuedd ac annhuedd i gredu. Ond fel arall yr awgryma adn. 26 a 31. Y maent yn methu cysoni pethau; y mae anhawsderau i'w dderbyn ac i'w wrthod. Y maent wedi blino o dan y *strain* o ddysgwyliad a phetrusder. Ceisient ganddo ddyfod allan, ac amlygu ei hun mewn mynegiad pendant a diamwys.

Adn. 25: *Yr Iesu a atebodd iddynt, Mi a ddywedais i chwi, ac nid ydych yn credu. Y gweithredoedd yr wyf fi yn eu gwneuthur yn enw fy Nhad, y mae y rhai hyny yn tystiolaethu am danaf fi.* Yr oedd yr Iesu *wedi* dywedyd wrthynt ar luaws o achlysuron mai Efe oedd y Messïah. Ond heblaw hyny, yr oedd yn dywedyd wrthynt trwy dystion cryfach na geiriau. Yr oedd ei weithredoedd yn "tystiolaethu" i'w Fessïaeth, yn brofion o wirionedd ei eiriau.

Paham na buasai mwy o sicrwydd, ac na byddai o hyny hyd yn awr, am y profion o wirionedd Cristionogaeth? Y mae yr ateb, dybygem, yn syml—am mai cyfundraeth *foesol* ydyw. Ac y mae yr ateb hwn yn ddau, yn unol â dwy ystyr y gair moesol. 1. Moesol yn ei chysylltiad â'r *deall;* neu foesol mewn cyferbyniad i wirioneddau rhif a mesur. 2. Moesol yn ei chysylltiad â'r *ewyllys;* neu foesol mewn cyferbyniad i orfodaeth. Yr oedd yn ngweinidogaeth Crist ddigon o oleuni i'r meddwl syml, unplyg; a digon o dywyllwch i ddyrysu y galon ragrithiol, a garai y tywyllwch yn fwy na'r goleuni. Felly yr oedd ei ddammegion; felly yr oedd ei holl weinidogaeth yn y byd. Yr oedd ei ddyfodiad i'r byd i achub y byd, ond wrth ei achub yr oedd yn ei farnu yr un pryd: "I *farn* y daethum i'r byd hwn, fel y gwelai y rhai nad ydynt yn gweled, ac yr elai y rhai sydd yn gweled yn ddeillion." Caiff pawb sydd yn caru y goleuni ddeall, ond y rhai sydd yn casâu y goleuni a dramgwyddant. Ni buasai goleuni gorthrechol yn cyd-sefyll âg ystâd o brawf.

Adn. 26: *Ond chwi nid ydych yn credu: canys nid ydych chwi o'm defaid I.* Nid diffyg eglurdeb na grym yn y profion o'i Fessïaeth ef, ond anghrediniaeth eu calonau hwy oedd yr achos eu bod yn ei wrthod. Canlyniad a phrawf o'u hanghrediniaeth oedd nad oeddynt "o'i ddefaid ef." Nid oedd ei lais ef, ei weinidogaeth bur, nefol, yn eu tynu ato, nac yn deffro dim adsain yn eu calonau. *Fel y dywedais i chwi.* Nid yw yn hawdd, yn marn rhai, benderfynu at beth y cyfeirir yma. Ond y mae ei anhawsder yn brawf o'i ddilysrwydd. Tybiwn ei fod yn sicr yn cyfeirio at yr oll o ddammeg y Bugail Da. Yr oedd hono yn ddarlun o'i ddefaid ef, ac o'r rhai nad oeddynt ddefaid. Gellid gofyn, pa fodd y mae yr Iesu yn cyfeirio yn y dull hwn at ymddyddan oedd wedi cymeryd lle ddau fis yn ol? Ateba Meyer, mai am nad oedd yr Iesu yn y cyfwng hwnw wedi cael unrhyw ddadleuon â'i wrthwynebwyr. Cadarnheir hyn gan ddystawrwydd Ioan am yr yspaid hwn.

SABBOTH, MAWRTH 23AIN—*(Y rhan olaf o'r Wers am* MAWRTH 21AIN *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal.* 32).

"*Os tydi yw y Crist, dywed i ni yn eglur.*" Ioan x. 27—30.

ADN. 27: *Y mae fy nefaid i yn gwrandaw fy llais i, a mi a'u hadwaen hwynt, a hwy a'm canlynant i.* Dyma ddesgrifiad o'r defaid sydd yn dangos nad oedd yr Iuddewon hyn o'u nifer. Pe buasent o'i ddefaid, buasent yn sefyll mewn perthynas hollol wahanol âg ef—yn gwrandaw ei lais, yn cael eu hadnabod ganddo, ac yn ei ganlyn. "Mi a'u hadwaen hwynt" a olyga yr adnabyddiaeth uchaf—cymundeb cariad ac ymhyfrydiad yn tarddu o undeb.

ADN. 28: *A minnau ydwyf yn rhoddi iddynt fywyd tragywyddol; ac ni chyfrgollant byth, ac ni ddwg neb hwynt allan o'm llaw i.* Yr amser presennol, "ydwyf yn rhoddi." Presennol yw y bywyd hwn—"*sydd* ganddo fywyd tragywyddol." Y mae o ran ei hedyn a'i egwyddorion, yn gystal ag o ran hawl, yn y credadyn yn awr, trwy undeb â Christ a chyfranogiad o'i natur. Nid at y dyfodol y mae y gair "tragywyddol" yma yn cyfeirio. Nid y meddwl yw "y bywyd a bery byth," er fod hyny yn cael ei gynnwys. Ond y *tragywyddol* o ran ei natur. Nid oes a wnelo amser âg ef o gwbl. Am ei fod felly, y mae yn dragywyddol yn ei barhâd. Dygir hyny allan yn y gweddill o'r adnod. "Ni chyfrgollant byth"—"ac ni ddwg neb hwynt allan o'm llaw i." Y mae y "cyfrgolli" a'r "dwyn allan" yn golygu yr un syniad cyffredinol, ac y mae "ydwyf yn rhoddi" ar gyfer y ddau. Eto, y mae gwahaniaeth rhyngddynt. Fel y sylwa Bengel, arwydda "cyfrgolli" myned ar gyfeiliorn o honynt eu hunain—yr achos o'u mewn hwy; ond y "dwyn allan"—perygl oddiwrth drais, neu elynion y tu allan iddynt. "Ni chyfrgollant"—y mae y bywyd a roddwyd iddynt ynddynt; "ni ddwg neb hwynt allan o'm llaw i"—y mae Mab Duw yn eu hadnabod ac yn eu nerthol amddiffyn.

Rhana Bengel (a Godet) osodiadau y ddwy adnod i dri phâr. Y pâr cyntaf: ffydd y credadyn yn y Gair ("gwrandaw fy llais"), a chymundeb personol Crist âg ef ("mi a'u hadwaen"). Yr ail bâr: ffyddlondeb ymarferol y credadyn ("a'm canlynant i"), a chyfraniad o fywyd ("ydwyf yn rhoddi"). Y trydydd pâr: ystâd yn hytrach na gweithred—iachawdwriaeth sicr ("ni chyfrgollant byth"), ac ymafaeliad yr Iesu ynddynt ("ni ddwg neb hwynt allan"). Y mae y "llaw" yma yn arwyddlun, nid o allu yn unig, ond hefyd ac yn benaf o feddiant.

ADN. 29, 30: *Fy Nhad i, yr hwn a'u rhoddes i mi, sydd fwy na phawb: ac nis gall neb eu dwyn hwynt allan o law fy Nhad i. Myfi a'r Tad un ydym.* Y mae amrywiol ddarlleniadau o adn. 29; ond ofer fyddai manylu arnynt, gan y credwn gyda Godet mai darlleniad y Testyn Derbyniedig yw yr unig un posibl. "A'u rhoddes i mi" mewn arfaeth. Y maent nid yn unig yn llaw Crist ond yn llaw y Tad—y dwylaw anfeidrol wedi ymblethu am danynt. Canys y mae y Mab a'r Tad yn un. Y mae yma dri gris yn yr esgyneb: Y maent yn fy llaw I; y maent yn llaw fy Nhad I; Myfi a'r Tad un *ydym. Un* mewn ewyllys, un mewn gallu (a meddiant), un mewn hanfod. Sylwa Awstin: "per *sumus* refutatur Sabellius; per *unum*, Arius." ("Trwy yr *ydym* gwrthbrofir Sabellius; trwy yr *un*, Arius").

SABBOTH, MAWRTH 30AIN—*(Yr oll o'r Wers am* MAWRTH 31AIN *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal.* 32).

"*Onid wyf fi yn gwneuthur gweithredoedd fy Nhad.*" Ioan x. 31—42.

ADN. 31, 32: *Am hyny y cododd yr Iuddewon geryg drachefn i'w labyddio ef. Yr Iesu a atebodd iddynt, Llawer o weithredoedd da a ddangosais i chwi oddiwrth fy Nhad: am ba un o'r gweithredoedd hyny yr ydych yn fy llabyddio i?* Deallasant ef yn hòni undeb hanfodol â Duw, ac yn eu cynhyrfiad digofus codasant geryg i'w labyddio, Lef. xxiv. 10. Ond attaliwyd hwynt gan nerth gorchfygol ei atebiad. *Gweithredoedd da*—ei wyrthiau yn uno gallu a chariad. Yn fwy llythyrenol "gweithredoedd prydferth" (*καλὰ ἔργα*)—prydferthwch moesol gallu yn cynnyrchu gweithredoedd o sancteiddrwydd a daioni. *A ddangosais.* Yr oedd Efe wedi dangos iddynt engreifftiau ysblenydd o'r gweithredoedd sydd yn nghadw gan y Tad, ac fel profion gogoneddus a gweledig o foddlonrwydd y Tad yn y Mab. Dengys y Tad y gweithredoedd hyn iddo yn y cylch ysbrydol (adn. 18); dengys yntau hwynt i'r byd yn y cylch materol. Arwydda "*oddiwrth* fy Nhad" fod y gallu i'w cyflawni yn dyfod oddiwrth y Tad. Y mae cwestiwn yr Iesu yn llawn o wawdiaeth finiog.

ADN. 33: *Nid am weithred dda yr ydym yn dy labyddio, ond am gabledd.* Rhoddant y trosedd yn awr mewn ffurf o gyhuddiad. Ychwanegir yn niwedd yr adnod beth oedd y cabledd, seiliedig ar yr hyn a ddywedasai yr Iesu yn adn. 30.

ADN 34—36: Amddiffyna y Gwaredwr ei hunan yn wyneb y cyhuddiad o gabl-

edd. Ni oddef ein terfynau i ni fanylu yn mhellach yn y Rhifyn hwn. Ond dyma sylwedd yr ymresymiad, dybygid: 'Geilw yr Ysgrythyr bersonau dynol yn dduwiau, am eu bod yn traethu gair Duw ac yn ei gynnrychioli Ef ei hunan. Felly, pe na buaswn I ond dyn, ni ddylaswn, yn ol yr Ysgrythyr, gael fy nhrin fel cablwr am alw fy hun yn Fab Duw.' Ond dyna yr wrthddadl: Yr oedd yr Iesu yn galw ei hun yn Fab Duw mewn ystyr hollol wahanol i'r hyn y gelwid y rhai hyny. Ond y mae ateb Crist yn cynnwys ateb i hyn hefyd—'Os nad oedd yr Ysgrythyr yn cablu wrth alw y rhai y gwnaethid unrhyw ddadguddiad iddynt yn "dduwiau," pa fodd y gallaf fi fod wedi cablu trwy osod fy hunan allan yn Dduw, yn yr hwn y mae Duw yn anfon i'r byd ei ddadguddiad ei hunan?' Dyfynir Salm lxxxii. 6. Y barnwyr yn y Salm oedd y rhai a gyferchid yn dduwiau.

ADN. 37, 38: *Onid wyf fi yn gwneuthur gweithredoedd fy Nhad, &c.* Nid yn unig yr oedd yn ddieuog o gabledd, ond yr oedd ei eiriau yn wirionedd, yn cael eu profi trwy y weithredoedd a weithredai Duw trwyddo. Gwahoddai hwynt i'w farnu wrth ei weithredoedd. *Fod y Tad ynof fi.* Fod y Tad wedi llawn gyfranu ei gyflawnder dwyfol ei hunan i'r *dyn* yr hwn oedd ei offeryn ar y ddaear. *A minnau ynddo yntau.* Dengys ei hunan-ymwadiad. Nid yw am feddu bywyd ei hunan annibynol ar y Tad, ond am ei dderbyn o roddiad a chyflawnder y Tad. Undeb y Tad a'r Mab fel y mae yn bosibl i ni ei ddirnad ar y ddaear: "fel y gwybyddoch ac y credoch."

ADN. 39—42. Lleddfwyd eu cynddaredd i ryw fesur gan yr eglurhad hwn. Rhoddasant heibio y bwriad o'i labyddio. Ond ceisiasant drachefn ei ddal. Diangodd yntau o'u canol—yn wyrthiol, medd rhai, tra y myn eraill nad oedd yma un awgrym o wyrth. Ymddengys mai dyma oedd ystyr y geiriau hyn o eiddo y "llawer a ddaethant ato of" (adn. 41): Er na ddarfu i Ioan gyflawni eu dysgwyliadau trwy wneuthur arwydd neu wyrth, eto ei fod yn wir brophwyd ac yn rhagredegydd y Person hwn; ac felly fod yn rhaid mai Efe oedd y Messiah a hysbysid gan Ioan. Ac felly (adn. 42) fel canlyniad—"llawer yno a gredasant yndde."

DIWEDD Y MAES LLAFUR HYD MAWRTH 31AIN, 1890.

*Dechreua y maes llafur newydd* EBRILL 1890—*y* PUM' PENNOD AR HUGAIN *cyntaf o* LYFR GENESIS *i'r Dosbarth Ieuengaf; a'r* EPISTOL AT YR HEBREAID *i'r Dosbarth Hynaf.*

# Hanesion a Darnau Detholedig.

METHODISTIAETH YN NYFFRYN CONWY.

(Adroddiad a ddarllenwyd yn Nghyfarfod Misol Dolwyddelan, Mehefin, 1889.)

WRTH edrych yn ystyriol ar ystadegau a chyfrifon eglwysig ein Cyfarfod Misol am y flwyddyn ddiweddaf, credwn mai achos diolch sydd genym, a hyny ar amryw ystyriaethau. Yn y lle cyntaf, dylem ddiolch i Dduw am ei nodded ac am gynnal cynifer o honom rhag syrthio a thynu yn ol i golledigaeth. Dylem hefyd gymeryd cysur yn rhif ein haelodau eglwysig, y rhai sydd yn rhifo 4368; neu, a chymeryd yr ymgeiswyr a'r plant gyda'r cymunwyr, gwnant i fyny y swm o 6656 yn perthyn i eglwysi y Methodistiaid o fewn cylch y Cyfarfod Misol. Os cymerwn eto y gwrandawyr—y rhai ydynt fel merched Jerusalem yn amser Iesu Grist yn cydymdeimlo âg achos y Gwaredwr yn ei holl agweddau allanol—os y cyfrifwn hwy, cawn fod 8685 o Fethodistiaid yn Nyffryn Conwy, sef ychydig dros 26 y cant o'r boblogaeth. Yn y lle nesaf, yn swm y casgliadau at ddwyn yr achos ymlaen yn anrhydeddus, cawn fod cyfanswm yr holl gasgliadau yn cyrhaedd y swm anrhydeddus o £5965 2s. 5½c., yr hyn sydd yn 27s. 3¾c. ar gyfer pob aelod. Ond os cymerwn y plant a'r gwrandawyr gyda'r cymunwyr, y mae swm y casgliad yn gostwng i 13s. 8¼c. y pen. Mae y cynnydd a welir yn ein rhif, yn gystal ag yn y gras o gyfranu, yn achos o galondid. Cynnyddasom 92 yn ystod y flwyddyn mewn aelodau, a'r plant yn ychwaneg o 157 na'r flwyddyn flaenorol. Y casgliad eto yn ychwaneg o £158 9s. 10½c. Felly chwi a welwch mai cynnyddu y mae y Methodistiaid yn Nyffryn Conwy, a hyny mewn cyfartaledd hapus—y rhifedi a'r casgliadau yn cyd-dyfu.

Ond tra yn llawenhau fel hyn wrth weled y goeden Fethodistaidd yn tyfu ac yn dwyn ffrwyth yn ngwinllan ei Harglwydd, yr hyn a brawf, dybygem, ein bod mewn undeb â'r Wir Winwydden, ac o dan driniaeth rasol y Llafurwr mawr; eto wrth edrych arni o gyfeiriadau eraill, rhaid addef mai pryder sydd yn ein meddiannu, oblegid cawn fod cynifer ag 51 wedi gwrthgilio yn ystod y flwyddyn,

a 26 wedi eu diarddel, ac am y 77 uchod fe ddylai fod mawr ofid calon.

Achos arall o bryder i'n meddwl ni ydyw y ffaith fod cynifer ag 28 o eglwysi yn nghylch y Cyfarfod Misol heb gymaint ag un gweinidog Methodistaidd yn cartrefu ynddynt o gwbl; ac y mae un dosbarth, fel y gwyddys, heb weinidog yn byw o fewn ei derfynau, a rhaid iddynt naill ai cael eu bedyddio, eu priodi, a'u claddu gan yr offeiriaid yn eglwysi y plwyf, neu alw am wasanaeth gweinidog dyeithr o rywle arall. Mae yn wir fod y gweinidogion a'r pregethwyr caredig a ddygwydda fod yn byw yn nghymydogaeth rhai o'r eglwysi, yn cyflawni llawer o'r gwaith yn rhinwedd eu swydd, er nad wedi eu galw i hyny gan yr eglwysi; a bod ein blaenoriaid duwiol a da yn ymdrechu bugeilio y defaid a phorthi yr ŵyn goreu gallont; er hyny teimlwn mai mantais fawr i ni fel Cyfundeb fyddai fod pob eglwys yn y corff o dan ofal gweinidog cymhwys y Testament Newydd, fel y gallai plant a phobl ieuainc ein heglwysi gael eu magu a'u meithrin yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd. Credwn mai dyma ydyw y cwestiwn mawr a ddylai gael ein sylw penaf, sef pa fodd i ofalu yn briodol am yr wyth mil a hanner, a throsodd, o eneidiau y mae Pen Mawr yr eglwys wedi eu rhoddi o dan ein gofal yn y Dyffryn hwn, a pha fodd i ennill y gweddill o'r boblogaeth, y rhai sydd yn esgeuluso moddion gras, i ddyfod i glywedigaeth efengyl Iesu Grist.

Y mae cynnydd o 47 wedi bod yn rhifedi deiliaid yr Ysgol Sul yn nghylch y Cyfarfod Misol. Gwelir fod lleihâd o 5 wedi cymeryd lle yn Nosbarth Conwy, a 13 yn Nosbarth Penmachno; tra y mae cynnydd o 9 yn Nosbarth Llangernyw, ac 56 yn Nosbarth Llanrwst.

Fel y dywedwyd eisoes, achos i ddiolch a chymeryd cysur sydd genym wrth fwrw golwg dros weithrediadau y flwyddyn ddiweddaf; eto dylem ddyblu ein diwydrwydd mewn ffydd, ac erfyn yn fwy taer am dywalltiadau nerthol yr Ysbryd Glân ar ein heglwysi, yr hyn yn unig â bâr lwyddiant ar ein gwaith. Pared yr Arglwydd mai felly y byddo.

H. D. W.

---

ADGOFION AM Y DIWEDDAR BARCH. GRIFFITH HUGHES, EDEYRN.

*Gan y Parch.* D. WILLIAMS, *Conwy.*

CLYWSOM Mr. Hughes yn pregethu lawer iawn o weithiau yn ein hoes, a byddai yn ffraeth, yn naturiol, ac yn dangos y meddai ar gydnabyddiaeth eang o ddynion a'r Ysgrythyrau. Gwnai ddefnydd da o'r cwbl er gwneyd ei holl bregethau fel hoelion wedi eu sicrhau gan feistr y gynnulleidfa. Yr ydym yn cofio yn dda glywed un gŵr hoff o holi yn gofyn iddo cyn myned i'r capel, "Pa newydd sydd o Leyn acw?" "Cewch glywed y cwbl yn y capel," meddai yntau.

Clywsom ef yn dyweyd na clywodd ei fam ef mo hono erioed yn pregethu; nid am na fyddai yn bresennol ymhob moddion fel eraill o'r teulu, ond o herwydd fod ei chlyw yn drymaidd. Ond darllenodd ei bregeth ragorol yn y gyfrol gyntaf o *Lampau y Deml* gyda hyfrydwch a blas, ar y geiriau, "Awn hyd Bethlehem," &c.

Tua deng mlynedd ar hugain yn ol y cafodd yr odfa hynotaf i ni ei chofio ganddo, am ddau o'r gloch yn Engedi, Caernarfon, pryd yr oedd ef ei hun a'r gynnulleidfa o dan yr eneiniad nefol. Ei destyn oedd Dat. ii. 5: "Cofia gan hyny o ba le y syrthiaist, ac edifarhâ." Pwnc y bregeth oedd gwrthgiliad yn ei arwyddion, a'i ganlyniadau dinystriol. Cafwyd cyfarfod eglwysig y nos Fercher ganlynol gwerth son am dano. Ar ddiwedd yr odfa rhoddodd emyn i'w chanu dra phwrpasol. Yr ydym wedi chwilio pob llyfr emynau a feddem o'r hen rai a chasgliad Mr. Gee, ac wedi methu ei chael; a'n barn ydyw mai efe ei hun a'i cyfansoddodd at y bregeth. Os gŵyr rhai o ddarllenwyr lluosog y DRYSORFA am awdwr i'r emyn, bydded mor garedig a hysbysu hyny. Wele y pennill:—

"Ar lan afon yn ngwlad Babel,
Ydyw 'r man 'r wy 'n trigo yn awr;
Gwel'd fy nhelyn ar yr helyg,
Ac yn methu a'i chael i lawr:
Dysgwyl 'r wyf o odfa i odfa,
Derfydd y caethiwed hyn,
Ac y clywir f' enaid eto
Yn seinio cân ar Sïon fryn."

Yn fuan iawn ar ol hyn, yn yr un lle mewn Cyfarfod Misol, cafodd y diweddar Barch. John Owen, Ty'nllwyn, odfa anghyffredin ar y geiriau, "Ac ni bu y fath ddiwrnod a hwnw, o'i flaen nac ar ei ol, fel y gwrandawai yr Arglwydd ar lef dyn." Byddai yn hyfrydwch mawr gan lawer pe y danfonai y teulu caredig hi i'r DRYSORFA.

---

METHODISTIAETH ARFON O'I CHYFERBYNU A'R HYN YDOEDD DRIUGAIN MLYNEDD YN OL.

(Papyr a ddarllenwyd yn Nghyfarfod Misol Gatehouse, Hydref 14, 1889.)

*Gan y Parch.* JOHN JONES, *Bryn'rodyn.*

NID ydym yn bwriadu manylu gydag ystadegau am eu bod yn hawdd i'w cael,

ac wedi eu trefnu yn fanwl ac eglur, ac yn neilldnol felly dros yr yspaid yma o amser.

Mae tri o symudiadau pwysig wedi cymeryd lle yn nechreu yr hanner canrif yma, ag y gellir galw pob un o honynt yn ddiwygiad, ac nid oes neb a all amgyffred y daioni i'r byd ag sydd ymhob un o honynt, sef yr *Athrofa yn y Bala, y Gymdeithas Genadol Dramor* ar Fryniau Khasia, a'r *Gymdeithas Ddirwestol*. A chyda chyfeiriad atynt ni a ddywedwn, "Yr Arglwydd a wnaeth i ni bethau mawrion, am hyny yr ydym yn llawen." Ond yn awr ni a drown yn ol i edrych ar y triugain mlynedd hyn. Yr oedd yr eglwys dan yr Hen Destament yn addoli wrth gofio y dyddiau gynt: "Yn eu holl gystudd hwynt efe a gystuddiwyd, ac angel ei gynddrychioldeb a'u hachubodd hwynt. Yn ei gariad ac yn ei drugaredd y gwaredodd efe hwynt; efe a'u dygodd hwynt ac a'u harweiniodd yr holl ddyddiau gynt."

Er caethiwed yr Aipht, er cyfyngder y Môr Coch, ac er y gynhen yn yr anialwch mawr ac ofnadwy wrth ddyfroedd cynhen Cades, ac i lawer flysio cig yr Aipht, eto wele Israel Duw yn waredol, trwy gael arweiniad y colofnau o niwl ac o dân yr holl ddyddiau gynt. "Amgylchwch Siôn ac ewch o'i hamgylch hi; rhifwch ei thyrau hi, ac edrychwch ar ei phalasau, fel y mynegoch i'r oes a ddelo ar ol." A ydyw y tyrau yn eu rhif? a ydyw y rhagfur yn gyfan? a'r palasau yn eu prydferthwch? Yna mae yr eglwys yn tori allan i orfoleddu, "Y Duw hwn yw ein Duw ni byth ac yn dragywydd." Y Duw a roes ogoniant ar Siôn yn y dyddiau gynt yw ein Duw ni byth ac yn dragywydd. Pe byddai y mynyddoedd sydd o amgylch Jerusalem wedi eu treiglo i ganol y môr, a'r tyrau wedi eu dryllio, a ninnau wedi ein cludo i gaethiwed Babilon, mae ein Duw ni yn aros yr un." "Meddyliwch am eich blaenoriaid, y rhai a draethasant i chwi air Duw, ffydd y rhai dilynwch, gan ystyried diwedd eu hymarweddiad hwynt." Ond cofiwch mai nid ar flaenoriaid byw y mae crefydd yn byw, ac nid ar farwolaeth blaenoriaid y mae crefydd i farw. Na, mae bywyd crefydd yn dibynu ar fywyd Iesu Grist byw. "Yr hwn," meddai, "wyf fyw ac a fum farw, ac wele byw ydwyf yn oes oesoedd." Fe gyflawnodd eich blaenoriaid eu dyledswyddau yn eu diwrnod; mae eu diwrnod hwy yn ddoe i ni; yr ydym ninnau i gyflawni ein dyledswyddau heddyw.

Y "triugain mlynedd hyn"—yr hyn y mae genyf fwyaf o gof plentyn am dano yw *yr Ysgol Sabbothol*. Mae hon yn debyg iawn er dechreuad y blynyddoedd hyny. Y cyfarfod chwech wythnos, y cenadau o'r ysgolion, a thrwyddynt hwy yr oedd gwyliadwriaeth fanwl yn cael ei harfer rhag i ddrygau mewn rhyw ffurf godi eu penau, a chynllunio doeth am y ffordd debycaf er eu darostwng; a mawr fyddai y llawenydd pan y ceid fod rhai o'r hen arferion anfoesol wedi eu cael i lawr. Tybiwn mai yn yr *holi* y mae y gwahaniaeth mwyaf. Y cyntaf i ni ei gofio yn holi, ydoedd John Jones, Talsarn. Ei ffordd ef i holi oedd arwain yr ysgol ymlaen ac ymlaen drachefn i olwg rhyw wirionedd na welodd yr ysgol mo hono erioed cyn hyny. Cymerai hi megys ar ei aden gref yn uwch uwch, fel y teimlai yr Ysgol ei bod yn anadlu awelon o fyd arall; nid amgylchu yr atebwr a'i faglu er mwyn ei gael i gornel a'i daflu ar ei ben i dywyllwch. Yr oedd efe yn rhy fawr i hyny. Amcan gorfoleddus oedd gan Robert Owen fel y gwelsom ddarluniad o hono, a'r un modd J. Prydderch. Clywsom ef yn holi am y diluw a'r arch, gan ofyn "Pa un ai uwch at y nefoedd ai is at y dyfnder yr oedd Noah yn myned wrth i'r diluw godi?" Ateb, Uwch at y nefoedd. "Pa un ai uwch at y nefoedd ai is at y dyfnder yr oedd trigolion yr hen fyd yn myned wrth i'r diluw godi?" Ateb, Is at y dyfnder. Mae yr holi yn awr yn tueddu mwy at holi personau nag at holi cynnulleidfa. Diau fod yr Ysgol Sabbothol yn awr yn sangu ar diroedd uwch nag o'r blaen trwy yr arholiadau a'r Gwerslyfrau, a'r modd manwl a goleu y mae meddwl yr Ysbryd Glân yn cael ei ddangos yn y Drysorfa a'r *Lladmerydd*, &c. Mae y Llew o lwyth Juda wedi gorchfygu, a'r llyfr i gael ei agoryd. Ewch ymlaen, fy nghyfeillion ieuainc, "a chwi yn gwybod nad yw eich llafur chwi yn ofer yn yr Arglwydd."

Eto *y blaenoriaid* perthynol i Gyfarfod Misol Arfon driugain mlynedd yn ol. Maent yn ymrithio o flaen fy meddwl:—Richard Thomas, Tydweiliog; Richard Jones, Neigwl; Robert Griffith, Nevin; William Parry, o Gapel Uchaf Clynnog; John Williams, Pandy, neu Llanllyfni; Robert Griffith, Talsarn, a Griffith Jones, Rhostryfan, a Sion Gruffydd, Bryn-'rodyn; a llawer eraill ellid enwi, dynion uwchlaw y cyffredin yn eu hamgylchiadau allanol, a'u dylanwad ar yr eglwysi braidd heb derfyn, y blaenoriaid yn feistriaid, a'r gweinidogion yn weision; ac ofnir fod gormod o hyn yn aros eto yn ein plith, a bod yn rhaid i ni ddywedyd wrthynt yn lled fynych, "Na fyddwch feistriaid lawer, fy mrodyr." Modd bynag, gweddîwyr anghyffredin oeddynt, a hyn ydoedd y nod amlycaf ar

flaenor y pryd hyny, a'r arwydd gan yr eglwys i ddewis blaenor ydoedd ei fod yn weddïwr mawr; os amgen, bydded y peth a fyddo, os heb fod yn weddïwr da, gadewid ef ar ol.

Byddai blaenor bob Sabboth yn canlyn y pregethwr o'r naill gapel i'r llall, ac yn dechreu yr oedfa, gan eistedd y tu ol iddo hyd y diwedd, ac oni byddai blaenor gyda'r pregethwr yn y pulpud, byddid yn ei ystyried yn bregethwr bach. Yr oedd John Jones, Tremadog, yn cynghori y blaenoriaid mewn Cyfarfod Misol: "Ewch," meddai, "gyda'r pregethwr o'r naill gapel i'r llall, rhag ofn iddo gael gwasgfa ar y ffordd." Ond yn awr rhaid dyweyd am y pregethwr fel y dywedwyd am Jacob gynt, "A'r pregethwr a adawyd ei hunan." Ac onid yw mor anhawdd cael blaenor i'r pulpud i ddechreu oedfa ag a fyddai cael *tarw gwyllt i gwch y Borth:* ac megys fod perygl i'r eglwysi dderbyn cais un am bregethu a neb ond Duw yn gwybod a fydd efe yn gweddïo o gwbl, mae y perygl yma yr *un* mewn cysylltiad â blaenoriaid, ac i ystryd a doniau gweddi wywo yn yr eglwysi, ac i'r capelydd gael eu llanw â llyfrau o ffurf-weddïau. Yr ydym yma yn dwyn ar gof i chwi fod gweddïwyr anghyffredin yn perthyn i Gyfarfod Misol Arfon 60 mlynedd yn ol.

Eto, Cyfarfod Misol Arfon 60 mlynedd yn ol *yn ei bregethwyr.* Goddefer i ni fyned ychydig yn ol dros y terfyn i gofio am Robert Roberts o Glynnog. Mae rhai eto yn fyw yn Nghlynnog a fu yn cydoesi â'r pregethwr mawr yma, yr hwn oedd fel cwmwl tanllyd uwch ben Arfon, yn saethu mellt ac yn bwrw cawodydd, a chynnulleidfäoedd Arfon yn boddi mewn dagrau edifeirwch. Dyn gwanaidd ei iechyd oedd Robert Roberts, wedi ei ddwyn i fyny yn Fridd Bala'rdeulyn, ond yn byw yn Eifionydd. Pan yn dechreu pregethu, ac mewn Cyfarfod Misol yn Brynengan, fe drefnwyd i Robert Roberts fyned i fyw i Gapel Uchaf Clynnog, yr eglwys fwyaf a chyfoethocaf yn Arfon y pryd hyny; ac i'r eglwys a'r ffarmwyr cylchynol gadw tŷ llawn o holl anghenrheidiau bywyd i Robert Roberts, ac iddo yntau wasanaethu yr eglwys a'r eglwysi bychain cylchynol; a dyma ddechreuad y fugeiliaeth eglwysig yn Arfon; ac er yr ymddangosai y gangen yma fel ar wywo am amser hir, eto wele ysbryd gofal am yr eglwysi fel cangen dan ei llawn flodau yn Arfon heddyw. Ac onid hon yw yr hen ffordd Fethodistaidd megys yn Mrynengan gynt, fod gan y Cyfarfod Misol lais yn newisiad bugeiliaid i'r eglwysi? Ar un adeg pan oedd Robert Roberts yn dyfod adref o'i daith yn y Deheudir, ar ei ddyfodiad i'r tŷ mae Elin ei wraig yn dyweyd wrtho fod Elin Marc, Tan y gareg, yn ymyl marw; ac aeth yntau yno yn y fan cyn tynu ei gôt uchaf (gwraig grefyddol iawn oedd Elin Marc). Aeth ar ei liniau, a dechreuodd weddïo yn llawn o ffydd a chydymdeimlad, gan gyfeirio at yr iachawdwriaeth yn Nghrist fel cerbyd o goed Libanus, ei lawr o aur, a'i leni o borphor, a'i ganol wedi ei balmantu â chariad i ferched Jerusalem. "Dyma un o ferched Jerusalem yn cychwyn i'w thaith, Arglwydd," meddai, "cyfod hi i'r cerbyd," ac ymhen ychydig oriau bu farw Elin Marc. Dyma esiampl i bregethwyr ieuainc fod yn llawn o wres cydymdeimlad â dynion mewn cystudd a chyfyngder. Mae ymdrech mawr yn anghenrheidiol i'w gyflawni yn deilwng, a'n dymuniad ydyw na welir ein gweinidogion yn darllen gweddïau llyfr yn oer a dideimlad yn nghlyw dynion ar ddarfod am danynt ar wely cystudd ac angeu. Dyma a barodd i weddïau personiaid Eglwys Loegr fyned yn bethau mor ddialw am danynt. Pan yr oedd R. Roberts ar ei wely angeu, a'r *society* yn y capel, mae yn gorchymyn i Elin ei wraig estyn ei ddillad iddo. "I beth?" gofynai Elin. "Yr wyf am fyned i'r capel i ffarwelio â'r eglwys;" a myned wnaeth er dymuno yn daer iddo beidio. Dywedodd wrth yr eglwys na chaffent byth ei weled gyda hwy ar ol y tro yma; yna rhoddes iddynt lawer o gynghorion gwerthfawr, ac yna ffarweliodd â hwynt am byth. Torodd yr eglwys i wylo ac wylo o hiraeth a dychryn. Ar y ffordd adref y noswaith yma, trwy y dychryn rhoes Mary Pritchard, Ty'ntwll, enedigaeth i'w phlentyn yn gynt nag yr oedd yn dysgwyl, a chan fod amryw chwïorydd caredig gyda hi daeth trwy yr amgylchiad yn gwbl lwyddiannus. Enw y plentyn a anwyd ar y ffordd o'r capel dan yr amgylchiadau hyn yw John Williams, Ty'ntwll; mae yn fyw eto yn America, a John Williams, Ty'ntwll, yw ei enw yno. Gallai fod rhai o'r brodyr fu yno yn ddiweddar wedi ei weled, mae yn flaenor gyda'r Methodistiaid, yn Gristion dysglaer; yr oedd yn gantwr da, ac y mae eto os nad yw wedi colli ei lais trwy henaint. Y pregethwr yn Nghyfarfod Misol Arfon ar ol Robert Roberts oedd John Jones, Talysarn, a rhydd yw i ninnau ddadgan ein barn mai efe oedd y pregethwr mwyaf a chyfoethocaf o bob adnoddau yn ei bulpud, i'w ddyrchafu yn anfesuradwy uwch na'i gyfeillion. Yr oedd mwy o bellder doniau rhwng y pregethwyr 60ain mlynedd yn ol nag sydd heddyw. Nid yw John Jones, Penrhyn, Lleyn, yn ein plith ni mwy, na Thomas

Pritchard, Nant, Lleyn, na Richard Williams, Bwlchderwyn, na Rowland Abram yn Arfon, na John Jones, Bethania, yn Môn, dynion o gymeriadau dilychwin, ac yn barchus yn eu cartrefi a thrwy y wlad, ond heb fod o ddoniau uchel. Mae y dosbarth yma o bregethwyr wedi gadael Arfon a Lleyn, fel na cheir mo honynt hwy mwyach yn aros ond fy hunan yn unig. Yr wyf yn cofio yn dda pan glywais son gyntaf am John Jones, Talsarn. Yr oeddym mewn cae gyda'r dynion oeddynt yn codi tatws, a ninnau y plant yn eu hel, ac ar ryw adeg o'r dydd mae un o'r enw William Roberts, Buartha, yn dyweyd "Dowch, heliwch blant, gael i ni fyned i'r capel, mae yno angel yn pregethu heno." Yr oedd pawb wrth ei waith ac yn meddwl am yr hwyr, a rhyw bryd rhwng pump a chwech, a'r cae lle yr oeddym yn ngolwg y ffordd i'r Capel Ucha, mae W. Roberts yn codi ei lygaid ac yn dyweyd, "Dacw fo yr angel yn myn'd;" a dyma yr olwg gyntaf arno ar gefn ceffyl uchel yn myned yn lled araf. Ei destyn y noswaith hono oedd, "Ac yn uffern efe a gododd ei olwg, ac efe mewn poenau," &c., ac yn dyweyd wrth y pechadur pa fath fyddai ei sefyllfa yn y byd a ddaw trwy wrthod y Ceidwad: "Byddi yn cofio cynghorion dy dad a dy fam, poen fydd hyny; byddi yn cofio cynghor dy athraw yn yr Ysgol Sul, poen fydd hyny; byddi yn cofio y pregethau a wrandewaist, poen fydd hyny; byddi yn cofio y Gwaredwr y darfu i ti ei wrthod, poen fydd hyny." Yr oedd ei lais fel udgorn peraidd, a nerthoedd y byd a ddaw wedi disgyn ar y gynnulleidfa fawr; fe gofir y bregeth am dragywyddoldeb. Wrth gyferbynu y blynyddoedd yna â'r blynyddoedd hyn, y perygl mawr ydyw i ammheuon gael lle yn meddwl gweinidogion y Gair o berthynas i barhad cosbedigaeth pechod, a thrwy hyny yr efengyl yn colli ei nerth a'i dylanwad ar ddynion annuwiol, ac i gleddyf yr Ysbryd golli ei fin, ac ammheuaeth yn codi am bob gwirionedd dadguddiedig, a seiliau crefydd wedi eu dadymchwel. Nid oes ynom yr un ammheuaeth am burdeb y weinidogaeth yn Arfon gyda golwg ar y gwirionedd tragywyddol yna, ond yn unig ein bod yn dangos ei fod yn un o'r elfenau mwyaf pwysig a dylanwadol yn yr oes sydd wedi myned o'n blaen.

Eto, Methodistiaid Arfon gyda golwg ar *y ddysgyblaeth* a llywodraethiad yr eglwysi. Edrychid ar y pechod o feddwdod gyda llawer iawn o gydymdeimlad, ac fel gwendid dynol, ac nid fel trosedd pendant o orchymyn Duw, cyn dyfodiad Dirwest; eto ni fynem er dim trwy ddywedyd fel hyn wneyd cam â chenedlaeth ei blant Ef. Yr oedd y parch a delid y pryd hyny i'r ddiod feddwol yn achlysur i'r gwendid yna. Methid a gweinyddu cerydd os na byddai y dyn wedi bod yn paffio neu ymdreiglo yn y ffos, ac er hyny edrychid arno fel un i dosturio wrtho ac nid fel troseddwr gorchymyn Duw. Yn awr mae y warogaeth a delid i'r ddiod feddwol wedi llwyr ddarfod. Y dosbarth isaf eu cymeriad a welir yn eistedd yn y tafarnau i yfed, a theimla y bobl gywilydd i gario potel â rhyw wlybwr ynddi, rhag i neb feddwl eu bod yn llochesu y ddiod feddwol. Y pechodau oeddynt yn drygu mwyaf ar yr eglwysi y blynyddoedd gynt ydoedd lladrad, godineb, a chelwydd: lladrata rhaff, lladrata trosol, lladrata dillad, &c.; ac yr oedd y ddysgyblaeth yn ofnadwy o lem yn erbyn y drygau hyn. Yn fynych byddai y tystion yn dilyn ar ol celwydd o'r naill i'r llall ac i'r trydydd drachefn, ac yn y diwedd ei golli yn yr awelon. Ond y pechod yr ymdrechid fwyaf yn ei erbyn hanner can' mlynedd yn ol ydoedd anniweirdeb; a thrwy ymdrech y Parchedig John Jones, Talsarn, sefydlwyd cymdeithas diweirdeb ymhob cynnulleidfa trwy Arfon. Clywsom ef yn areithio ar anniweirdeb am awr a hanner yn y dull mwyaf moesgar, coeth, a mawreddog, a barodd i ni oes o synedigaeth. Ni adawoddi'r gynnulleidfa am fynyd ar hyd traethiad mor faith feddwl am ddim ond angeu, barn, a thragywyddoldeb; a'r ymholiad ydyw, a all Methodistiaeth yr oes hon sefyll yn gyfartal yn ei moesoldeb a'r oes sydd yn awr ar ddiflanu?

Eto, Methodistiaeth Arfon o'i chyferbynu â'r dyddiau gynt yn *y tâl mewn cysylltiad â gweinidogaeth yr Efengyl*. Addefir er y gwahaniaeth mewn arian a chymdeithas, a'r gwahaniaeth yn y dull o fyw, fod pethau yn nês i'w lle yn y dyddiau presennol; eto heb gyrhaedd fel ag i osod gweinidogion yr efengyl ar dir i fod yn gysurus gyda golwg ar eu hamgylchiadau yn y byd, wrth gymeryd i ystyriaeth y gymdeithas y rhaid iddynt droi ynddi, a'r dillad y rhaid iddynt eu gwisgo yn eu hymweliadau, a'r llafur ysbrydol y maent ynddo ar hyd yr wythnos, a llawer o gyfeillion anwyl a pharchus yn ymweled â hwy yn eu cartrefi,—a chymeryd yr holl bethau hyn i mewn, rhaid i ni ddyweyd wrth yr eglwysi "Eanger chwithau hefyd. Fe gymylir anrhydedd yr efengyl yn ein plith os gollyngir ein gweinidogion i fod yn ddynion isel eu hamgylchiadau." Yr ydym yn cofio i'r pwnc yma fod dan sylw yn eglwys y Capel Ucha' yn y dyddiau gynt, ac annogaeth yn cael ei rhoddi ar

i'r eglwys ychwanegu ei chasgliad; a'r Parch. William Roberts yn codi, ac yn dyweyd nad oedd yr eglwysi yn talu hanner digon am y weinidogaeth oeddynt yn gael. "Dyma fi," meddai, "yr wyf yn cerdded yma atoch er's dros ugain mlynedd, ac ni roisoch gymaint a phâr o esgidiau i mi am fy holl lafur." Er cywilydd i'r hen Fethodistiaid 60 mlynedd yn ol yr ydym yn dywedyd hyn, ac er dangos y perygl i'r oes hon rhag i'w phregethwyr fyned yn ddynion isel eu hamgylchiadau a cholli eu dylanwad fel aelodau o gymdeithas, ac i hyny luddias nerth a llwyddiant y weinidogaeth.

*Er Cof am y Parch.* DAVID JONES, *Treborth.*

Y gŵr oedd yma 'n goron—y difai
Ein DAFYDD JONES ffyddlon,
I bridd—mae yn ormod bron
Gyru y fath ragorion.

Ow Arfon! beth a orfydd—yr Achos
A'r uchel gapelydd;
Ai dyfod angeu DAFYDD
Yn feddrod i'th fawrglod fydd?

Cwmwl y gwlaw i'n cymoedd—a'i gynnwys
Digonai 'n dinasoedd;
Dal ei rym fel diluw 'r oedd,
A bwrw byw aberoedd.

Taran a'r fellten folltiai—ac yma
Y cwmwl a dorai;
Nodwn y llif—nid yw 'n llai,
O'i afon pawb a yfai.

O! gŵyr beth ydyw 'r goron—a'i raddio
O roddiad Duw cyfion:
Y doniau i droi dynion
O d'wllwch yw harddwch hon!

SION FRYN'RODYN.

## Barddoniaeth.

MARWNAD I'R DDIWEDDAR MRS. JONES, PENRHOSDDU, LLANFAETHLU.

(BUDDUGOL.)

TI, angeu erch, dinystrydd brwnt, dilun,
Dattodwr c'lymau tynaf pob rhyw serch,
Ni pherchi mo deimladau dwysaf dyn,
Ni thoddi chwaith wrth ddagrau heilltion merch;
Y baban gwan, y wyryf fwyn, a'r llanc,
Ynghyd a'r henwr sydd yn welw 'i wedd,
Ant oll yn aberth i'th anniwall wanc,—
Ysgubo 'r cyfan wnei i waelod bedd.

Ond, er dy waethaf, hyn sydd gysur cryf,—
Ni elli gyffwrdd â'u rhinweddau glwys:
Pob rhinwedd yn dy wyneb saif yn hyf,
Er iti gael ei berchen dan y gwys.
Os cefaist i dy argel wely prudd
Ein Mrs. JONES; un anwyl, deg ei gwedd,
Ei rhinwedd eto yn pelydru sydd,
Fel heulwen haf, yn danbaid uwch ei bedd.

Er i deimladau wneyd y rudd yn llaith
Am golli hon o'n plith, mewn hiraeth dwys
Hyfrydwch geir wrth adolygu 'i thaith,—
Ei bywyd pur ni chuddir dan y gwys.
Fel y golomen hawddgar, ar bob pryd
Ei gwisg yn lân a dysglaer gadwodd hi;
Mor ysgafn oedd ei thaith drwy 'r anial fyd,
Heb gasglu llaid wrth hedeg uwch ei li'.
Mor dyner ydoedd ei theimladau byw!
Ni churodd calon burach dan un fron;
Ac egwyddorion sanctaidd teyrnas Dduw
A lywodraethent ysgogiadau hon.

Mewn annedd glyd yn Amlwch, dawel fan,
Fe welid mam yn gwasgu i'w mynwes gu
Ei "Betsy" bach, gan anfon ar ei rhan
Erfyniau taer i'r Sancteiddiolaf fry.
Mewn 'stafell arall gellid gwel'd y tad
Yn plygu o flaen Llywiawdwr nef a llawr,
I ddiolch am y waredigaeth rad,—
Yn cadw 'r ddwy yn fyw mewn cyfyng awr.

Pan oedd y ganrif hon gylch ugain oed
Yn nghanol Gwanwyn, daeth y rhŵaint gwiw
I'r "Capel mawr," a hithau 'r fechan roed,
Drwy "Fedydd ffydd," o fewn magwyrydd Duw.

Y weddi daer offrymwyd ar ei rhan
Gan John Elias, aeth i'r orsedd fawr;
'R oedd ôl y weddi arni ymhob man,—
Daeth gweddi iddi 'n gymhorth ar bob awr.

Pan adre 'n bywiog chwareu gyda 'r plant,
Meddyliau am y nef a lanwai 'i bron;
'R oedd enw Iesu fel rhyw felus dant
Yn nhelyn aur ei chalon serchog lon.
Pa ryfedd hyn? ond Iesu oedd yn brif
Yn serch y teulu; troes ei henwog dad,
Hen wron Amlwch, rym ei nawdd yn llif
I gludo 'i riniau Ef i gyrau 'r wlad.

Gwelwch yr aderyn acw
Yn rhoi dait o gylch ei nyth:
I ba beth? Y sarph wenwynig
Nis gall dreiddio drwyddynt byth.
Felly y rhieni yma
Roisant serch yn gylch dilyth
Am eu plant; ni allodd diafol
Wneuthur niwaid iddynt byth.

Hardd ufudd-dod ystig ydoedd
Yr ufudd-dod roddodd hon
I'w rhieni,—gostyngeiddrwydd,
Cariad pur, a lanwai 'i bron:
Un gair chwerw ni ddyferodd
Dros ei gwefus, eneth gu:
Melus eiriau y rhai addfwyn,
Dyna ydoedd iaith y tŷ.

Pan yn eneth ieuanc hawddgar
Yn hen ysgol lwyd y Llan,
Dysgai 'r gwersi yn egniol
A ddarperid ar ei rhan:
Hi ragorai ar ei chyfoed
Mewn gwybodaeth, gallu, chwaeth;
Gan orchfygu pob anhawsder,
Wrth ei gwersi glynu wnaeth.

Fe dreulia rhai foreuddydd oes
I ddarllen ofer chwedlau;
Ond hon ar lethrau bryn y Groes
Ddewisai gasglu blodau:
Ystyriai amser yn rhy ddrud
I'w roddi am wâg bleser;
A dilyn Crist wnai ar bob pryd
Mewn hawddfyd a gorthrymder.

I'w chof, trysorai tra fu byw,
Y sanctaidd Ysgrythyrau:

Mor bêr ei llais â cherub Duw,
Adroddai 'r byw oraclau.
Hi wyliai 'n wastad ar ei throed,
Wrth fyn'd i dŷ yr Arglwydd;
Ni welwyd ynddi yno 'rioed
Un duedd at wamalrwydd:
'R oedd natur rywfodd ynddi 'n nglŷn
A chrefydd gun yr Iesu
Fel wedi trwsio 'i hysbryd gwiw
A moesau i'w hedmygu.

Pan oedd yn llawn dwyflwydd ar hugain oed,
Hi wylaidd gyrchodd gydag ysgafn droed
I'r eglwys hen—dan sêl yr ammod aeth,
Yn awyr serch, i fyw "er gwell er gwaeth."
Fe wenai ffawd yn dirion ar ei hoes,
Ac olew cariad leddfai 'r gwenyg croes.
Er gwneuthur ei dedwyddwch yn fwy llawn,
Daeth Richard bach i'w lloni 'n fuan iawn;
Ac O! 'r fath eilun oedd y plentyn mad— -
"Calon ei fam a llygaid byw ei dad."
Gobeithiai 'r fam ddyfodol gwych i'w ran,
Dysgwyliai gael ei glywed yn y man
Yn tywallt ffrydlif o hyawdledd gwir,
Fel gwnai ei daid, nes ysgwyd llawer sir.

Ond pan ydoedd heulwen ei bywyd
Yn gwasgar pelydrau ei hedd,
A'i phlant bach o'i hamgylch yn gwenu,
Ei llwybr a groesir gan *fedd;*
A phan yr oedd cwpan dedwyddwch
Yn felus i'w genau fel gwin,
'R oedd Marah a'i wermod yn ymyl—
Ar dori 'r oedd 'storom erch flin.

Mae dyn wedi ei eni i flinder,
Fel hed y wreichionen fach fry;
Nid ydyw byw 'n ddiwiol yn ddigon
I attal hyf rwysg angeu du.
Pe felly, ni fuasai i'n Gwrthddrych
'R un gofid na chwerwedd yn d'od;
Ond pawb ydynt gydradd yn angeu,
'D yw ef ddim yn methu ei nôd.

Yn aml pan welir yr eigion
Heb waneg yn rhychu ei rudd,
Pryd hyny daw 'r corwynt tymhestlog
I'w ddeffro 'n ei wely oer, cudd.
Yn debyg mae angeu yn d'rysu
Pob cysur—ei ddeifio mae 'i wedd;
Yn bedair blwydd oed dyna Richard
Yn welw dan d'warchen y bedd.

Cyn sychu o ddagrau y teulu,
Yn'is daw ei ddyrnod o hyd;
Saith mis y goddefir i Annie
Fyw 'n awyr afiachus y byd;
Ac wedi saith mlynedd o seibiant,
Mae 'r chwalwr yn curo drachefn—
Eliza bump oed a'i boddlona
Yn unig—mor dywyll yw 'r drefn!

I fam mor serchog, digon ydoedd hyn
I'w rhoddi hithau dan gysgodau 'r glyn.
Ond digon byth yw gras ein Iesu mwyn,—
Mewn profedigaeth mae 'n rhoi nerth i'w dwyn;
Gofalu mae am nerth yn ol y dydd,
Fel y dadlenir y dyfodol prudd.
Hi gafodd nerth, ac ymdawelu wnaeth;—
Fel Dafydd gynt, i deml Dduw yr aeth,
Gan blygu dan alluog law yr Iôr,
A chofiai fod ei lwybrau yn y môr.
Ac mewn teimladau cymysg o fwynhad
A galar dwys, trwy ffydd canfyddai wlad
Tu hwnt i'r cwmwl du, o fwyniant gwir,
A'r Orsedd wen a'i holl fwriadau 'n glir.
Mae natur dyn, er hyny, weithiau 'n wan
I ddal y profion celyd ddaw i'w ran.
Fe 'i gwelid hithau 'n wylo dagrau 'n hallt,
A'r almon a flodeuai rhwng ei gwallt.
Ond gallodd ymgysuro yn ei Duw,
A diolch am y "*gweddill*" ga'dd yn fyw.

Er stormydd a phrofedigaethau,
Ni chiliodd, ni lithrodd ei throed:
Ond fel y try gwyntoedd y gauaf,
Yn fantais i wreiddiau y coed,
Bendithiwyd yr holl amgylchiadau,
Dadblygwyd yn fwy fwy ei nerth;
Ei llafur yn nghapel Llanfaethlu
Nis prisir, nis gwyddir ei werth.

Addysgu, dyrchafu dynoliaeth
Oedd awydd ei henaid o hyd;
Er anfon Efengyl tangnefedd
I dywyll baganiaid y byd,—
Cyfranai o'i chyfoeth yn helaeth,
Ystyriai wneyd hyny yn fraint;
A chofiai mai teyrnged i'r Brenin
Oedd gwneyd pob cymwynas i'r saint.

Agorai ei drws yn groesawgar
I weision yr Iesu bob pryd;
Amcanai eu gwneyd yn gysurus
Ag ymborth a lletty hardd clyd,
Y tlawd a'r cyfoethog yn gydradd
A gaent yr un croesaw gan hon;
Ni chafodd "*sefyllfa*" 'r un effaith
Ar ffrwd caredigrwydd ei bron.

Tosturi a lanwai ei mynwes
Ei llaw oedd agored a hael:
Cyflenwai anghenion cardotyn,
Cysurai yr afiach a'r gwael;
Am gwynion ni wyddai y chwiliai,
Dilladai y rheidus a'r noeth;
Cynghorai, rhybuddiai 'r afradlon,
I ddychwel i lwybrau y doeth.

Bu 'n gynnil, a doeth, a darbodus,
Wrth gario ei masnach ymlaen;
Ni chafodd yr ysbryd cribddeilgar
Roi ar ei chymeriad un 'staen:
Gonestrwydd,—tawelwch cydwybod,
Oedd iddi yn drysor mwy drud
Na phe 'r ennillasai wrth dwyllo
Y byd a'i holl gyfoeth i gyd.

Yr ydoedd yn hollol ddiweniaeth,
A phur, O mor brin ydyw 'r rhai 'n!
Nis cuddiai fradwriaeth mewn gwenau,
O'r golwg fel cleddyf mewn gwain.
Chwedleuon yn chwannog ni choeliai,
Ei ffydd yn ei chyfaill oedd gref;
A phan fyddai anghen ceryddu,
Gwnai hyny yn ysbryd y nef.

Ei llwybr oedd lân fel y wawrddydd,
Heb gael ei lychwino erioed,
Heirdd flodau amryliw paradwys
Ymdarddent lle sangai ei throed.
Mor ysgafn a'i meddwl gorphwysed,
Boed ysgafn dywarchen ei bedd:
Paham y galarwn am dani,
A hithau yn nghrigfan yr hedd?

Mor hyfryd ydyw 'r adgof ddaw i'm bron,—
Ei gwel'd mewn dosbarth o wyryfon llon;
Yn ddyfal dysgai hwynt yn moreu oes
I gerdded llwybrau rhinwedd, ffydd, a moes.
Ac O! mor felus soniai am y nefoedd,
Cartrefle 'r Oen, a'r seintiau yn oes oesoedd!
Cyffyrddai 'n fynych â rhyw felus danau
Yn eu calonau, nes creu ynddynt hwythau
Angerddol awydd am gael byth gartrefu
Yn nefoedd Duw, yn nghwmni 'r addfwyn Iesu.
Fel garddwr yn ei ardd, gwnai hithau 'i rhan
I drin, a meithrin ei phlanigion gwan:
A chofiai y cyfodid hwy cyn hir
O'r tawchlyd fyd i wlad yr awyr glir;
Lle tyfant fel bytholwyrdd goedwig wiw,
Am byth o amgylch llachar orsedd Duw.

Ei rhagoriaethau oeddynt aml ri',
Eu nodi oll sydd ormod gwaith i mi

Fel coron dlos yn llawn o berlau drud.
Mor ddysglaer nes yn hollol ddenu bryd:
Uwch ben pob un y meddwl ä ar goll,—
'D oes dim i'w wneyd ond synu at yr oll.
Neu fel yr enfys ddysglaer sydd uwch ben,
Yn glwys addurno mynwes wlêb y nen.
Ei lliwiau heirdd ymdoddant naill i'r llall
I wneyd *un* enfys brydferth a diwall;
Ac felly hithau—'r oedd ei bywyd oll
Yn ffurfio *un* cymeriad hardd digoll.

Yn swn tonau 'r afon am ysbaid bu 'n nychu,
Yn raddol a sicr i'w glanau bu 'n nesu.
"Gwlad well" a ganfyddai drwy dawch ei gwyllt genlli',
Edrychai yn ngwyneb marwolaeth heb ofni.
Fel eryr ymgodai o greigiau 'r ddaearen,
O ran ei myfyrdod fry, fry i ffurfafen
Y fuchedd ysbrydol—'r oedd ei hymarweddiad
Mor uchel, nes canfod dydd mawr adgyfodiad,
Pan gyfyd ei chorff i'r uchelder pur dwyfol,
Lle trigai ei hysbryd mewn mwyniant gwastadol.
Pan yn ei chymdeithas fe deimlid ar brydiau
Yn awyr byd arall wrth wrando ei geiriau.

Yr Eglwys bryderai, gobeithiai, gweddïai;
Adferiad ddysgwylid, ond angeu a'i siomai.
Pe ffrydiau o ddagrau allasent arafu
Gwyllt gamrau marwolaeth, nid hi gawsai 'i chladdu.
Mor ddyrys rhagluniaeth—tristâu ei hanwylion,
A'i thynu o fynwes ei phriod hoff tirion!
Ond Ef sydd yn gwybod pa beth sydd yn orau;
Goleuni byd arall esbonia 'i fwriadau.

Er oered chwa angeu dros fynwent y Llan,
Mae 'r Iesu yn cadw 'r agoriad:
Awgrymu mae 'r blodau orchuddiant y fan
Bob Gwanwyn, y bydd adgyfodiad.
Dyrchafwn ein llygaid, mae 'n chwaer gydag Un
Ryw ddiwrnod a fyn ei llwch allan;
Bedd gwâg ein Gwaredwr wnaeth farw yn hûn,
A'r fynwent yn dawel orphwysfan.

HUGH HUGHES.

*Llanrhyddlad.*

## Adolygiad y Wasg.

ESBONIAD AR EPISTOL CYNTAF IOAN. *Gan y Parch.* D. CHARLES DAVIES, M.A., *Prifathraw Coleg Trefecca.* Caernarfon: D. W. Davies & Co.

Y MAE yr Esboniad rhagorol hwn ar un o Epistolau pwysicaf y Testament Newydd yn ychwanegiad tra gwerthfawr eto at fanteision efrydwyr Biblaidd yn Nghymru. Da genym feddwl fod yr efrydiaeth hon, yr oreu o bob un, wedi cynnyddu llawer yn ein gwlad yn y blynyddoedd diweddaf, o ran swm ac ansawdd. Y mae nifer efrydwyr difrifol Gair Duw wedi lliosogi, ac y mae yr efrydiaeth wedi cyfodi i dir uwch. Credwn fod y cynnydd dymunol hwn, i fesur mawr, yn ffrwyth gweithrediadau Pwyllgor Undeb yr Ysgol Sabbothol. Rhoddodd yr Undeb hwn symbyliad newydd i lafur, ac ar yr un pryd dygodd allan gynnorthwyon gwerthfawr i arwain y llafur i'r iawn gyfeiriad.

Addefa pawb fod y Prifathraw Davies yn "ysgrifenydd wedi ei ddysgu i deyrnas nefoedd, ac yn dwyn allan o'i drysor bethau newydd a hen." Nid rhai pethau newydd a rhai pethau hen. Y mae yr un pethau yn newydd ac yn hen ar unwaith. Y mae y pethau newydd yn hen o ran egwyddor, a'r pethau hen yn newydd o ran ffurf. Dygodd feddwl arddansoddol i ymdrin â duwinyddiaeth. O ran meddwl o ffrwythlondeb nodedig o gynnyrchiol, gwreiddioldeb a newyddddeb syniadau, treiddgarwch a chyflymder amgyffrediad, a gallu diderfyn bron i wahaniaethu ac elfenu, buasai Mr. Davies yn cymeryd lle uchel ymhlith yr Ysgolwyr pe buasai yn byw yn y Canol-oesoedd. Ond am fod yr ansoddau hyn ynddo ef wedi eu huno âg ysbryd duwiolfrydig ac efengylaidd, parch dwfn i awdurdod y Gair Dwyfol, dysgeidiaeth a llafur i chwilio i ystyr geiriau y Bibl trwy eu cymharu â'u gilydd, a gwybodaeth o egwyddorion athroniaeth feddyliol a moesol, yn gystal ag o egwyddorion duwinyddiaeth, ac o gymhwysiad yr egwyddorion hyn at eu gilydd fel y maent yn cadarnhau a goleuo eu gilydd, y mae ein hawdwr yn dduwinydd athronyddol o nodwedd anghyffredin. Eglurir ac addurnir yr egwyddorion hefyd yn fynych â chymhariaethau o brydferthwch mawr. Y mae gan ein hawdwr lygad cyflym i ganfod cyfatebion mewn lleoedd annysgwyliadwy, ac felly i gynnyrchu cymhariaethau newydd a gwreiddiol.

Ond rhaid i ni beidio ymollwng gyda'r demtasiwn i geisio darlunio nodweddion meddyliol Mr. Davies. Y mae gwreiddioldeb ac annibyniaeth ei feddwl yn hysbys i bawb. Ni cheisiodd fod yn debyg i neb, ac ofer yw i neb geisio bod yn debyg iddo yntau. Y mae yn feddyliwr ar ei ben ei hun. Rhoddodd hyn le iddo ar ei ben ei hun yn y Cyfundeb. Nid yw yn wrth-ddywediad i ddyweyd am Mr. Davies, pa bryd bynag y dechreuir gwrando arno yn llefaru ar unrhyw bwnc, neu pa bryd bynag y dechreuir darllen cynnyrch ei feddwl, y gall pawb ddysgwyl yr annysgwyliadwy, ac na chânt byth eu siomi. Gwna hyn bobpeth a ddywed neu a ysgrifena yn ddyddorol. A chreu dyddordeb yw y cam

cyntaf tuag at adeiladu yn fuddiol, a gwneuthur y daioni uchaf i feddwl ac ysbryd.

Y mae nodweddion a rhagoriaethau neillduol y Prifathraw yn dyfod i'r golwg yn mhob tu dalen o'r Esboniad gwerthfawr hwn. Esboniad gwreiddiol ydyw. Ni thrafferthir y darllenydd â golygiadau Ebrard, Haupt, na Westcott, na neb arall braidd. Meddwl yr awdwr a welir yma yn gweithredu yn unionGyrchol gydag ŷni a difrifwch ar y meddyliau dwyfol, i benderfynu eu hystyr, i'w hagor, ac i ddwyn allan eu cynnwys goludog. Yr oeddym wedi nodi rhai darnau o ragoriaeth neillduol i'w dyfynu; ond ni chaniatâ gofod y tro hwn. Arwydd daionus i'n gwlad a fyddai fod y llyfr gwerthfawr hwn yn cael gwerthiant helaeth ac astudiaeth ddifrifol ymhlith ieuenctyd ein Heglwysi a'n Hysgolion Sabbothol. Dymunwn i'r Awdwr parchedig flynyddoedd lawer o iechyd a nerth i barhau i fod yn ddysgawdwr yr Athrofa; yn un o brif ddysgawdwyr ei gyfundeb â'i genedl; ac i ddal i fyny ger bron ein pregethwyr ieuainc safon uchel o burdeb chwaeth ac arddull, yn gystal ag o burdeb a daioni cymeriad.

---

Album Williams, Pantycelyn. *Dan olygiaeth* W. Morgan, *Pant.* W. Morgan, Pant, Dowlais. 1890.

Dyma berl o lyfr, yn dysgleirio amgylch ogylch gan belydrau o swyn a phryddferthwch. Y mae enw a phobpeth Williams yn myned yn fwy swynol o hyd gyda threigliad y blynyddoedd. Y mae yma Ddetholion rhagorol o'i Weithiau, crynodeb difyrus o brif ffeithiau ei fywyd, desgrifiadau bywiog o'r lle y ganwyd ef, o eglwysi Talgarth a Llanwrtyd, o Bantycelyn, Llanfair-ar-y-bryn, a'r Capel Coffadwriaethol yn Llanymddyfri. Ac yn prydferthu y cwbl, ceir yma ddeuddeg o ddarluniau *(photographs)* rhagorol o hono ef ei hun ac o'r lleoedd a anfarwolwyd trwy eu cysylltiad âg ef. Nid oes eisieu cymhell gwerthiant y llyfr hwn.

---

Y Pregethwr. *Rhif* 1. *Cyf.* I. H. Evans, Bala a Blaenau Ffestiniog. 1890.

Rhifyn cyntaf yw hwn o gyfres newydd o Bregethau, gan weinidogion o wahanol enwadau, a than olygiad pedwar o wŷr cymhwys o'r pedwar enwad. Un Bregeth y mae'n debyg sydd i fod yn mhob Rhifyn. Y mae y Bregeth yn y Rhifyn hwn gan un o'r Golygwyr—gŵr sydd yn adnabyddus er's llawer o flynyddoedd fel traddodwr ac awdwr Pregethau rhagorol yn Gymraeg a Saesoneg, ac fel un o brif weinidogion y Bedyddwyr—y Parch. Abel J. Parry, Caerfyrddin. Pwnc y Bregeth yw "Peryglon gwrthgiliad," a'r testyn yr adnodau difrifol ac anhawdd, Hebreaid vi. 1—6. Gwneir ymgais teg at benderfynu ystyr y paragraph pwysig hwn, a cheir sylwadau rhagorol yn yr ymdriniaeth â'r pwnc; ond tybiwn fod y terfynau yn rhy gyfyng i ymchwiliad trwyadl i adnodau mor anhawdd. Ceir darlun da o awdwr y Bregeth yn y dechreu—da o ran tebygrwydd, ond nid o ran y gwaith. Carasem weled mwy o ofal am gywirdeb nag oedd yn nghynnyrchion y swyddfa hon, a lliw mwy rheolaidd. Y mae y rhifyn hwn yn well yn y ddau beth na rhai llyfrau a welsom yn dyfod o honi. Dodir ymhlith amrywion eraill yn niwedd y Rhifyn Englynion ar "Frwydr y Groes," gan Hwfa Môn. Y mae rhai o'r llinellau yn gynghaneddion cryfion a da iawn: megys—

"Obry i dân bwriwyd o
A'i deyrnas wedi 'i darnio."

"Tori mae y drymllyd daran—trwy y mwg
Trwy y mellt allan!
Ystyr dywydd y brwmstan,
Ac iaith Duw drwy 'r bregeth dân!"

---

Trysorfa'r Adroddwr. Rhif 8. *(Trimisol.)* D. L. Jones: Briton Ferry. 1889.

Cyhoeddiad hylaw yw y llyfr hwn, yn cynnwys casgliad o ddarnau tuag at adrodd, dadleu a chanu, ynghyd a chyfansoddiadau gwreiddiol. Y mae yn llyfr tra gwasanaethgar i Gyfarfodydd llenyddol, adloniadol, ac i gyfarfodydd y *Band of Hope*, &c. Gellir cael syniad am ei deilyngdod pan grybwyllwn fod y fath feirdd a Llawdden, Robyn Ddu Eryri, Dyfed, ac Alafon, yn anfon eu cynnyrchion iddo. Y mae "Galar Gwraig y Meddwyn" gan Llawdden, yn y Rhifyn hwn, yn un o'r pethau mwyaf dwys-deimladol *(pathetic)* a welsom un amser, ac yn werth mwy na phris y Rhifyn.

---

## Newyddion Cyfundebol.

### Y CYFARFODYDD MISOL.

Yn Nghyfarfod Misol Arfon, a gynaliwyd yn Talysarn, Ionawr 13 a'r 14eg, cadarnhawyd penodiad y Parch. W. Mathias Griffith, M.A., diweddar o

Lanrhaiadr, yn athraw yr Ysgol yn Nghlynnog. Diolchodd Mr. Griffith am ei benodiad a'i dderbyniad, gan ddadgan ei obaith y byddai yr Ysgol yn effeithiol. Pasiwyd pleidlais unfrydol o ddiolch i Dr. Roberts, U.H., Penygroes, am ei wasanaeth rhagorol yn ystod y chwe' mis y bu yn llywyddu, a chyflwynodd y gadair i'w olynydd, y Parch. R. O. Williams, Penmaenmawr. Hysbyswyd i'r Cyfarfod Misol fod E. H. Owen, Ysw., U.H., F.S.A., Tŷ Coch, Caernarfon, wedi anrhegu yr achos yn Rhyd-ddu â'r ceryg toi at y capel newydd a'r tŷ capel; a phenderfynwyd yn unfrydol a gwresog fod dadganiad o ddiolch puraf y Cyfarfod Misol yn cael ei anfon i Mr. Owen am ei garedigrwydd haelfrydig tuag at Rhyd-ddu. Traddodwyd anerchiad rhagorol gan y Parch. J. Hughes, D.D., ar "Weinyddiad yr Ordinhad o Swper yr Arglwydd," am yr hwn y rhoddwyd pleidlais unfrydol o ddiolchgarwch. Caed anerchiad rhagorol ac effeithiol gan y Parch. S. Owen, Tanygrisiau, ar ran Capel Pendleton, Manchester.

Yn Nghyfarfod Misol Dwyrain Meirionydd, a gynnaliwyd yn y Bala, Ionawr 6, 7, a'r 8fed, pasiwyd fod y Cyfarfod Misol yn galw ystyriaeth ddifrifolaf swyddogion eglwysig at y pwys o'u bod hwy yn talu sylw dyladwy i'r bobl ieuainc, yn darparu cyfarfodydd ar eu cyfer, ac yn gwasgu ar rieni ac eraill sydd yn gofalu trostynt, yr anghen am a'r pwys o addysg grefyddol a llafur cartrefol. Gwnaeth y llywydd, Roger Hughes, Ysw., U.H., sylwadau rhagorol iawn ar y mater penodedig, sef Gweddi. Diolchwyd i'r llywydd am danynt, ac annogwyd i ddal arnynt a'u dwyn ger bron yr eglwysi. Gosodwyd achos Jubili y Genadaeth Dramor ger bron y Cyfarfod mewn modd deheuig a deniadol gan R. Rowlands, Ysw., U.H., Pwllheli. Diolchwyd i Mr. Rowlands am ei ymweliad a'i anerchiad. Pasiwyd i wneyd ymholiad pa ddefnydd sydd yn cael ei wneyd o'r Ddeddf Gladdu mewn gwahanol ardaloedd. Cynnaliwyd Cyfarfod Cenadol, yn yr hwn y caed anerchiadau gan Dr. Griffiths, y cenadwr, a R. Rowlands, Ysw., U.H.

Yn Nghyfarfod Misol Lleyn ac Eifionydd, a gynnaliwyd yn Borth, Portmadoc, Ionawr 13 a'r 14eg, pasiwyd pleidlais o ddiolchgarwch i E. Jones, Ysw., Maer Pwllheli, am ei wasanaeth deheuig fel Cadeirydd am y chwe' mis diweddaf. Hysbyswyd am garedigrwydd Meistri R. Rowland, E. Jones, y Maer, a R. Jones, Pwllheli, tuag at yr eglwys yn Pantglas, a diolchwyd iddynt am eu haelioni. Hysbyswyd am brofedigaeth chwerw y Parch. E. Davies, Porthmadog, trwy farwolaeth ei anwyl fab, William, yn 18 mlwydd oed, yr hwn oedd yn fachgen ieuanc talentog a chrefyddol, ac wedi bod yn wrthddrych gofal a phryder ei rieni am flynyddoedd lawer. Pasiwyd pleidlais o gydymdeimlad didwyll y Cyfarfod â Mr. Davies a'i anwyl briod.

Yn Nghyfarfod Misol Dyffryn Clwyd, a gynnaliwyd yn nghapel y Rhos, Rhuthyn, Ionawr 30 a'r 31ain, cafwyd adroddiad cysurlawn gan y swyddogion am ansawdd yr Achos yn y lle. Dechreuwyd Achos y Methodistiaid yn y Rhos gan' mlynedd yn ol mewn hen ysgubor gerllaw y capel presennol. Y mae er hyny saith o eglwysi wedi canghenu o'r fam-eglwys, ond er y cwbl y mae hi yn cadw ei rhif ac yn cynnyddu. Ac yn awr y mae capel newydd helaeth a hardd yn cael ei adeiladu yn lle yr un presennol. Gan fod yr Epistol at yr Hebreaid wedi ei benodi gan Bwyllgor Undeb yr Ysgol Sabbothol i fod yn faes llafur yr ysgolion am y ddwy flynedd nesaf, ac yn faes llafur yr Arholiad Sirol, taer ddymunid ar i berson cymhwys ymhob ysgol gael ei benodi i gasglu enwau derbynwyr o Law-lyfr Principal Edwards ar yr Epistol at yr Hebreaid; ac hefyd fod brawd i gael ei benodi ymhob dosbarth i anfon archebion am y llyfr ynghyd a thâl am dano, trwy yr hyn y ceir ef ar delerau esmwythach. Annogir i wneyd hyn erbyn diwedd mis Ebrill. Cafwyd anerchiad dyddorol a gwerthfawr gan y Parch. John Davies, Bontddu, ar ran achos Jubili y Genadaeth Dramor. Diolchwyd i Mr. Davies am ei ymweliad a'i anerchiad.

Yn Nghyfarfod Misol Sir Fflint, a gynnaliwyd yn Ffynnongroew, Chwefror 3 a'r 4ydd, cafwyd ymdriniaeth ar y mater gosodedig, sef "yr anghenrheidrwydd am arolygiaeth fanwl a thrwyadl ar yr eglwysi." Cyflwynwyd diolchgarwch i Mr. John Parry am ei bapyr rhagorol ar y mater hwn.

Yn Nghyfarfod Chwarterol Henaduriaeth Lancashire, &c., a gynnaliwyd yn nghapel City Road, Caerlleon, Chwefror 4ydd, gweinyddwyd yr Ordinhad o Swper yr Arglwydd yn nghyfarfod y boreu, dan lywyddiaeth cyn-lywydd y Cyfarfod, y Parch. John Roberts. Cyfarchodd y Parch. Griffith Ellis, M.A., Bootle, y Cyfarfod ar ran Jubili y Genadaeth Dramor. Diolchwyd i Mr. Ellis am ei anerchiad, ac i'r Parch. John Roberts am ei wasanaeth ffyddlawn fel Ysgrifenydd yr Achos Cenadol o fewn yr Henaduriaeth.

## Nodiadau Misol.

YR ARCHDDIACON HOWELL AR YR EGLWYS YN NGHYMRU.

Hysbys yw yn ddiau i lïaws o'n darllenwyr fod yr Archddiacon Howell, Wrexham, wedi pregethu pregeth ar achlysur neillduol yn Eglwys St. Margaret's, Westminster, Llundain. Yr achlysur oedd—er cynnorthwyo y gronfa at adeiladu Eglwys Gymreig yn Llundain. Y testyn oedd—"Wrth afonydd Babilon yr eisteddasom, ac wylasom, pan feddyliasom am Sïon," &c., &c. Nis gallwn ddefnyddio iaith rhy graf i ddadgan ein barn am deilyngdod y bregeth hon, a'n parch i *Canon* Howell am ei phregethu. Ni welsom erioed sefyllfa yr Eglwys yn Nghymru, yr achosion o hyny, a'r holl achos rhwng yr Eglwys a'r Ymneilduwyr yn cael eu gosod i lawr gyda mwy o degwch ac ymlyniad cydwybodol wrth y gwirionedd, i ba le bynag yr elo â ni, nag yn y bregeth hynod hon. Nis gallwn yn awr ond gwneyd y crybwylliad byr hwn am dani.

## Cofnodau Cymanfaol.

CYMDEITHASFA LLANFAIR CAEREINION.

Rhagfyr 11, 12, a 13eg, 1889.

Llywydd,—Y Parch. William James, B.A., Manchester.

*(Parhâd o tu dal.* 70.)

Dydd Mercher, Rhagfyr 11eg.

*Am* 6 *o'r gloch, Cyfarfod y Pregethwyr a'r Blaenoriaid.*

XIX. *Pwnc Cyfarfod y Pregethwyr.*—Galwyd sylw gan y Parch. John Hughes, D.D., at y dymunoldeb o fod rhyw drefniant gwell yn cael ei wneyd yn y dyfodol, ac yn awgrymu fod y pwnc yn cael ei ystyried gan Bwyllgor y Rheolau Sefydlog. Penderfynwyd fod "Gweinidogaeth ein Tadau a'r Weinidogaeth yn y presennol" i fod yn bwnc ymdrafodaeth yn Nghyfarfod y Pregethwyr bore drannoeth.

XX. *Yr Ysgolion Gwrthbabyddol.*—Darllenwyd Adroddiad maith a manwl a boddhäol iawn ar yr ysgolion hyn gan y Parchn. Daniel Rowlands, M.A., a T. J. Wheldon, B.A., y rhai a fuont yn ymweled â'r ysgolion hyn. Diolchwyd yn wresog i'r ddau frawd am eu gwasanaeth ffyddlawn. [Gweler yr Adroddiad yn tu dal. 25 o'r Drysorfa am Ionawr.]

XXI. *Arholiad Cymdeithasfäol.*—Y Parch. John Hughes, D.D., a ddarllenodd yr Adroddiad dilynol o'r Arholiad Cymdeithasfäol:—

Cynnaliwyd yr Arholiad eleni yn Ngaerfyrddin a Dolgellau, Hydref 21, 22, a'r 23ain. Y materion oeddynt:—"Gwybodaeth Gyffredinol ynghylch yr Ysgrythyrau," "Hanes Abraham (Genesis xi. 27—xxv. 10)," "Luther a'r Diwygiad Protestanaidd," a "Darostyngiad Crist." Cafwyd pedwar eisteddiad, yn y Dehau a'r Gogledd, o dair awr bob un. Daeth ynghyd i Gaerfyrddin 24 o ymgeiswyr, ac 11 i Ddolgellau—y cyfan yn 35. O'r nifer yma bu 27 yn llwyddiannus. Gofidus gan yr Arholwyr hysbysu fod 8 wedi eu cadw yn ol am nad oedd yn bosibl gwneuthur yn amgen. Mae y rhai uchaf ar y rhestr wedi profi eu hunain yn ddynion o feddwl a gwybodaeth. Nid yw y lleill yn ddiffygiol yn y naill na'r llall, er fod eu safle yn yr Arholiad yn awgrymu iddynt y dylai y blynyddoedd dyfodol fod iddynt yn dymmor o lafur dyfal yn meusydd Duwinyddiaeth, Beirniadaeth Ysgrythyrol a Hanesiaeth Eglwysig. Nis gallwn lai nag ychwanegu fod yn yr Arholiad hwn ddefnydd cenadwri ddifrifol at lysoedd y Cyfundeb yn gystal ag at ymgeiswyr am y Weinidogaeth: pan y mae manteision addysg ymysg ein cenedl yn lïosogi mor gyflym, nid dymunol ydyw fod nifer o bregethwyr ieuainc yn ein Cyfundeb mor alarus o ddiffygiol mewn gwybodaeth Fiblaidd a Duwinyddol, ac yn rhy bell yn ol mewn amaethiad cyffredin i allu sillebu y geiriau mwyaf cynnefin yn iaith eu mamau. Cafodd yr Arholwyr a'r Ymgeiswyr garedigrwydd mawr gan y cyfeillion yn Nghaerfyrddin a Dolgellau, ac y maent yn dymuno awgrymu i'r ddwy Gymanfa y priodoldeb o dalu diolch iddynt.—John Hughes, Joseph Evans, William Jenkins, a Griffith Ellis.

*Rhestr o'r Ymgeiswyr Llwyddiannus.*—1. William Matthews, M.A., Arfon. 2. Maurice Griffiths, B.A., Machynlleth. 3. Wm. Glynne, B.A., Birkenhead. 4. John M. Saunders, M.A., Pencoed. 5. Robert Williams, B.A., Dolgellau. 6. Watkin Williams, Aberdare. 7. H. O. Hughes, Llanuwchllyn. 8. Edward Edwards, Cwmtirmynach. 9. W. Ambrose Williams, Llwydcoed. 10. David Hughes, M.A., Arfon. 11. O. D. Jones, Tredegar. 12. D. M. Benjamin, Abertillery. 13. John Davies, Coedpoeth. 14. W. Hughes, Caerdydd. 15. W. Jenkin Jones, Llangyfelach 16. Thomas J. Edwards, Penrhiwceiber. 17. W. J. Williams, Arfon. 18. M. E. Thomas, Caerdydd. 19. W. Morgan Williams, Llangennech. 20. B. Powell Morris, Talyllyn. 21. Michael Williams, Blaenplwyf. 22. E. G. Davies, New Quay. 23. J. Wilson Roberts, Arthog. 24. James Griffiths, Pembrey. 25. E. Walter Llewelyn, Glyn Neath, a Llewelyn Griffiths, Dinas. 26. Frederick Thomas, Aberdare.

Penderfynwyd,—Ein bod yn cyflwyno ein diolchgarwch gwresocaf i gyfeillion Dolgellau am eu caredigrwydd, ac yn enwedig i Mr. Edward Griffith, U.H.—Penodwyd y Parch. W. R. Jones, Caergybi, i fod yn Arholydd yn lle y Parch. J. Hughes, D.D., sydd yn myned allan o'i swydd. Di-

olchwyd yn garedig i'r Parch. John Hughes, D.D., am ei wasanaeth ffyddlawn a medrus am ddwy flynedd fel Arholydd.—Penodwyd y materion dilynol yn bynciau yr Arholiad am y flwyddyn nesaf:—

I. Gwybodaeth Gyffredinol ynghylch yr Ysgrythyrau. *Text book:* The *Bible Handbook.* Arholwr: Parch. William James, M.A., Nantymoel.

II. Un Llyfr o'r Hen Destament neu y Newydd. Yr Epistol at y Colossiaid. Cynghorir ymgeiswyr i ddarllen Esboniad Lightfoot, a llyfr Dr. Maclaren ar yr Epistol. Arholwr: Parch. Griffith Ellis, M.A., Bootle.

III. Rhyw bwnc neilltuol mewn Duwinyddiaeth—yn athrawiaeth.ol a hanesyddol. Y Priodoliaethau Dwyfol Cynghorir ymgeiswyr i ddarllen Martensen, Hodge, y Geiriadur Ysgrythyrol, a'r Gwyddoniadur ar y pwnc. Arholwr: Parch. W. Jenkins, M.A., Tyddewi.

IV. Rhyw gyfran o Hanesiaeth Eglwysig. Athanasius: Ei hanes, a'r rhan a gymerodd mewn amddiffyn y wir athrawiaeth. *Textbooks recommended:*—1. Athanasius: His Life and Work, by H. R. Reynolds, D.D. *Religious Tract Society.* 2. Stanley's Lectures on the Eastern Church, Lecture vii. and Neander's Church History. 3. Y Gwyddoniadur Cymreig dan y gair "Athanasius" (Cyfrol I.) 4. Hanes Duwinyddiaeth gan Dr. Edwards. Pennod viii., "Y Tadau Groegaidd." Buddiol fyddai darllen hefyd Athanasius' *De Incarnatione Verbi Dei. (Religious Tract Society).* Arholwr: Parch. W. R. Jones, Caergybi.

Rhoddwyd rhybudd y gelwir sylw yn Nghymdeithasfa Mehefin at y dymunoldeb o fod yr Arholydd yn yr Arholiad Cymdeithasfaol yn cael ei benodi yn y Gymdeithasfa honno, fel y gellir trefnu a chyhoeddi pynciau yr Arholiad mewn pryd iddynt gael eu cymeryd fel materion astudiaeth yn nghylegau y Bala a Threfecca yn ystod y tymmor dilynol.

XXII. *Y Gronfa Fenthyciol.*—Cadarnhäwyd personau fel aelodau Pwyllgor y Gronfa Fenthyciol:—Dros *Fôn:*—Parch. John Roberts, Tai hen, a Mr. Richard Hughes, Cefnmawr. *Lleyn ac Eifionydd:*—Parch. Thomas Owen, Portmadoc, a Mr. Edward Jones, Maer Pwllheli. *Arfon:*—Parch. John Jones, F.R.G.S., Bethesda, a Mr. John E. Roberts, Bangor *Dyffryn Conwy:*—Parch. R. O. Williams, a Mr. John Roberts, Colwyn Bay.—*Dyffryn Clwyd:*—Parch. B. Hughes, a Mr. Ezra Roberts, Rhuthyn. *Fflint:*—Parch. J. P. Davies, M.A., a Mr. David Roberts, Treffynnon. *Dwyrain Meirionydd:*—Parch. Edward Jones, Rhydlydan, a Mr. Owen Lloyd, Corwen. *Gorllewin Meirionydd:*—Parch. T. J. Wheldon, B.A., a Mr. J. P. Jones, U.H., Blaenau Ffestiniog *Trefaldwyn Uchaf:*—Parch. David Jones, Trefeglwys, a Mr. Edward Evans, Llanidloes. *Trefaldwyn Isaf:*—Parch. W. Dickens Lewis, M.A., D.D., a Mr. John Jones, Llanfyllin. *Henaduriaeth Trefaldwyn:*—Y Parch. J. Davies, Berriew, a Mr. T. Rowlands, Newtown. *Henaduriaeth Lancashire:*—Y Parch. John Williams, Caerlleon, a Mr. William Evans, U.H., Bootle. *Liverpool:*—Parch. John Williams, Burleigh Road, a Mr. John Morris, Elms. *Manchester:*—Parch. William James, B.A., a Mr. John Davies, Pendleton. *Llundain:*—Parch. Ellis James Jones, M.A.

Darllenwyd a chadarnhäwyd yr adroddiad dilynol o weithrediadau Pwyllgor y Gronfa Fenthyciol:—

Llywydd,—Parch. William James, B.A. Ymgyfarfu y Pwyllgor yn Ysgoldy y Methodistiaid Calfinaidd yn Clwyd Street, Rhyl, ar ddydd Iau, Tachwedd 21, 1889. Penderfynwyd ar y Rheolau canlynol:—

I. Fod Cronfa i'w ffurfio, er mwyn rhoddi benthyg arian yn ddilog ar Gapelau, ac i'w galw Cronfa Fenthyciol *(Loan Fund)* y Methodistiaid Calfinaidd, mewn cysylltiad â Chymdeithasfa y Gogledd.

II. Ffurfir y Gronfa, *(a)* trwy danysgrifiadau a chasgliadau blynyddol; *(b)* cyfroddion; *(c)* cymunroddion; *(d)* a thrwy gael benthyg arian yn ddilog neu foddion eraill.

III. Fod y Gronfa i fod o dan arolygiaeth Cyfeisteddfod, cynnwysedig o weinidog a blaenor o bob Cyfarfod Misol a Henaduriaeth, y rhai a benodir am dair blynedd (un rhan o dair i fyned allan bob blwyddyn), ynghyd a saith o Ymddiriedolwyr, Trysorydd ac Ysgrifenydd. Fod Cyfarfod blynyddol y Cyfeisteddfod i'w gynnal ar wahan i'r Gymdeithasfa.

IV. Fod i bob cais am fenthyg arian ddyfod trwy y Cyfarfod Misol neu yr Henaduriaeth.

V. Na fyddo gan unrhyw Gyfarfod Misol neu Henaduriaeth hawl i anfon unrhyw gais am fenthyg arian at y Cyfeisteddfod, hyd oni fyddo hanner eglwysi y Cyfarfod Misol neu yr Henaduriaeth wedi gwneyd y casgliad blynyddol tuag at y Gronfa.

VI. Fod y Cyfarfod Misol neu yr Henaduriaeth i fod yn gyfrifol am yr arian a fenthycir i'r eglwysi, ac am eu had-daliad rheolaidd bob blwyddyn.

VII. Na fyddo yr un eglwys ar dir i dderbyn o'r Gronfa, os na bydd eisoes wedi talu un rhan o bedair o werth yr eiddo, a bod yr eiddo wedi ei yswirio rhag colled trwy dân.

VIII. Fod yr arian a fenthyciwyd i'w talu yn ol i'r Gymdeithasfa yn ol deg punt y cant, o leiaf, yn flynyddol ar yr holl swm, fel y byddo y cyfan yn dychwelyd yn ol i'r Gronfa mewn deng mlynedd neu yn gynt. Ond gyda golwg ar Gapel newydd fod yr ad-daliad cyntaf i'w wneyd ar ddiwedd yr ail flwyddyn o'r amser yr agorwyd y Capel.

IX. Fod gan y Cyfeisteddfod hawl i attal swm bychan wrth fenthyca'r arian i gyfarfod treuliau y Gronfa.

X. Fod Casgliad blynyddol, yn ol Rheol II., i'w wneyd yn mis Chwefror.

XI. Fod yr Ysgrifenydd i ddwyn allan adroddiad blynyddol o weithrediadau y Cyfeisteddfod, ynghyd a rhestr o'r Tanysgrifwyr o hanner coron ac uchod, casgliadau, cyfroddion, &c.

Nodiad.—Fod i'r Gymdeithasfa, ymhen pum' mlynedd, roddi i'r Cyfarfod Misol a'r Henaduriaethau gyfleusdra i gynnyg cyfnewidiadau yn y Rheolau.

Penderfynwyd fod y personau canlynol i fod yn Ymddiriedolwyr:—Edward Davies, Ysw., U.H., Llandinam; William Evans, Ysw., U.H., Bootle; Edward Jones, Ysw., U.H., Pwllheli; J. Herbert Lewis, Ysw., U.H., Liverpool; Owen Lloyd, Ysw., Corwen; John Evan Roberts, Ysw., Bangor; a George W. Taylor, Ysw., U.H.

Penderfynwyd fod John Roberts, Ysw., M.D., U.H., Menai Bridge, i fod yn Drysorydd am y flwyddyn nesaf.

Penderfynwyd fod y Parch. Owen Jones, B.A., Liverpool, i fod yn Ysgrifenydd am y flwyddyn nesaf.

Penderfynwyd fod Mr. John Davies, Sal-

ford, i fod yn Llywydd y Cyfeisteddfod am y flwyddyn nesaf.—John Davies, *Cynnullydd.*

XXIII. *Cymunrodd y diweddar Mr. David Jones.*—Dymunai Ymddiriedolwyr y Gymunrodd uchod wneuthur yn hysbys eu bod yn barod i dderbyn ceisiadau am gynnorthwy i unrhyw Ysgol Sabbothol mewn cysylltiad â'r Cyfundeb yn Ngogledd Cymru, er ffurfio Llyfrgell neu er prynu llyfrau at wasanaeth yr Ysgol, ond na fydd y cynnorthwy i unrhyw Ysgol yn fwy na £5, ac na roddir ef ond ar yr ammod fod pob Ysgol yn casglu swm cyffelyb at yr un amcan.—Y ceisiadau i'w hanfon at Mr. John Price, Normal College Bangor.

XXIV. *Achos Mr. William Hughes, Pensarn (gynt o'r Groes).*—Darllenwyd yr Adroddiad dilynol:—

Yn ol penderfyniad Cymdeithasfa Dinbych, cyfarfu y Pwyllgor yn Rhyl, Medi 19eg, 1889. —Wedi cyfarfod Mr. William Hughes a brodyr o Gyfarfod Misol Dyffryn Clwyd, ac ar ol hir ymdrafodaeth, yn yr hon yr aethom yn fanwl i'r holl gyhuddiadau yn erbyn Mr. William Hughes, ac iddo yntau gyfaddef yr oll, a dadgan ei ofid dwys a'i edifeirwch o'u plegid, penderfynwyd,—Ein bod, yn wyneb yr holl amgylchiadau, yn barnu na ddylid mewn un modd ei adfer i holl waith y weinidogaeth; eto yn wyneb y tystiolaethau a gawsom am ei rodiad addas yn y presennol, ein bod yn ystyried mai priodol ydyw estyn rhyddid iddo i bregethu yn y lleoedd a alwant am dano o fewn terfynau Sir Ddinbych yn unig, ac fod y rhyddid hwn i gael ei estyn i Mr. William Hughes yn Nghymdeithasfa Awst y flwyddyn nesaf, ar y dealltwriaeth na bydd yn euog o ddim afreoleidd-dra yn y cyfamser. —John Williams, *Ysg.*

Cafwyd ymdrafodaeth faith a lled wresog ar y pwnc hwn. Oedwyd y mater hyd drannoeth, a phenderfynwyd fod y Gymdeithasfa i gyfarfod am 9 o'r gloch boreu drannoeth i ystyried y cwestiwn hwn y pryd hyny.

XXV. *Jubili y Genadaeth.*—Anerchwyd y Gymdeithasfa yn wresog ac effeithiol ar y pwnc hwn gan y Parch. Griffith Ellis, M.A., Bootle, un o Ysgrifenyddion y symudiad. Penderfynwyd,—Ein bod yn mawr gymeradwyo yr amcan mewn golwg, ac yn ymrwymo i gyflawni ein rhan tuag at ei gyrhaedd yn y gwahanol Siroedd.

Terfynwyd trwy weddi gan y Llywydd.

Dydd Iau, Rhagfyr 12fed.

*Am 9 o'r gloch, Cyfarfod y Pregethwyr a'r Blaenoriaid.*

Dechreuwyd gan y Parch. Evan Jones, Caernarfon.

XXVI. *Achos Criccieth.*—Hysbyswyd fod y Pwyllgor wedi cyfarfod ar yr achos hwn, ond nad oedd ganddo adroddiad i'w gyflwyno hyd y Gymdeithasfa nesaf.

XXVII. *Rheolau Derbyniad i'r Weinidogaeth* —Hysbyswyd fod Adroddiad ar y mater hwn yn cael ei oedi oblegid anhawsder i aelodau y Pwyllgor gyfarfod. Dysgwylir y bydd Adroddiad yn barod erbyn y Gymdeithasfa nesaf.

XXVIII.—*Achos Mr. William Hughes.*—Ar ol ychydig ymddyddan, cytunwyd,—Ein bod yn gohirio dyfod i benderfyniad terfynol ar y mater hwn hyd Gymdeithasfa mis Awst nesaf.

XXIX.—*Achosion Seisonig a'r Genadaeth Gartrefol.*—Darllenwyd, ac ar ol ychydig ymddyddan, cadarnhawyd yr Adroddiad dilynol o weithrediadau Pwyllgor Unedig yr Achosion Seisonig a'r Genadaeth Gartrefol:—

Mewn ystafell berthynol i Gapel Hill Street, yn Ngwrecsam, ddydd Gwener, y 25ain o Hydref, 1889, cyfarfu y Pwyllgor a benodasid yn Nghymdeithasfa Dinbych, yn Mehefin, i'r dyben o ystyried a oedd rhyw ad-drefniadau y byddai da eu gwneuthur o ran cysylltiad gwahanol eglwysi â'u gilydd mewn cymydogaethau lle yr oedd achosion—rhai dan ofal Cyfeisteddfod yr Achosion Seisonig, ac eraill yn nghylch gofal Cyfeisteddfod y Genadaeth Gartrefol. Unedig oedd y Pwyllgor, a chynnwysedig o frodyr yn cynnrychioli y ddau Gyfeisteddfod; a'r cymydogaethau a gymerwyd i ystyriaeth oeddynt rai o'r manau lle y mae cylchoedd Cyfarfod Misol Sir Fflint a Henaduriaeth Siroedd Lancaster, Caerlleon, &c., heb fod ymhell oddiwrth eu gilydd.

Dewiswyd Mr. R. Williams, Drefnewydd, i lywyddu.—Wedi ystyriaeth mor bwyllus a manwl ag yr oedd modd o sefyllfa ac amgylchiadau y gwahanol leoedd ag y daethid ynghyd o'u herwydd, cafodd y Pwyllgor ei arwain yn unfryd i'r penderfyniadau canlynol:—1. Mai da fyddai bod yr eglwysi Seisonig sydd yn perthyn i Gyfarfod Misol Sir Fflint yn cael eu cyflwyno i fod o hyn allan o dan ofal yr Henaduriaeth. Ac, yn ngwyneb yr anhawsder arianol a gyfododd pan y bu trafodaeth ar y mater yma o'r blaen—yr hwn anhawsder sydd yn aros eto—bod Cyfeisteddfodau yr Achosion Seisonig a'r Genadaeth Gartrefol yn cael eu hannog i gyfranu hanner cant o bunnau bob un er gwastadhâu, ac, yn y diwedd, lwyr symud ymaith yr anhawsder hwnw.—Wrth ystyried yr hyn a fyddai yn oreu i'r gwahanol eglwysi o ran gofal gweinidogaethol, penderfynwyd hefyd,—2 Bod y lleoedd canlynol, y rhai a enwir yma mewn trefn, i fod o dan ofal yr un gweinidog:—(1) Coedpoeth, Tabernacl, a Glan'rafon. (2) Summer Hill a Broughton. (3) Gwersyllt, Bethlehem, a Chaergwrle. (4) Buckley a Sion [Hope]. (5). Ewloe Green a Pentremoch. (6) Golftyn a Wepre. (7) Two Mills a Saughall. (8) Saighton, Waverton, a Delamere. (9) Holt a Glanypwll. (10) Bangor, Bowling bank, a Salem.—Gyda golwg ar berthynas y gwahanol leoedd a enwir uchod â'r naill neu y llall o'r ddau Gyfeisteddfod, penderfynwyd,—3. Bod (1) Tabernacl, Coedpoeth, a Glan'rafon; (2) Summer Hill a Broughton; ac (4) Buckley a Sion [Hope], i fod o dan ofal Cyfeisteddfod yr Achosion Seisonig; a'r gweddill o'r lleoedd i fod dan ofal Cyfeisteddfod y Genadaeth Gartrefol.—R. Williams, *Llywydd;* Thomas Roberts, *Ysgrifenydd.*

XXX. *Cymunrodd y diweddar Mr. Thomas Jones.*—Galwyd sylw gan y Parch. Lewis Ellis, Rhyl, at benderfyniad *yr Achosion Seisonig* yn Nghymdeithasfa Dinbych.

XXXI. *Athrofa'r Bala.*—Oblegid amryfusedd ni ddaeth y genadwri o Orllewin Meirionydd ar y pwnc hwn i law mewn pryd i gael sylw arni, pan oedd achos yr Athrofa dan ystyriaeth. Penderfynwyd, —Ein bod yn trosglwyddo y genadwri honno i sylw Cyfeisteddfod yr Athrofa.

Hysbyswyd hefyd y bydd yr Arholiad

nesaf am fynediad i mewn i'r Athrofa yn mis Medi yn ol Cynllun Llandudno, ac y bydd i'r Proffeswyr gyhoeddi rhestr gyflawn o'r pynciau allan o law yn y *Goleuad* a'r Drysorfa. Ceir hysbysiad pellach yn y Gymdeithasfa nesaf, pa un ai yn y Bala ai yn y Colegau Cenedlaethol y derbynia dosbarth y drydedd a'r bedwaredd flwyddyn eu haddysg am y tymmor 1890-1. Gan nad pa un, bydd yr Arholiadau yn y Bala yn ol A, B, a D, yn nghynlluu Llandudno. Bydd Arholiad am fyned i mewn i'r Adran Barotoawl yr un fath ag eleni.

Am 10 30, *Cyfarfod y Pregethwyr*,—Pwnc—Gweinidogaeth y Tadau, a'r Weinidogaeth yn y presennol; a *Chyfarfod y Blaenoriaid.*

*Am* 1 30, *Cyfarfod y Pregethwyr a'r Blaenoriaid.*

Dechreuwyd gan y Parch. David Jones, Blaenau Ffestiniog.

XXXII. *Hanes yr Achos.*—Rhoddwyd hanes neilldiol o galonogol am sefyllfa yr Achos yn Nghyfarfod Misol Trefaldwyn Isaf a Henaduriaeth Trefaldwyn. Penderfynwyd,—Ein bod yn diolch yn gynhes i'r ddau frawd am eu hadroddiadau rhagorol, a'n bod yn cydlawenhâu â hwy wrth weled fod yr achos mawr mewn sefyllfa mor lewyrchus yn eu plith.—Galwyd sylw at y ffaith fod Lord Sudeley wedi bod mor garedig tuag at ein Cyfundeb yn y rhanau hyn o'r wlad —wedi anrhegu yr achos â thir i adeiladu capel mewn amryw leoedd, ac wedi cyfranu yn haelionus mewn amgylchiadau eraill.—Cynnygiwyd gan y Parch. David Lloyd Jones, M.A., Llandinam, cefnogwyd gan y Parch. Evan Jones, Caernarfon, a phenderfynwyd, Ein bod fel Cymdeithasfa yn dymuno cydnabod Lord Sudeley yn barchus am ei garedigrwydd tuag at yr achos.—Penderfynwyd hefyd, Ein bod ni fel Cymdeithasfa ar ymweliad â'r rhan hon o'r Sir wedi cael ar ddeall yn adnewyddol am garedigrwydd David Davies, Ysw., Llandinam, tuag at yr achos, a'i wasanaeth i'r Cyfundeb, yn talu diolch iddo, ac yn dymuno iddo hir oes ac iechyd.

XXXIII. *Cyfeisteddfod y Blaenoriaid.*—

Llywydd,—Mr. E. Thomas, Birmingham.—1 Darllenwyd Cofnodau y Cyfeisteddfod diweddaf a chadarnhäwyd hwy.—2. Dewiswyd yr Ysgrifenydd presennol i barhau yn ei swydd am y tair blynedd dyfodol—a phenderfynwyd ein bod o hyn allan yn gweithredu yn ol yr un rheol ag a basiwyd gyda golwg ar Ysgrifenydd y Gymdeithasfa—sef na byddo yr Ysgrifenydd yn agored i'w ail ddewis ar ddiwedd ei dymmor, &c.—3. Darllenwyd llythyr oddiwrth Mr. W. J. Hughes, Ysgrifenydd yr Assurance Trust—a rhoed annogaeth wresog ar fod hyn yn cael ei wneyd ymhob Cyfarfod Misol—sef yswirio eiddo y Cyfundeb yn Assurance Trust y Cyfundeb.—4. Derbyniwyd Adroddiad y Pwyllgor a benodwyd yn Mangor i ddewis materion i Gyfeisteddfod y Diaconiaid am y flwyddyn nesaf, &c.; a phenderfynwyd—(*a*) Mai gwell dewis Llywydd i'r Cyfeisteddfod ymhob Cyfarfod. (*b*) Fod y materion canlynol i fod yn destyn i ymddyddan am y flwyddyn nesaf:—Yn Nghymdeithasfa Ebrill, "Jubili y Genadaeth Dramor;" Mr. N. Bebb, Liverpool, i agor y mater. Yn Nghymdeithasfa Awst, "Addysg Grefyddol y Plant," &c. Yn Nghymdeithasfa Rhagfyr, "Ein dyledswydd fel Cyfundeb tuag at y rhai sydd yn y trefydd a'r ardaloedd gweithfäol, yn Lloegr yn enwedig;" Mr. Davies, Salford, i agor y mater.—5. Ymofynwyd—Pa sylw oedd wedi ei wneyd yn y gwahanol Sirocdd ar y mater a fu yn y Gymdeithasfa, a chafwyd ar ddeall fod rhai wedi ysgrifenu Cylchlythyrau at yr Eglwysi ar hyn; eraill wedi galw sylw yn y Cyfarfodydd Misol ac yn yr Eglwysi, ac yn penderfynu gwneyd ynglŷn â'r ymweliad eglwysig ar dechreu y flwyddyn, &c.—6. Treuliwyd y gweddill o'r amser i ymddyddan ar y mater—sef "Y pwysigrwydd o feithrin chwaeth at lenyddiaeth bur," &c., yr hwn a agorwyd gan Mr. Davies, Salford; a phenderfynwyd,—Ein bod yn annog yn wresog i barhau i athrawiaethu ar hyn ymhob cylch a feddwn, o'r teulu i fyny i'r Cyfarfod Misol, &c.; a hefyd, yn gwneyd ymdrech i sefydlu Llyfrgelloedd perthynol i bob Ysgol Sabbothol.—Owen Williams, *Ysgrifenydd.*

Cadarnhäwyd yr Adroddiad uchod. Gwnaed sylwadau ar lenyddiaeth bur gan Mr. Owen Williams a'r Parch. John Hughes, D.D., ac am y pwys ein bod yn cyfarwyddo ein pobl ieuainc pa beth i'w ddarllen, ac at y dymunoldeb o fod llyfrgelloedd yn cael eu sefydlu mewn cysylltiad â'r Ysgolion Sabbothol.

XXXIV. *Llenyddiaeth Bur.*—Gwnaed sylwadau helaeth ar y pwnc hwn, ac yn ganlynol penderfynwyd, Ein bod yn galw sylw penau teuluoedd a meistriaid at eu dyledswydd yn hyn o beth tuag at y rhai sydd yn eu gwasanaethu.

XXXV. *Dirwest.*—Darllenwyd a chadarnhäwyd yr Adroddiad dilynol o weithrediadau y Cyfeisteddfod Dirwestol; ac yna tradodowyd amryw anerchiadau gwresog ar y testyn gan frodyr zelog.

Cyfarfu Cyfeisteddfod Dirwestol y Gymdeithasfa mewn cysylltiad â'r Gymdeithasfa yn Llanfair-Caereinion. Wrth gyflwyno Adroddiad o ansawdd yr achos Dirwestol yn y gwahanol Gyfarfodydd Misol, y mae yn yr oll o honynt yn ddieithriad amlygiadau o fywyd a gwaith. Er nad oes pethau neilldiol wedi dygwydd yn yr oll, eto y mae y rhan fwyaf o lawer o eglwysi ein Cyfundeb yn ei gefnogi, ac yn gofalu am dano, ac yn brif offeryuau yn ei ddygiad ymlaen. Yr oedd y flwyddyn hon yn neilldiol yn ei pherthynas â'r Ddirprwyaeth Freninol mewn cysylltiad â gweithrediad Deddf Cau y Tafarnau ar y Sabboth yn Nghymru, ac y mae yn llawen genym ddeall fod amryw o'n swyddogion a'n haelodau wedi dwyn tystiolaethau cryfion o'i phlaid. Gweithredir hefyd yn egnïol mewn rhai manau o blaid y symudiad o gael y werin-lais (*plebiscite*) o'r boblogaeth mewn cysylltiad â chau y tafarnau yn ein gwlad, a gobeithir y cyfyd y lleoedd sydd eto heb eu deffro, i weithio yn zelog o blaid hyn hetyd, fel ag i gael allan yn ddiamwys feddwl Cymru o berthynas iddo. Y mae y *Bands of Hope* yn gyffredinol iawn, ac nid oes yr un Cyfarfod Misol na Henaduriaeth nad yw yn dwyn Dirwest i sylw fwy nag unwaith yn nghorff y flwyddyn, a gofalodd pob un am annog yr eglwysi i gofio am y Sabboth Dirwestol. Parheir i gymhell swyddogion eglwysig ar eu derbyniad i gydymffurfio â chymhelliad y Gymdeithasfa, i fod yn llwyrymwrthodwyr, wrth ymgymeryd â blaenori ac arwain ein cynnulleidfäoedd yn eu goruchwyliaeth bwys-

ig. Hyderwn na laeswn ddwylaw yn y cyfeiriad hwn, gan gredu pe'r adnabyddid ni sydd yn sefyll yn nghylchoedd uchaf eglwys Dduw fel Dirwestwyr, y dilynid yn fuan ein hol gan bawb eraill o'i mewn. Y mae rhai parthau o'r wlad yn fwy bywiog na'u gilydd, fel wedi derbyn adfywiad gyda'r achos, megys yn rhai o'r trefydd perthynol i *Gyfarfod Misol Dyffryn Clwyd*, rhai manau yn *Lleyn ac Eifionydd*, a dosbarth neilldnol o wlad yn *Ngorllewin Meirionydd*. Ceidw y gwaith ymlaen gyda chysondeb yn *Manchester*, gan ddylanwadu er daioni ar y lleoedd gweiniaid perthynol i'r Cyfarfod Misol, ac yn *Liverpool* hefyd yr un modd. Y mae y lle diweddaf wedi penderfynu yn eu Cyfarfod Misol fod ymweliad eglwysig i gymeryd lle i geisio ffurfio Cymdeithas Ddirwestol i'r chwiorydd cysyltiedig â phob eglwys. Diau y gallant fod yn offerynau llwyddiant mewn cyfeiriadau nad ydyw mor hawdd eu cyrhaedd ond trwy help y chwiorydd. Dysgwyliai dwy ran *Sir Drefaldwyn* lesâd oddiwrth ymweliad Cymanfa Ddirwestol Gwynedd yn Machynlleth, ac y mae yn dda genym glywed fod yn mwriad cyfeillion yno sefydlu Cymdeithas Ddirwestol berthynol i'r Sir. Tystia adroddiad *Dwyrain Meirionydd* fod y penderfyniad a basiwyd flwyddyn yn ol yn anghymeradwyo dygiad diodydd meddwol i arwerthiadau amaethyddol wedi rhoddi attalfa lwyr ar yr arferiad, ac hysbysodd aelod ar y Pwyllgor fod yr un peth wedi dygwydd yn rhanau amaethyddol Lleyn ac Eifionydd.—1. Fod yr Adroddiad hwn yn cael ei dderbyn, a'n bod yn annog ein cyfeillion ymhob man i beidio gadael i'r tymmor hwn fyned heibio heb fod ymdrech egnïol yn cael ei gwneyd, mewn rhyw ffordd neu gilydd, o blaid achos mawr sobrwydd. Dymunwn hefyd adgofio ein cyfeillion am y nifer o frodyr cymhwys ymhob Sir sydd wedi addaw cynnal Cyfarfodydd Dirwestol, heb dderbyn ond yn unig eu treuliau teithiol. Ceir y rhestr gan Ysgrifenydd Cymanfa Ddirwestol Gwynedd, y Parch. J. Eiddon Jones, Llanrug.—2. Fod y Gymdeithasfa hon yn mawr lawenhâu o herwydd unfrydedd arddechog y tystiolaethau trwy ba rai y dangosodd Cymru yn ddiweddar i'r Ddirprwyaeth Frenhinol y gwerth a esyd ar Ddeddf Cau y Tafarnau ar y Sabboth, a'i bod yn benderfynol o fynu ei chadarnhau a chael ei gweinyddu yn llawer gwell. Ac wrth weled nad all y fasnach mewn diodydd meddwol ddim cael ei chario ymlaen a ffynu ond ar draul diryw iad a dinystr y bobl, ein bod yn gofyn i Mr. Bowen Rowlands eto, ac mor fuan y bo modd, ddwyn ymlaen ger bron y Senedd ei fesur o Ddewisiad Lleol i Gymru, ac yn dysgwyl y bydd i'r holl aelodau Cymreig, ac yn wir yr holl aelodau sydd yn gosod gwerth ar sobrwydd y werin, ei gefnogi yn galonog.—3. Fod yn dda genym ddeall, allan o rhyw 23,000 o bapyrau a lanwyd yn ddiweddar gan dyddalwyr mewn gwahanol ardaloedd yn Ngogledd Cymru, fod 89 o bob cant yn galw am awdurdod uniongyrchol i'r trethdalwyr ar y fasnach mewn diodydd meddwol, tra nad oedd ond tua 5 o bob cant yn erbyn hyny, a thua 5 o bob cant yn anmhleidiol. Llawenhawn fod Cymanfa Ddirwestol Gwynedd yn myned ymlaen gyda hyn, a hyderwn y bydd y papyrau yma ar fyrder yn cael eu llanw yn ein holl ardaloedd, gan ein bod yn credu y ceid fod y cyfartaledd yn gyffredinol y fath ag a ddangosai fod Cymru o gŵr i gŵr yn galw am hunan-anddiffyniad rhag masnach mor beryglus.—4. Ein bod yn cymeradwyo awgrym ein cydwladwr teilwng, yr Aelod anrhydeddus dros Sir Feirionydd, fod mesur yn cael ei ddwyn i fewn ar unwaith i'r Senedd er symud y diffygion yn Neddf Cau y Tafarnau ar y Sabboth ag yr ydym oll yn cwyno o'u herwydd; a chan yr ofnwn na cheir pasio Dewisiad Lleol i Gymru y Senedd-dynmor nesaf, yr ydym hefyd yn cymeradwyo ei awgrym arall, fod y fath ddiwygiadau yn cael eu dwyn i fewn i'r mesur hwnw ag a wnelo i ffwrdd à'r pethau mwyaf trangwyddus yn ein deddfau trwyddedol. Yr ydym hefyd yn erfyn ar Mr. Ellis ei hun ymgymeryd à gofalu am fesur o'r fath.

XXXVI. *Brodyr Ymadawedig.*—Penderfynwyd fod sylw ar y brodyr hyn yn cael ei oedi hyd bore drannoeth, ac fod hyny i gymeryd lle y pwnc gosodedig am hanner awr wedi wyth.

XXXVII. *Cyhoeddiadau Cyfundebol.*—Annogwyd i roddi derbyniad ffyddlawn i'r *Drysorfa*, *Trysorfa y Plant*, y *Lladmerydd*, y *Llusern*, a'r *Traethodydd*.

XXXVIII. *Wythnos Weddiau.*—Annogwyd ar fod y cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnal fel arfer ddechreu y flwyddyn nesaf.

Terfynwyd trwy weddi gan y Parch. William Williams, Birmingham.

DYDD GWENER, RHAGFYR 13EG.

*Am* 8 30, *Cyfarfod y Pregethwyr a'r Blaenoriaid.*

XXXIX. *Brodyr Ymadawedig.*—Gwnaed coffâd hiraethus a pharchus am y brodyr dilynol a fuont feirw er y Gymdeithasfa ddiweddaf, sef y Parchn. Owen Jones, Llandudno; William Griffith, Dysgwylfa; T. J. Jones-Lewis, B.A., Bangor; Hugh Henry Williams, B.A., Australia (gynt o Bethesda); Griffith Evans, Aberdyfi; Robert Roberts, Dolgellau; a John Pritchard, Amlwch. Penderfynwyd fod cydymdeimlad y Gymdeithasfa yn cael ei ddadgan tuag at eu teuluoedd.

Ar gynnygiad gan y Parch. Ellis Edwards, M.A., yn cael ei gefnogi gan y Parch. D. Lloyd Jones, M.A., penderfynwyd, Ein bod yn dadgan ein gofid o herwydd marwolaeth y Parch. Dr. Elmslie, a'n cydymdeimlad à'r Eglwys Bresbyteraidd.

R. H. MORGAN, *sgrifenydd.*

## Bywgraffiaeth.

THOMAS LLOYD, YSW., LLYWENAU, BODEDERN, MÔN.

YR oedd gwrthddrych ein coffhâd yn fab i Mr. Rees a Martha Lloyd, Treflesg, Llanfairyneubwll. Y mae cofiant dyddorol am Mr. Rees Lloyd gan y diweddar Barch. W. Roberts, D.D., America, mewn tri rhifyn o'r DRYSORFA am y flwyddyn 1845, oddiwrth yr hwn y gwelir fod ei hynafiaid wedi bod yn achles i Fethodistiaid Môn cyn bod capeli yn y wlad. Yr oedd i Mr. Rees Lloyd bedwar o feibion ac un ferch, y rhai ydynt oll wedi meirw oddigerth y ddiweddaf a

enwyd, ag sydd yn briod âg Owen Williams, Ysw., Bootle, Liverpool. Ganwyd Thomas Lloyd ar y 30ain o Awst, 1818. Yr oedd crefyddolder ei rieni wedi gadael argraff ar ei feddwl nad ymddengys y dilewyd mo hono tra fu byw. Ymddengys iddo dreulio rhai blynyddoedd heb fod yn aelod eglwysig, ond yn ystod yr amser hwnw yr oedd ei fywyd o'r mwyaf dichlynaidd a moesol, a byddai bob amser yn barod i wneyd gwasanaeth i'r achos yn Caergeiliog; yr oedd yr hen gartref yn parhâu yn lletty pregethwyr, nid yn unig y Methodistiaid, ond hefyd yr Annibynwyr, capel pa rai oedd yn agos i Treflesg. Nis gallasai ddygymmod â bywyd anghyson crefyddwyr—rhai yn gwneyd proffes uchel, ac eto yn gallu byw yn groes i egwyddorion y Bregeth ar y mynydd; credwn fod hyny wedi bod yn attalfa ar ei ffordd i ymuno â'r achos. Posibl ei fod yn hyn yn tueddu at fod yn hunangyfiawn. Ond yn yr adfywiad crefyddol yn 1859, ar ymweliad y Parch. D. Morgan â Môn, y mae cyfnewid iad dymunol yn cymeryd lle yn hanes ein gwrthddrych; chwalwyd pob gau noddfa o'i eiddo; a thrwy bob amddiffyniad o eiddo gelyn ei enaid y mae llais yr Iesu yn cyrhaedd ei galon: mae yntau yn ymddiosg o bob peth, mae yn rhoddi ei hun gorff ac enaid i'r Gwaredwr i gael ei gadw drwy haeddiant ei aberth iawnol. Ymunodd â'r eglwys yn Caergeiliog er llawenydd mawr i'r holl frawdoliaeth. Yn fuan wedi hyn dewiswyd ef yn ddiacon, ac ni chafodd yr eglwys le i edifarhâu o herwydd y dewisiad.

Yn y flwyddyn 1862, ymunodd mewn priodas â Miss Eliza Pritchard, Tre'rgof, Cemaes, a phrofodd yr undeb yn elfen cysur a dedwyddyd i'r ddau i'r diwedd.

Tua'r flwyddyn 1868, symudodd o'r Treflesg i fyw i Llywenau, lle o'i eiddo ei hun, yn mhlwyf Bodedern. Yma eto galwyd ef gan yr eglwys yn Bodedern i fod yn flaenor iddi, a rhwng y ddau le bu yn swyddog eglwysig am 27 mlynedd. Yn y cyflawniad o ddyledswyddau y swydd ennillodd iddo ei hunan radd dda. Fel henuriad eglwysig gellir dywedyd am dano, fel y dywedir yn nghoffiant ei ddiweddar dad, "Ei ddoethineb, ei ffyddlondeb, a'i araf wch, oeddynt amlwg i bawb a'i hadwaenai."

Yr oedd gofal a manylder yn un o noddweddion ei gymeriad, felly gyda'i amgylchiadau bydol, felly hefyd gyda chrefydd. Yr ydoedd yn gwir ofalu. Yr oedd ei farn addfed a diduedd, ynghyd a duwiolfrydedd ei ysbryd, yn ei gymeradwyo yn ngolwg pob cydwybod dynion. Nid oedd yn caru cyhoeddusrwydd mewn unrhyw gylch, na dim o'r gorawydd am swyddi yn perthyn iddo, er fod ynddo gymhwysderau i'r naill a'r llall. Dewiswyd ef gan y Cyfarfod Misol fel eu cynnrychiolydd i'r Cymanfäoedd Chwarterol ac i wahanol bwyllgorau.

Yr oedd yn ffyddlawn i'r Cyfundeb yn ei holl symudiadau, yn zelog gyda gwahanol gymdeithasau, ac yn darllen eu hadroddiadau gyda mwynhâd. Byddai yn derbyn ac yn darllen y gwahanol gyhoeddiadau Cymreig a Seisonig, a byddai y cyfarfodydd eglwysig yn wastad ar eu mantais o hyny. Llawer gwaith y cawsom wledd o fwynhâd wrth wrando arno yn arllwys ei fyfyrdodau wedi bod yn cymdeithasu â hen esboniadau, Llyfr Gurnal, &c., llyfrau ag yr edrychir arnynt gan lawer yn yr oes hon fel *out of date*, ond rhai ag y byddai ef yn cael blas arnynt a maeth ysbrydol.

Yr oedd wedi yfed yn helaeth o ysbryd yr henafiaethydd. Cyhoeddodd lyfr yn ddiweddar ar hanes Caergeiliog a'i henafiaethau, llyfr dyddorol iawn, yn neilldnol i'r rhai sydd yn gyduabyddus â'r cymydogaethau.

Cymerwyd ef ymaith yn anamserol i'n golwg ni, ac y mae eglwys Gilgal yn teimlo ei cholled, ïe, yr oedd colli Mr. Lloyd yn golled i Ymneillduaeth yn yr ardal; gŵr didderbyn wyneb, ffyddlawn i argyhoeddiadau ei gydwybod, a gwrol yn nydd y frwydr o blaid iawnder a rhyddid.

Nid oedd ei gystudd diweddaf ond byr, a dyoddefodd ef yn deilwng o Gristion, yn dawel, a hollol ymostyngol i ewyllys ei Dad nefol. Bu farw y 25ain o Fawrth, 1888. Ei ddiwedd oedd tangnefedd.

HUGH JONES.

*Bodedeyrn*

---

MR. JONATHAN THOMAS, GLOGUE SLATE QUARRY, SIR BENFRO.

*Gan y Parch.* JOHN DAVIES (*Coedfryn*), *Mydrim.*

Bu farw y ffyddlawn Jonathan Thomas am un o'r gloch boreu dydd Iau, Ebrill 29ain, 1889, wedi cyrhaedd yr oedran teg o bedwar ugain ac un o flynyddoedd. Cystudd byr a gafodd. "Byr ysgafn gystudd" meddai'r apostol—ac y mae pawb a'i hadwaenai ef yn credu ei fod wedi "gweithredu tragywyddol bwys gogoniant iddo." *Inflammation* roddodd derfyn ar ei einioes, a gwnaeth hyny mewn byr amser. Cariwyd ei enaid megys ar dôn y Sabboth daearol i fewn i foroedd y Sabboth tragywyddol—

"Lle nad oes cynn'lleidfa yn ysgar,
Na diwedd i'r Sabboth yn bod."

Gadawodd wraig, ac un mab a merch i alaru ar ei ol. Y mae ei weddw yn fam i'r Parch. D. Phillips, Pontardulais, yr hwn oedd yn edmygydd mawr o hono o herwydd ei grefyddolder, ac a dalai barch mawr iddo bob amser o herwydd ei gydymdeimlad dwfn â'r weinidogaeth.

O herwydd ei ragoriaethau amlwg fel dyn a christion, y mae yn cyflawn haeddu cael gair yn goffadwriaeth am dano. "Coffadwriaeth y cyflawn sydd fendigedig." Drwg genyf na buasai hyn wedi ei wneyd yn gynt, a chan un mwy cymhwys a medrus; ond gan mai i'm llaw I y mae'r gorchwyl wedi disgyn, nis gallaf wneuthur dim yn well na gadael i'w rinweddau siarad drostynt eu hunain.

Tua chwech ar hugain o flynyddoedd yn ol symudodd o Pontgarreg i'r Glogue i ofalu am y chwarelau yno, ac yn ystod yr

holl flynyddoedd meithion yna cadwodd ar y telerau goreu â'i feistr, y diweddar John Owen, Ysw. O herwydd ei ofal, ei gywirdeb, a'i onestrwydd diammheuol, ennillodd ymddiriedaeth llwyraf ei feistr. Gellir dyweyd am dano, fel y dywedir am Joseph yn nhŷ Putiphar, "A Joseph a gafodd ffafr yn ei olwg ef, ac a'i gwasanaethodd ef: yntau a'i gwnaeth ef yn arolygwr ar ei dŷ, ac a roddes yr hyn oll oedd eiddo dan ei law ef." Gen. xxxix. 4. O herwydd ei ofal parhaus fel goruchwyliwr yr oedd wedi ennill ffafr a chyfeillgarwch dyfnaf ei feistr. Yr oeddynt yn debycach i ddau frawd nag i feistr a gwas. Os byddai rhywbeth yn blino'r meistr arllwysai ei gŵyn wrth ei hen was ffyddlawn, a phan gaffai destyn i lawenhau rhoddai ran o'r wledd iddo. Am yr ysbaid maith o 26ain o flynyddoedd daliodd y glorian yn gywir a chyfiawn rhwng ei feistr a'r gweithwyr oedd dan ei ofal, ac yr wyf yn deall ei fod trwy ei ofal a'i weithgarwch diflino wedi troi llawer o geryg a llechau y chwarelau yn arian ac aur i'w feistr, fel yr oedd cyfoeth ei feistr ar un adeg yn fawr iawn; a diammheu y buasai'r cyfoeth hwnw yn fawr y dydd heddyw oni b'ai i'w dosturi a'i gydymdeimlad at ei wlad a'i gymydogaeth, yr hon oedd yn gorwedd dan orchudd o anghyfleusderau ac anfanteision, beri iddo gario allan ei anturiaeth gyda Rheilffordd "Dyffryn Tâf," yr hon a drodd yn ddinystr i'w feddiannau a'i iechyd; ond sydd erbyn hyn wedi ymestyn ymlaen i dref Aberteifi, ac yn fendith gwlad a thref. Trwy ryw fath o aberth yr ydym yn cael pobpeth, ein holl fendithion yn dymmorol ac ysbrydol; ffrwyth aberth ydyw ein holl gysuron. Aberthodd John Owen, Ysw., ei feddiannau, ei iechyd, a'i fywyd, i ddwyn y gerbydres a'i manteision trwy gilfachau anhygyrch "Dyffryn Tâf," a thaflu ei thrysorau aneirif i lawr wrth draed yr hen "Frenni Fawr." Y mae'r chwarelau eto yn cael eu cario ymlaen dan ofal Mr. Griffith Thomas, unig fab yr ymadawedig, yr hwn, fel ei dad, sydd weithgar, gonest, a ffyddlawn, ac yn gwneyd ei ran gyda'r ddau fyd.

Mi a geisiaf eto ymhellach nodi ychydig o'i rinweddau amlycaf:—

(1). Ei barch a'i ofal am y ddyledswydd deuluaidd. Byddai yn darllen hwyr a boreu yn wastad, yn y modd mwyaf cyson. Er yn y drafferth fwyaf gofalai am hyn, byddai pobpeth yn gorfod rhoddi ffordd i hyn; byddai pob cerbyd yn gorfod troi o'r neilldu er mwyn i'r cerbyd breninol hwn i fyned heibio. Darllenodd y Bibl yn y modd yma amryw weithiau drosodd, pennod o'r Hen Destament yn yr hwyr, a phennod o'r Testament Newydd yn y boreu, ac y mae'r fan y darllenodd ddiweddaf yn awgrymiadol iawn, sef am farwolaeth ac adgyfodiad Crist; fel pe buasai yn yr un teimlad a Simeon gynt, yn gweled Iachawdwriaeth y byd wedi ei orphen, ac yn dywedyd yn yr un geiriau, "Yr awrhon, Arglwydd, y gollyngi dy was mewn tangnefedd yn ol dy air. Canys fy llygaid a welsant dy iachawdwriaeth." Luc ii. 29, 30.

Credai mewn gweddi, y weddi deuluaidd a'r weddi ddirgel. Wrth golli Jonathan Thomas collodd crefyddwyr y wlad a'r gymydogaeth un oedd yn gweddïo llawer am eu llwyddiant, a chollodd annuwiolion y wlad a'r gymydogaeth un fu ganwaith ar ei liniau ger bron Duw yn taer ddymuno am arbediad iddynt. Pwy all ddyweyd pa faint o golled i wlad a chymydogaeth ydyw colli gweddïwr mawr?

(2.) Ei zel Fethodistaidd. Yr oedd yn Fethodist zelog. Yn ei flynyddoedd boreuol arferai fynychu y Cyfarfodydd Misol ymhell ac agos gyda chysondeb, a thalai sylw mawr i'w holl weithrediadau. Yr oedd yn meddu ar lygad craff i ganfod y *drwg* a'r *da*, ac yn meddu ar allu i'w gwahaniaethu y naill oddiwrth y llall, a gwnai ei oreu bob amser i amddiffyn a chadarnhau y rheolau a'r trefniadau fuasai yn debyg o fod yn elfenau llwyddiant i'r "*Achos Mawr.*" Ond, y prif beth oedd yn ei dynu i'r Cyfarfodydd Misol a'r Cymanfäoedd oedd—nid i ymgyndynu, a checru, a phleidio ei gynlluniau ei hun, ond i wrando yr efengyl yn cael ei phregethu. Yr efengyl oedd prif elfen ad-dyniad ei enaid a'i ysbryd. Y mae lle i ofni fod llawer yn mynychu y Cyfarfodydd Misol a'r Cymanfäoedd y dyddiau hyn, nad elent byth yno oni b'ai fod ganddynt hwy ryw gynlluniau neu ddeddfau eisieu eu cario allan. Gyda bod y *Committee* neu y *Conference* yn darfod, gwelir y rhai hyn yn myned i ffwrdd yn heidiau, fel pe na buasai y pregethu o un gwerth ar wyneb daear. Pell fyddo'r dydd y byddo canolbwynt y Cyfarfod Misol a'r Gymanfa yn y *Committee* a'r Gynnadledd. Pan yr êl i hyny bydd ei gogoniant wedi darfod, a'i haul wedi machludo, a bydd cysgal eu claddu allan o'r golwg.

Delai ei zel yn y cyfeiriad hwn i'r golwg hefyd yn ei gefnogaeth i gyhoeddiadau arbenig y Cyfundeb. Bu yn noddwr a dosbarthwr iddynt trwy ei oes. Cymhellai hen ac ieuanc i'w derbyn a'u darllen, am ei fod ef ei hun yn cael blas ynddynt. Wedi cael blas y porfeydd toreithiog a'r dyfroedd iachus sydd ynddynt, ceisiai arwain a thynu eraill i gael yr un fendith. Ac nid pob ymborth a wnai y tro iddo; na, yr oedd ganddo ei ymborth neilldiol ei hun; yr oedd yn hoffi y pur, yr iachus, a'r sylweddol, ac yn caru darllen yn helaeth am weithrediadau y Cyfundeb. Yr oedd yn zelog ac yn *loyal* i'w enwad ei hun, ac yn eiddigeddus dros ei lwyddiant, mor bell ag oedd hyny yn llwyddiant er achub pechaduriaid, ac yn troi yn ogoniant i Dduw.

Er yn byw yn nghanol enwadau eraill, dair milldir neu ragor oddiwrth y capel agosaf o'i enwad ei hun, elai yno bob Sabboth yn gyson. Cerddodd yr holl bellderau yna trwy'r blynyddoedd hyd ei ddyddiau olaf, haf a gauaf, cernia gwres. Nid oedd dim allasai ei attal, rhaid oedd iddo gael ei fywyd dewisedig ei hun. Eto, nid oedd dim culni yn ei ysbryd at yr enwadau eraill oedd o'i amgylch; elai i'w cyfarfodydd, cymerai ran ynddynt. Os byddai gwylnos o hyd cyrhaedd iddo, byddai yn sicr o fod

yno yn cydymdeimlo â'r galarus, ac yn cymeryd rhan yn y gwasanaeth. Yr oedd yn credu fod i bob enwad ei rinweddau neilldnol ei hun. Yr oedd yn hoffi y gwir ddysgyblion, ac yn eu parchu a'u caru, ymhlith pa enwad bynag y byddent; ond Bwlchygroes oedd ei gartref, a'r Methodistiaid oedd ei bobl, ac yr oedd yn hoffi tynu at ei lwyth ei hun.

(3.) Ieuengrwydd ei ysbryd, a'i gydymdeimlad dwfn â gweinidogaeth yr efengyl. Er yn bedwar ugain mlwydd oed, yr oedd yn parhau yn ieuanc ei ysbryd o hyd, ac yn llawn bywyd gyda phob rhan o wasanaeth y cysegr. Nid oedd ar ol ei oes, fel y ceir rhai o'i oedran ef yn gyffredin; na, elai ymlaen gyda'i oes ynglŷn â phob peth oedd â thuedd ynddo at ddaioni. Nid oedd yn edrych gyda rhagfarn a drwgdybiaeth ar bethau newyddion fel y ceir rhai yn aml.

Dilynai yr Ysgol Sul, a llafuriai yn y bennod gyda bywyd a hoenusrwydd dyn ieuanc 30 oed. Elai ar foreu Sabboth, âg ychydig luniaeth syoh yn ei logell, i Bwlchygroes, er mwyn bod yn bresennol pan fyddai yr ysgol yn y prydnawn, ac ychwanegid at yr ychydig hyny gan ddau neu dri o deuluoedd caredig y gymydogaeth. Parhaodd am flynyddoedd meithion i fyned ymlaen yn y dull hwn, a da oedd gan y teuluoedd hyny gael y cyfleusdra o'i groesawu i'w tai er mwyn ei gymdeithas.

Dadleuai dros y cyfarfod llenyddol, y gymanfa ysgolion, a'r gymanfa gerddorol, a byddai bob amser yn bresennol gyda'i ysgol yn y gymanfa i'w hamddiffyn â'i atebion parod a synwyrlawn. Caffai yr holwr ddeall yn fuan ei fod nid yn unig yn hyddysg iawn yn yr Ysgrythyrau, ond ei fod hefyd yn mynu gwybod barn eraill ar ddyfnion bethau Duw, ac hefyd yn barnu drosto ei hun. Yr oedd cylch ei wybodaeth yn eang, darllenodd a myfyriodd lawer ar hyd ei oes; meddai lyfrgell ragorol yn traethu ar wahanol ganghenau o wybodaeth, yn enwedig Duwinyddiaeth, ac hawdd oedd deall ei fod wedi gwneyd y defnydd goreu o honi.

Yr oedd ieuengrwydd ei ysbryd i'w weled hefyd yn amlwg mewn cydymdeimlad dwfn â gweinidogaeth a gweinidogion yr oes bresennol. Cafodd y fraint o wrando y Parchn. T. Richards, E. Richards, E. Morris, W. Morris, David Griffiths (Llantood), John Jones (Talsarn), Henry Rees, a chafodd glywed John Elias yn ei fan goreu; eto byddai yn mwynhau gweinidogaeth yr oes hon; ni byddai byth yn codi esgyrn y meirw i guro'r byw. Pan fyddai pregethwr ieuanc yn Bwlchygroes, o'r ysgol neu y coleg, heb fod yn feddiannol ar ryw athrylith neilldnol, nac wedi cael llawer o fanteision, er hyny os byddai yn pregethu yr efengyl yn syml ac yn ddifrifol, heb hôni ei fod yn "gwybod dim ond Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio," byddai yn canmol hwnw fel pe buasai y pregethwr mwyaf mewn bod. Nid oedd yn barod i ddyweyd fod pob daioni, doethineb a gwybodaeth wedi marw gyda'r tadau, ond gallai weled rhagoriaethau arbenig yn yr oes hon.

Os byddai rhyw dinc yn y bregeth, byddai ef yn sicr o'i chlywed a'i theimlo; os byddai ynddi ryw ddrychfeddwl tlws, buasai ef yn sicr o'i weled yn union; ac fel y sylwai'r Parch. E. Phillips, Castellnewydd, ddydd yr angladd: "Gwelai ef gyda'i fod yn dyfod i'r golwg, ac nid ryw bryd weli iddo basio."

Yr oedd yn gyfaill cywir a ffyddlawn i'r pregethwyr ymhob man, ar y ffordd, yn nhŷ'r capel, ac yn y pulpud. Siglai law yn gynhes ar y ffordd, dywedai air caredig yn nhŷ'r capel, yn enwedig os y meddyliai fod y pregethwr dipyn yn isel ei ysbryd a digalon; a byddai yn ofalus iawn bob amser i beidio dyweyd dim fyddai â thuedd ynddo i ddolurio teimlad neb. Da fuasai i lawer ddichon ddarllen y llinellau hyn gymeryd gwers yn y peth hwn. Llawer pregeth dda ac odfa fendithiol gawsant eu dinystrio gan eiriau ac ymddygiadau anmhriodol ac angharedig. Y mae ambell un, fel mae gwaetha'r modd, fel pe buasai yn genad uniongyrchol yn llaw yr un drwg i gythryblu meddwl y pregethwr, a lladd dylanwad y weinidogaeth.

Colled fawr i bulpud Bwlchygroes oedd colli y gwrandawr astud a theimladwy, Jonathan Thomas. Yr oedd yn helpu'r genadwri i fyned at y gynnulleidfa. Yr oedd ei ocheneidiau fel awelon yn yr hwyliau, a'i ddagrau fel olew ar yr olwynion yn gyru llestr y weinidogaeth ymlaen. Y mae gwrandawiad astud, bywiog, tyner, toddedig, y nesaf peth at ddylanwad yr Ysbryd Glân i ysbrydoli pregethwr i'w waith. Ond Ow! yr ydym wedi ei golli: a mawr ydyw ein chwithdod ar ei ol!

Dylasem hefyd fod wedi crybwyll ei fod wedi ei ddewis yn flaenor yn Bwlchygroes, a'i fod wedi gwasanaethu y swydd am flynyddoedd lawer gyda gofal a ffyddlondeb mawr. Yr oedd un peth arbenig iawn ynddo fel blaenor, anfonai lythyr bob wythnos i adgofio'r pregethwr o'i gyhoeddiad, fel mai eithriad anaml iawn oedd i Bwlchygroes gael eu gadael Sabboth heb weinidogaeth.

Dylasem hefyd fod wedi crybwyll ei fod yn Ddirwestwr zelog trwy'r blynyddoedd, a hyny ar amser pryd nad oedd Dirwest yn cael nemawr sylw. O'r braidd nad allasai ddyweyd ar y mater hwn fel y dywedodd y Ceidwad mawr ar fater arall, "O'r bobl nid oedd neb gyda mi."

Claddwyd ef ddydd Iau, Mai yr 2il, yn mynwent Bwlchygroes, a dangosodd y dyrfa liosog oedd wedi dyfod ynghyd i'w gladdedigaeth fod un a barcheut yn fawr yn cael ei osod yn ei fedd y diwrnod hwnw. Gwasanaethwyd yn y tŷ cyn cychwyn gan yr Ysgrifenydd; darllenwyd a gweddïwyd yn y capel gan y Parch. Mr. Phillips (A.), Hebron; pregethwyd gan y Parch. E. Phillips, Castellnewydd Emlyn; a gwasanaethwyd ar làn y bedd gan y Parchn. Mr. Stephens (A.), Llwyn yr hwrdd, ac E. Phillips, Castellnewydd. Heddwch i'w lwch hyd foreu udganiad yr udgorn! A'r Arglwydd a fendithio'r eglwysi â llawer o'i gyffelyb eto.

# Lloffion.

### YDDIN YR IACHAWDWRIAETH AR Y FFORDD I'R NEFOEDD.

CYHOEDDODD gŵr adnabyddus yn y byd llenyddol "Adgofion ei fywyd llenyddol a chlerigol" yn ddiweddar, mewn dwy gyfrol, yn ddienw. Dyma un hanesyn a adrodda, yn dangos y dull annoeth a phlentynaidd sydd gan Fyddin yr Iachawdwriaeth wrth son am bethau ysbrydol, dull sydd yn gwneyd crefydd i rai yn destyn dirmyg. Fel hyn y dywed:—

"Yr oeddwn yn teithio ar yr *Underground Railway* rhyw noson, a gwelais fy mod yn nghanol adran o'r Fyddin Iachawdwriaeth. Petruswn gryn lawer yn fy meddwl pa un a oeddwn wedi cymeryd y *train* iawn ai peidio, pa un a oeddwn wedi peidio cymeryd *Notting Hill* am *Notting Hill Gate*. . . . . Gofynais i'r hwn oedd yn eistedd yn nesaf ataf, 'Attolwg, syr, a welwch chwi yn dda fod mor garedig a'm hysbysu a yw y *train* hwn yn myned i *Notting Hill* neu i *Notting Hill Gate?*' 'Haleliwia, haleliwia,' meddai mewn atebiad, 'yr ydym ni i gyd yn myned i'r nefoedd!' Yna bu murmur cyffredinol i gadarnhau y dywediad—'Yr ydym yn myned i'r nefoedd. A ydych chwithau hefyd yn myned yno?' Atebais trwy ofyn, 'Y mae yn dda genyf glywed eich bod yn myned i'r nefoedd. Ond a ydych yn myned yno trwy *Notting Hill*, ynte trwy *Notting Hill Gate?*' Ymddangosent am fynyd fel yn methu penderfynu beth i'w wneyd gyda'r ateb neu y cwestiwn annysgwyliadwy hwn. Ond cefais yr hysbysrwydd oedd arnaf eisieu. Yr oeddynt yn myned yno trwy *Notting Hill Gate*."

---

### DUWIOLION YN UN YN EU HAMRYWIAETH.

Y MAE y saint mewn perthynas gyfammodol ac ysbrydol â Duw trwy eu hundeb â Christ. Ac y maent trwy eu perthynas â Duw a'u hundeb â Christ mewn perthynas â'u gilydd, er y dichon eu bod yn gwahaniaethu mewn pethau heb fod o bwys mawr. Y mae llawer o wahaniaeth rhwng plant dynion â'u gilydd mewn rhai pethau, er eu bod yn un yn y pethau sydd yn hanfodol i'w natur. Y mae dynion duwiol yn un yn hanfodion eu crefydd. Y maent oll yn credu yr un athrawiaeth, yn caru yr un gwrthddrychau, yn ymladd yr un rhyfeloedd, yn cadw yr un gorchymynion, yn cyfranogi o'r un gras, ac yn byw yr un bywyd sanctaidd.—*Y Parch.* HUGH ROBERTS, *Bangor*.

---

### Y LLYFR A'R FEGIN.

ANFONODD un efrydydd yn Caergrawnt at gymydog i ofyn am fenthyg llyfr ganddo. Yr ateb oedd, "Nid wyf byth yn caniatâu i'm llyfrau gael eu cymeryd oddiyma, ond y mae croesaw i chwi ddyfod yma i ddarllen y llyfr yn fy ystafell I." Ymhen ychydig ddyddiau anfonodd perchenog y llyfr at yr hwn oedd wedi gwneyd y cais, i ofyn a fyddai mor garedig a rhoi benthyg ei fegin iddo. Yr ateb oedd, "Nid wyf byth yn caniatâu i'r fegin gael ei chymeryd oddiyma, ond y mae i chwi gan' croesaw i chwythu gyda hi yn fy ystafell I."

---

### RHESYMEG DAFYDD.

Y MAE Dafydd yn ymresymu yn Psalm lxvi. adn. 18, 19, 20. Ceir ganddo y ddau osodiad canlynol:—"Pe edrychaswn ar anwireddyn i'y nghalon, ni wrandawsai yr Arglwydd arnaf. Duw yn ddiau a glybu ac a wrandawodd ar lais fy ngweddi." Dysgwyliwn i Dafydd dynu y casgliad oddiwrth yr uchod fel hyn:—"Felly ni edrychais ar anwiredd yn fy nghalon." Ond yn dra gwahanol y terfyna ef: "Bendigedig fyddo Duw, yr hwn ni throdd fy ngweddi oddiwrtho, na'i drugaredd ef oddiwrthyf finnau." Fel hyn siomodd y Psalmydd fi, ond ni wnaeth un cam â mi. Edrychais am iddo roi y goron ar ei ben ei hun, ond rhoddodd hi ar ben ei Dduw. Ceisiaf ddysgu y dull rhagorol yma o ymresymu—gwell na'r eiddo Aristotle, fel beth bynag fo y gosodiadau, y byddo gogoniant Duw yn gasgliad oddiwrthynt—THOMAS FULLER (Yn ei "*Good Thoughts in Bad Times*," A.D. 1645).

---

### CYFIAWNHAU YR EUOG.

Y MAE Duw yn cyfiawnhau yr annuwiol. Nis gellir cyfiawnhau dyn yn llysoedd barn y ddaear wedi ei brofi yn euog. Ond yma, y mae y person a gondemniwyd wedi ei gyfiawnhau. Rhai wedi eu condemnio yw pawb a gyfiawnhawyd ac a gyfiawnheir—wedi eu condemnio yn gyfiawn ac wedi eu cyfiawnhau yn gyfiawn. Pa fodd y cyfiawnheir yr anghyfiawn? Y mae yma anhawsderau, ond nid anmhosiblrwydd. Nid yw Duw yn cyfiawnhau heb gyfiawnder. Fe greodd y byd heb ddefnyddiau, ond nis gall gyfiawnhau heb gyfiawnder. "Trwy ufudd-dod un dyn y gwneir llawer yn gyfiawn." "Yr Arglwydd ein cyfiawnder." Gwneir ni "yn gyfiawnder Duw yndde Ef." "Yr hwn a osododd Duw yn lawn, trwy ffydd yn ei waed Ef, i ddangos ei gyfiawnder Ef. . . . fel y byddai Efe yn gyfiawn ac yn cyfiawnhau y neb sydd o ffydd Iesu."—*Y Parch.* HUGH ROBERTS, *Bangor*.

---

### GWERSI Y GLASWELLT.

EI ostyngeiddrwydd, fel yr ymddengys wedi ei greu i'r gwasanaeth isaf—wedi ei ordeinio i'w sathru a'i fwyta. Ei sirioldeb, fel yr ymddengys yn llawenychu o dan bob math o driniaeth arw a dyoddefaint. Yr ydych yn ei rolio, ac y mae yn gryfach drannoeth; yr ydych yn ei fedi, ac y mae yn lliosogi ei egin fel pe byddai yn ddiolchgar; yr ydych yn ei sathru, ac nid yw ond anfon arogl pereiddiach i fyny. Yn awr, y ddau nodwedd yma—o ostyngeiddrwydd a llawenydd dan brofedigaeth—ydynt yn hollol y rhai a raid wahanlaethu yn bendant yr ysbryd Cristionogol oddiwrth yr un paganaidd.—JOHN RUSKIN.

---

### GEIRIAU Y DOETHION.

Y MAE Duw yn tori i fyny dorth dedwyddwch mewn tafelli mwy cyfartal nag ydym yn ei feddwl.

Arf perygl us i gellwair âg ef ydyw cleddyf dauflniog Duw.

Gwelai y dyn eiddigus feïau pe byddai wedi colli ei lygaid.

Yr ydym yn lleihau ein hanghenion trwy leihau ein dymuniadau.

Nid ydym byth allan o bresennoldeb dau dyst mawr—Duw a'n cydwybod.

Y mae yr hyn nad oes ei eisieu yn ddrud am ffyrling.

Nid yw yr hwn sydd yn gwneuthur y cam byth yn maddeu.

Y mae cyfoeth wedi gwneyd mwy o ddynion yn gybyddion nag a wnaeth cybydd dod o ddynion yn gyfoethog.

Ni ddylem yfed o un gwpan ac edrych ar un arall.

# Llydaw.

## LLYTHYR ODDIWRTH MR. GROIG NEC.

Diau y bydd yn dda gan ein darllenwyr weled y dyfyniadau canlynol o lythyr a ysgrifenwyd yn ddiweddar gan Mr. Groignec o Douarnenez, ac a gyfieithwyd gan Mr. Evan Jones.

Yr ydym er ys mis Medi diweddaf wedi symud i ystafell newydd, yr hon sydd lawer mwy cyfleus na'r hen un. Y mae yn y rhan fwyaf cyhoeddus o'r dref. Rhaid i'r rhai sydd yn myned i orsaf y rheilffordd *(station)* i Quimper, Audierne, Pouldavid a Treboule, fyned heibio, yn gystal â'r rhai a ânt i'r ardaloedd cylchynol. Gosodir Bibl agored y tu fewn i ddrws yr ystafell, ac y mae llawer o'r rhai a ânt heibio yn aros i'w ddarllen. Y mae yn llawer mwy manteisiol i'n cyfarfodydd, ond y mae yr ardreth o anghenrheidrwydd yn uwch. Yr ydwyf fi a'm teulu yn byw mewn ystafell anall o'r un tŷ. Er mis Medi mynychir ein cyfarfodydd gan dorf lïosog, y rhai a ganant ein tonau gyda hwyl, ac a wrandawant gyda'r astudrwydd mwyaf ar ddarlleniad Gair Duw, a'r anerchiadau a draddodir iddynt. Yr ydym yn cynnal dau gyfarfod cyhoeddus bob wythnos, a bydd ar gyfartaledd o 80 i 100 yn bresennol ynddynt.

Y mae offeiriad Douarnenez, yr hwn a ystyriem yn ddyn lled ryddfrydig a chymedrol, mewn pregeth yn ddiweddar wedi dyweyd wrth rieni plant ei bod yn fwy peryglus myned i'n cyfarfodydd nag i dai llygredig. Melldithiai hefyd y rhai a ddeuant i'n gwrando. Ond gyda boddhâd mawr y dywedaf nad ydyw nifer ein gwrandäwyr wedi lleihau dim, er gwaethaf y pregethau cynhyrfus a wnaed gan yr offeiriaid yn ein herbyn.

Yn ystod y mis diweddaf, yn nghwmni y ddau Fiblgludydd, Mri. Moizant a Le Dréau, bum yn ymweled â thai y gymydogaeth hon. Treuliasant hwy bythefnos yma, a gwnaethant waith rhagorol. Gwerthasom ar gyfartaledd dri chopi o Air Duw bob dydd. Rhoddaf i chwi rai ffeithiau er dangos beth erbyn hyn ydyw syniadau y wlad gyda golwg ar y cwestiwn crefyddol.

*Treboule.*—Pan yn ymddyddan â thŵr o bobl, tua deg o nifer, yn y lle hwn, dywedodd hen ŵr wrthym fod ganddo fab yn offeiriad. Ymffrostiai fod ei fab yn ddiweddar wedi bod ar daith yn Rhufain er mwyn derbyn bendith y Pab. Y mae yr hen ŵr yn credu y bydd farw yn ddeddwydd drwy fod ganddo fab yn offeiriad. Cymhellais yr hen ŵr a'r lleill oedd yn clywed i roi eu hymddiried yn ein Ceidwad Iesu Grist, yr hwn yn unig a fedr roi i ni fywyd tragywyddol. "Y mae y Pab yn llanw lle Iesu Grist ar y ddaear," ebe yr hen ŵr. Dywedais wrtho fod tair coron aur ar ben y Pab, ond mai coron o ddrain gafodd yr Iesu ar ei ben. Nid oedd gan Iesu Grist le i roddi ei ben i lawr, tra y mae y Pab yn preswylio mewn palas gorwych. Dywedai Iesu Grist nad oedd ei deyrnas o'r byd hwn, ond y mae y Pab yn hawlio teyrnas ddaearol, a hyny gyda llef uchel. Chwi a welwch, meddwn, fod ymddygiad ac ysbryd y Pab yn hollol groes i'r eiddo Iesu Grist. Ychydig ymhellach ymlaen yn yr un gymydogaeth, ymddyddanasom â thŵr o bymtheg o bersonau am yr iachawdwriaeth drwy ras y mae Iesu Grist yn ei rhoddi, am hawliau a dyledswyddau pob Cristion i ddarllen a myfyrio Gair Duw, a'r rhesymau gau a roddid gan Eglwys Rufain fel gwaharddiad i'r werin i ymwneyd â'r Gyfrol Sanctaidd. Cymeradwyai pawb o honynt yr hyn a ddywedem, a phrynodd morwr ieuanc Destament Newydd. Ychydig gamrau ymhellach prynodd penteulu Destament er mwyn clywed ei ddarllen yn y teulu gan ei blant, am nad allai efe ddarllen. Y mae y diweddaf wedi bod amryw weithiau yn ein cyfarfodydd. Gyda chydsyniad ei wraig a'i blant y prynodd y Gyfrol Sanctaidd. Y mae yn byw yn Treboule chwaer i offeiriad. Y flwyddyn ddiweddaf yr oedd ei brawd, yr hwn sydd yn dilyn ei alwedigaeth mewn plwyf yn agos i Fouesnant, ar ymweliad â'i chwaer, pan aeth y ddau Fiblgludydd i mewn i'r tŷ i gymhell Gair Duw. Cymerodd y chwaer y Testament Newydd o law y Biblgludydd, ac aeth âg ef i'w ddangos i'w brawd, yr offeiriad, oedd mewn ystafell arall. Dywedodd ei brawd wrthi nad oedd yn llyfr drwg. Y chwaer a adroddai yr hanes yn ein clyw wrth gymydoges iddi, yr hon hefyd a brynodd Destament Newydd. Cymhellasom hwynt yn daer i fyfyrio yn y Gair, ac i roddi eu hymddiried yn addewidion yr Efengyl. Yn ein hymweliad diweddaf â'r gymydogaeth cawsom fod cyfnewidiad amlwg er gwell mewn perthynas i Air Duw.

*Pouldergat.*—Cynnygiasom i offeiriad y plwyf gopi o'r Cyfieithiad Ffrancaeg o Air Duw. Atebodd ei fod wedi cael amryw o'r rhai a werthasom yn y gymydogaeth y troion o'r blaen. "Nid ydych yn credu yn y Forwyn Fendigaid," meddai. "Yr hyn ydych yn feddwl ydyw," atebais, "nad ydym yn ei chymeryd fel Cyfryngwr rhyngom a Duw, am y rheswm fod yr efengyl yn dyweyd—Mai un Cyfryngwr sydd rhwng Duw a dynion, y dyn Crist Iesu." "Cyfryngodd y Forwyn yn mhriodas Cana," meddai. "Dywedodd wrth ei mab fod y gwin wedi pallu, ond gwyddoch ateb yr Iesu iddi," atebais. "Pan ddeallodd ewyllys ei mab, aeth at y rhai oedd yn gwasanaethu, &c. Dywedai y Forwyn am gyfeirio ein deisyfiadau at Iesu Grist ac nid ati hi." Gan na fedrai yr offeiriad gael rhesymau yn yr Ysgrythyrau yn ffafr eiriolaeth y saint, trodd at yr arferiad ymhlith dynion, a dywedodd: "Pan fyddo un o'r bobl yn dewis cael rhyw ffafr oddiwrth frenin, neu rywun o sefyllfa uchel arall, y mae yn gwneyd defnydd o gyfryngau." "Ië," meddwn, "felly y gwneir gan ddynion y byd, ond beth a feddyliech chwi o honwyf, pe yn dewis cael rhyw ffafr

genych, am ofyn i'ch gwas fyddai yn eich ymyl i eiriol droswyf, a chwithau eich hun yn fy nghlywed. Cyfrifech fi, a hyny yn rhesymol, yn ddyn disynwyr. Gan fod Duw yn Hollbresennol, ynfydrwydd fyddai defnyddio cyfryngwr tuag at agosâu ato." Gan nad oedd dim modd dyfod allan o'r dyryswch, ymneilldnodd yr offeiriad i'w ystafell, ond mewn tymher dda, yr hyn sydd yn beth dyeithr iddynt pan wedi eu rhwydo. Yr oedd pedwar o bersonau yn dystion o'r ymddyddan.

Cynnygiasom y Bibl i offeiriad Pouldavid ac i amryw offeiriaid yn Douarnenez, y rhai a ddiolchent ond na fynent ymddyddan â ni.

Addefir yn fynych wrthym, mai Protestaniaeth sydd yn rhagori, a dywedai gwraig wrthym yn Juch nad oedd yn gweled pa reswm oedd gan yr offeiriaid i warafun y Bibl i'r werin.

---

## DOSBARTH MAWPHLANG.

### Y GENADAETH FEDDYGOL.

Mewn llythyr dyddiedig Rhagfyr 18fed, ysgrifena Dr. A. D. Hughes fel y canlyn:—"Bydd yn dda genych ddeall ein bod newydd gyflawni yn yr ysbytty hwn, mewn dull tra llwyddiannus, *operation* a elwir *suprapubic lithotomy*. Dyma'r *operation* gyntaf o'r fath a wnaed ar ein maes cenadol, a'r *suprapubic operation* gyntaf yn y Dalaeth, fe ddywedir i mi. Credaf y bydd yr amgylchiad hwn yn foddion i dori i lawr lawer iawn o ofergoeledd ac ellyll-wasanaeth yn y wlad hon, a gwêl y bobl y gellir gwella afiechyd a ystyriwyd ganddynt hwy hyd yma yn anfeddyginiaethol a marwol."

---

## DOSBARTH SHANGPOONG.

### TAITH TRWY RANAU O JAINTIA.

Llythyr oddiwrth y Parch. Robert Evans.

Shangpoong, Jowai,
Shillong, Assam, India,
Rhagfyr 30ain, 1889.

Ar yr 17eg o'r mis hwn, cychwynais am daith o wythnos i Suhtynga a'r pentrefi cylchynol; a chawsom daith hynod o gysurus gyda golwg ar y gwaith. Mae y rhan yma o'r wlad yn myned yn lle pwysig iawn, gan fod yma nifer go fawr o bentrefi, a'r rhai hyny wedi dechreu symud at Gristionogaeth. Ychydig amser yn ol yr oedd y rhanbarth hwn ar ol pentrefi eraill gryn lawer, ond y mae yn awr fel pe byddai am wirio y geiriau hyny, "y rhai olaf a fyddant flaenaf."

Wedi cyrhaedd yno pregethais i, a chawsom gyfarfod arall ar ol. Yr oeddwn i yn cysgu mewn congl o'r ysgoldy, ac yr oedd hi yn oer iawn. Yr oedd y gwynt yn rhuo; a chan fod agorfa yn mur yr ysgoldy ar bob ochr, ac heb ddim drysau arnynt, gellwch feddwl am fy sefyllfa, ac i ryw raddau gydymdeimlo â mi. Yr achos oedd fod y Cristionogion wedi bod wrthi yn galed yn adeiladu yr ysgoldy, ond heb allu ei orphen o'r ddau beth angheurheidiol a enwyd. Ceisiwyd cynneu tân ar y llawr, ond gan fod y gwynt yn gwasgaru y mwg gymaint, bu raid ei ddiffodd. Cauwyd rhanau o'r agorfeydd â matiau; ond gan fod y pethau hyny yn brinion ar y pryd, ychydig iawn o help oeddynt, fel y gellid galw y lle yn brif-ffordd y gwynt. Er hyny "mi a orweddais, ac a gysgais, ac a ddeffroais, canys yr Arglwydd a'm cynnaliodd." Nid oedd cysgu mewn lle fel yna yn galedwch *(hardship)* yn y byd, wrth weled gwaith Duw yn llwyddo. Ni bum erioed ar daith genadol â'r Arglwydd yn fwy amlwg gyda ni.

Oddiyma aethom i bentref arall, sef pentref Cristionogol newydd o'r enw Lymyrsiang, a threuliasom un noswaith yno. Yr oeddym wedi clywed fod un teulu yn agosâu at Gristionogaeth yn y lle. Cynnaliasom gyfarfod i siarad a chanu gyda'r bobl ddechreu y nos, a daeth gryn nifer o ddynion a merched i wrando. Yn yr hwyr ymwasgarasom yn ddau a dau fel llwynogod Samson i'r holl dai y caniateid i ni fyned iddynt, i egluro yr efengyl i'r bobl ac i'w cymhell hwynt i roddi eu hunain i'r Arglwydd Iesu. Yn y ty yr aethum i iddo, yr oedd y bobl yn lled ddeallus. Gofynent gwestiynau i ni am y naill beth a'r llall, ac atebem ninnau hwynt. Yr oedd eu cwestiynau yn gymhorth mawr i ni i ddeall eu meddyliau, ac i egluro yr efengyl yn fanylach iddynt. Nid oedd y naill na'r llall o honom yn blino, a pharhaodd yr ymddyddan rai oriau. Erbyn y boreu yr oedd dau deulu arall "o fewn ychydig." A thraunoeth, pan oeddym yn myned heibio i bentref arall, rhoddodd y ddau deulu hyny eu hunain i fyny, a thorwyd i lawr y pren oedd yn cynnrychioli y diafol yn eu gardd. Yn y pedwar ty hyn y mae tuag un ar bymtheg o eneidiau; a chredwyf fod yn y pentref hwn nifer eto yn cloffi rhwng dau feddwl. Bydded i Ysbryd Duw dori y ddadl yn eu heneidiau, a dwyn yr oll i afael â bywyd tragywyddol.

Ar ol cynnal cyfarfod i gadarnhau y dysgyblion, a rhoddi meddyginiaeth i'r cleifion, cychwynasom am Nongrym, sef pentref yn llywodraeth *(Dolloiship)* Nongkhlih. Mae hon yn rhan o wlad na bu yr un Cenadwr erioed o'r blaen ynddi. Fel hyn y bu i mi gael fy arwain yno:—Pan oeddym yn cadw cyfarfod yn marchnadfa Suhtynga cyn cychwyn am Lymyrsiang, daeth penaeth *(Dolloi)* Nongkhlih ataf i gyfarch gwell i mi; a sylwais ar ei wyneb ei fod yn ddyn lled ddiddichell a charedig. Wedi iddo sefyll am ychydig yn fy ymyl, aeth ymaith, a theimlais innau awydd angerddol am fyned ar ymweliad â rhai o'i bentrefi. Anfonais ddyn i ofyn a oedd yn ei bentref ef le y gallwn i a'r bobl oedd gyda mi i gysgu noson. Anfonodd yntau yn ol, gan ddywedyd, "Os gall y Saheb roddi i fyny mewn lle mae moch ac ieir wedi eu cau, gall roddi i fyny yn fy nhy i." Teimlwn fod yr atebiad yn ffafriol, a phenderfynais

fyned yno, gan gredu nas gallai fod yn waeth na rhai lleoedd eraill y bum yn-ddynt. Credwn fod Duw yn galw arnaf, a phrofwyd, fel galwad Paul i Macedonia, fod ar ryw rai anghen ein help. Mae Nongkhlih yn rhanbarth ar ei ben ei hun, gan fod trum o fryniau lled uchel ac anhawdd eu teithio rhyngddo â Suhtynga. Nid oes ond dwy ffordd i fyned iddo, neu yn hytrach ddau lwybr. O ochr Suhtynga, y mae y fynedfa yn gul a garw rhwng muriau o greigiau ceryg calch, ac o ochr Swmer, pe na byddai i bobl Nongkhlih wneyd llwybr eu hunain, byddai bron yn anmhosibl i neb fyned yno, gan fod y glaswellt a'r corsenau yn uchel, a'r *jungle* yn drwchus. Yn amser gwrthryfel Jaintia, Nongkhlih oedd prif noddfa y bobl rhag y Saeson, am ei fod yn lle mor anhawdd myned iddo. Wrth fyned megys i wlad arall, yr oeddwn yn llawn awydd gweled y wlad a'r trigolion, gan eu bod yn ymddangos fel pobl lonydd wrthynt eu hunain, ac heb nemawr gymdeithas â neb. Nid yw yn lle mawr, na'r bobl yn lliosog, gan mai ar brin gant a hanner o dai y mae y *Dolloi* yn llywodraethu. Mae ffurf y wlad fel padell, a'r muriau o'i hamgylch yn cyfansoddi ei hymylon. Mae yr holl wlad i'w gweled oddiar un o'r trumiau sydd o'i hamgylch.

Wedi cyrhaedd yno ni bu raid i mi gysgu gyda moch ac ieir, gan fod y *Dolloi* wedi gwaghau ystafell ddyrchafedig at fy ngwasanaeth, lle y byddai yn arfer cadw ei *rice* a'i ffrwythau. Er mwyn cydnabod cared igrwydd, rhoddais gwpaned o dê i'r *Dolloi* a'r prif ddynion. Ar ol y tê yr oeddym oll mewn hwyl i gael ymddyddan cyfeillgar am awr neu ddwy. Gofynasom gwestiynau ynghylch eu crefydd, a dywedasom ychydig am y Duw byw a'r grefydd yr oeddym ni yn broffesu. Gofynasom a oeddynt oll wedi clywed canu Cristionogol. Dywedai rhai eu bod, ac eraill nad oeddynt. Pan ddechreuasom ganu, daeth bron bawb i ddrysau eu tai. Ar ol canu nifer o hymnau aethom i orphwys, gan gredu ein bod wedi codi chwilfrydedd y bobl, ac y caem gynnulleidfa led dda boreu drannoeth. Boreu drannoeth nid oedd eisieu ond canu, a daeth rhai ugeiniau atom yn y fan, ac eraill i ddrysau eu tai, i weled a gwrando. Wedi canu tôn neu ddwy gelwais y meibion a'r merched i ddyfod yn nês atom. Chwarddai y merched, a chlywn hwynt yn dyweyd wrth eu gilydd, "Y mae efe yn gallu siarad Synteng;" ac o ychydig i ychydig daethant yn nês, nes ffurfio cynnulleidfa led gryno. Anerchodd chwech o honom y gynnulleidfa yn fyr, a chanasom rhwng pob anerchiad. Yr oedd U Long Hadem gyda ni ar y daith, a daeth athraw Suhtynga (U Syngkai) ac U Kypa U Ri (neu U Khulu) o'r un lle gyda ni i'r pentref hwn. Siaradai y rhai hyn, ynghyd a'r dynion oeddynt yn cario fy ngwely a'm llestri coginio, gan ein bod oll yn Gristionogion zelog. Y mae U Kypa U Ri yn ddyn ag y mae yr Arglwydd yn ddiammheuol yn bwriadu iddo fod yn wasanaethgar yn y rhan yma o'r wlad. Yr oeddwn wedi meddwl am dano o'r blaen; ond ar y daith hon gwelais werth mawr i'r efengyl ynddo. Nid yw yn deall llawer eto; ond y mae yn dysgu. Daeth at grefydd pan yn agos i ddeugain oed, ac y mae wedi dysgu darllen yn dda. Bu yn un o brif ddynion pentref Suhtynga am flynyddoedd, fel y mae yr holl wlad yn y cyfeiriad hwnw yn ei adnabod. Dyn tlawd ydyw, ond y mae wedi rhoddi llawer o'i amser i'r efengyl, gan mai ato ef y bydd y bobl yn dyfod pan y maent mewn trallod. Mae ganddo wroldeb mawr hefyd i bregethu yr efengyl, a gŵyr pa fodd i'w gosod o flaen y bobl fel y deallant hi. Os yw yr Arglwydd yn meddwl iddo weithio yn y rhan yma o'r wlad, yr wyf yn credu y daw deg *rupee* yn y mis o rywle tuag at ei gynnal.

Wedi canu yn iach i bobl Nongkhlih cyfeiriasom ein camrau tua Mawlait. Daeth tua thriugain i gysylltiad â'r Efengyl yn y pentref hwn y flwyddyn ddiweddaf, ac y mae y gwrandawyr erbyn hyn yn rhifo yn agos i bedwar ugain a deg. Mae, fel y gellwch feddwl, anghen dysgu a gofalu mawr arnynt. Ar ol cyrhaedd, pregethodd U Long Hadem, a chawsom gyfarfod arall i'w cyfarwyddo, ac adrodd hanesion Ysgrythyrol iddynt wedi hyny. Wedi hyny derbyniasom chwech i'r eglwys ar brawf. Yn Mawlait derbyniwyd chwech o driugain oeddynt wedi bod mewn cysylltiad â Christionogaeth am yn agos i ddwy flynedd. Ymwelais â phob tŷ yn y pentref, a chynnaliasom gyfarfod arall cyn ymadael i siarad gydâ golwg ar symud y pentref neu ffurfio pentref Cristionogol, a chyda golwg ar lwyrymwrthodiad â'r ddiod feddwol.

Oddiyma daethom yn ol drachefn i Suhtynga i dreulio y Sabboth. Ar ol y cyfarfod gweddi arferol, cawsom gyfarfod i dderbyn un yn gyflawn aelod ac i ymbarotoi erbyn yr Ordinhad o Swper yr Arglwydd drannoeth. Cawsom dair oedfa. Yn y gyntaf pregethodd U Mon Bhoi; yn yr ail, gan nad oedd nemawr i'w bedyddio na llawer i dderbyn yr ordinhad, pregethais innau; ac yn y diweddaf pregethodd U Long Hadem. Yn yr oedfa hon yr oedd y *Dolloi* a'r offeiriaid yn bresennol. Ar ol y bregeth, cawsom rydd ymddyddan am grefydd gyda'r *Dolloi*. Tueddai ar y cyntaf i ddadleu; ond dygwyddais ddyweyd gair ynghylch ei grefydd ef a barodd iddo gywilyddio a chwerthin. Ar ol hyn, pan oedd oddeutu pump o'r gloch, aeth nifer o honom i'r pentref i gynnal cyfarfod; ac wrth fyned cyfarfyddwyd ni gan dri o bersonau—gŵr a gwraig a mab—o un o bentrefi Nongkhlih, wedi dyfod wyth neu ddeng milldir o ffordd i roddi eu hunain i Iesu Grist. Yr oeddynt wedi clywed ein bod wedi dyfod yn agos, a dysgwylient ni i'w pentref hwy; ond yn lle myned yno daethom yn ol. A thrannoeth penderfynodd y teulu ein goddiweddyd yn Suhtynga. Llamai ein calonau o lawenydd, gan fod iddynt ddyfod yr holl ffordd yna yn fwy o brawf eu bod o ddifrif, na phe buasem ni wedi myned i'w pentref. Wedi dyfod yn ol o'r cyfarfod yn y pentref,

buom yn dysgu y bobl hyn, nes oedd hi yn hwyr y nos, yn ffordd iachawdwriaeth. Yr achos iddynt adael eu hen grefydd oedd iddynt roddi pob peth oedd y duwiau yn ofyn er iachâd eu merch, ac iddi farw er y cwbl.

Clywais heddyw fod tri theulu, y rhai y buom yn pregethu iddynt yn Suhtynga nos Sabboth, wedi dyfod at Gristionogaeth.

---

## Sylhet.

Derbyniwyd rhai llythyrau oddiwrth Miss Williams Mewn un dyddiedig Ionawr 15fed, dywedai fod Mrs. Kennedy, gwraig yr Is-Ddirprwywr, yn garedig wedi ei chymeryd i'w thŷ nes y byddai lle arall yn barod. Wedi adrodd iddi fyned i'r Henaduriaeth i Shangpoong, ychwanega:—"Ac yn awr gair neu ddau am y Bryniau, fy argraffiadau cyntaf o berthynas i'r Khasiaid a'r gwaith. Wel, yr wyf yn meddwl mai y Cyfundeb Methodistaidd ydynt mewn perffeithrwydd. Yr oedd yn hynod o dda genyf i mi fyned i'r Henaduriaeth. Yr oedd gweled amryw gannoedd o'r Khasiaid, y rhai unwaith a eisteddent mewn tywyllwch, ond yn awr wedi eu dwyn i oleuni, yn ymgynnulledig i addoli, â'u holl galon, yr unig wir a bywiol Dduw, yn dwyn y fath lawenydd a thangnefedd i'n calon. Yr ydoedd yn wir yn olygfa a alwai am foliant yr angylion yn y nefoedd. Meddyliwn os oedd y llawenydd yn fy nghalon fechan i mor fawr, pa beth raid fod llawenydd ein hanwyl Waredwr? Ceisiwn ddywedyd, 'Bydded dy ewyllys ar y ddaear megys y mae yn y nefoedd.' Yr oedd y gwasanaeth, bid siwr, yn hollol annealladdwy i mi, er hyny mwynhawn ef yn drwyadl. Yr oedd y parchusrwydd gyda pha un y dywedent, 'Ah! U Blei.' 'O Dduw,' a phereidd-dra enw ein Gwaredwr 'U Jisu Khrist,' fel yn rhoddi i mi nerth adnewyddol i'm gwaith. Rhaid i mi ddyweyd fod enw ein Cyfrynwr yn cael ei grybwyll yn fwy mynych yn ystod un bregeth yn Khasia nag y gwneir yn ystod pedair mewn rhai lleoedd gartref. 'Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio' yw y cwbl."

---

### RHODDION AT Y GENADAETH.

Y mae y Parchn. J. Ceredig Evans, Cherra, a J. Pengwern Jones, Sylhet, yn cydnabod gyda diolchgarwch gwresog amryw sypynau a ddderbyniwyd o Aberystwyth ac o Gaernarfon. Mae y pethau a anfonwyd yn dra buddiol a gwasanaethgar. Os bydd cyfeillion yn cael ar eu meddyliau i anfon defnyddiau dilladau, a phethau eraill, at wasanaeth ysgolion y genethod, derbynir hwynt yn ddiolchgar. Gofaler am eu cyfeirio i'r Ysgrifenydd, *c/o* Messrs. D. & L. Hughes, Fenwick Court, Fenwick Street, Liverpool. Anfoner hysbysrwydd am gynnwys pob sypyn i'r Ysgrifenydd.

### DERBYNIADAU AT Y GENADAETH.

Dymuna y Trysorydd Cyffredinol gydnabod yn ddiolchgar dderbyniad y symiau canlynol er yr hysbysiad diweddaf:—

| | £ | s. | d. |
|---|---|---|---|
| Dwyrain Morganwg ... .. .. | 27 | 18 | 5 |
| Sir Benfro.. ... ... ... ... | 2 | 15 | 5 |
| O Gyfarfod Misol Liverpool... ... | 76 | 6 | 0 |
| Eto. Canghen y Chwiorydd... ... | 283 | 5 | 2 |
| Sir Fflint ... ... ... .. .. | 16 | 0 | 0 |
| America, trwy law Mr. E. E. Jones, Columbus, Wis. ... ... .. | 44 | 0 | 0 |
| Llundain ... ... ... ... .. | 108 | 2 | 7 |
| Casglwyd gan Miss D. James ... | 0 | 11 | 6 |
| Dyffryn Conwy ... ... .. ... | 3 | 10 | 9 |
| Derbyniwyd am Lyfr Mr. J. Herbert Roberts, "Bryniau Khasia" | 7 | 16 | 0 |
| Mr. a Mrs. Richards, West Kirby... | 1 | 1 | 0 |
| Trefaldwyn Isaf... ... .. ... | 111 | 9 | 4 |
| Gorllewin Morganwg .. ... ... | 30 | 11 | 7 |
| Henaduriaeth Morganwg, &c. ... | 3 | 5 | 1 |
| Sir Fynwy... .. ... ... .. | 26 | 7 | 6 |
| Robert Davies, Ysw., U.H., Bodlondeb, Bangor, ei danysgrifiad am 1889 ... ... ... ..1000 | 0 | 0 | |
| Miss L. Edwards, trwy law y Parch. T. Levi .. ... ... ... .. | 0 | 10 | 0 |
| I'w defnyddio at y Genadaeth .. | 0 | 10 | 0 |
| Henaduriaeth Lancashire .. .. | 103 | 14 | 8 |
| Casglwyd gan H. Jones a H. Eynon, Rhymney .. ... ... ... | 0 | 10 | 0 |
| Cymro, 5s. i bob un o'r teuluoedd a gollediwyd trwy dân yn Mawpuh . | 0 | 15 | 0 |
| Miss Bessie Bold Thomas, 172, Chatham Street, Liverpool, eto.. | 0 | 5 | 0 |
| "Ewyllysiwr Da," eto... .. .. | 1 | 0 | 0 |
| Chwaer o Llandudno, eto .. ... | 0 | 10 | 0 |
| Cyfeillion i'r Genadaeth yn Mhwllheli, eto ... ... .. ... ... | 1 | 10 | 0 |
| "A," eto .. .. ... ... ... | 1 | 0 | 0 |
| Eto, tuag at y gwaith yn gyffredinol | 1 | 0 | 0 |
| Cyfaill y Genadaeth ... ... ... | 1 | 0 | 0 |
| "*Friend*," Talybont, i Dr. Griffiths i'w defnyddio fel y gwelo yn oreu | 0 | 10 | 0 |
| Sir Gaerfyddin ... ... .. ... | 104 | 12 | 9 |
| M. E, Heneglwys, tuag at y gwaith yn Sylhet ... ... ... ... | 0 | 10 | 0 |
| Manchester ... ... ... ... | 50 | 0 | 0 |
| Cymunrodd y diweddar Barchedig David Williams, Llanrhaiadr, Sir Drefaldwyn, trwy law Mrs. Williams, yn rhydd oddiwrth y doll | 50 | 0 | 0 |
| Casgliad y plant, Portmadoc ... | 0 | 18 | 10 |
| Eto, Penybryn .. .. .. ... | 1 | 5 | 0 |

---

Derbynir rhoddion at y Genadaeth gan y Trysorydd, David Hughes, Esq., J.P., 4, *William Moult Street, Liverpool.*

☞ Gellir talu unrhyw swm mewn unrhyw gangen o'r *North and South Wales Bank, to the credit of Mr. David Hughes, Treasurer of the Welsh C. M. Foreign Missionary Society.* Gofaler am i bob *cheque* neu *Postal Order* a anfonir fod yn "crossed."

Derbynir rhoddion at Drysorfa Gweddwon ac Amddifaid Cenadon, &c., gan J. Herbert Lewis, Esq., J.P., *Central Buildings, North John Street, Liverpool.*

Pob llythyrau yn achos y Gymdeithas i'w cyfeirio i'r Ysgrifenydd, *The Rev.* Josiah Thomas, M.A., 28, *Breckfield Road Scuth, Liverpool.*

P. M. Evans and Son, Argraffwyr, Treffynnon.